

## Pennod 1: Cyflwyniad

### 1.1 Arfau a'r Bardd

Yn y gynharaf o'r llawysgrifau sy'n cynnwys y Gramadegau barddol a briodolir i Einion Offeiriad a Dafydd Ddu, sef llsgr. Peniarth 20, dywedir y dylid moli arglwydd *o 'y gedernyt, a 'y dewred, a 'y vilwryaeth*. Daw hyn ar frig rhestr o nodweddion eraill, gan gyfeirio hefyd at *allu ar wyr a meirch ac arueu, ac adurnyant gwisgoed ac arueu a thlysseu*.<sup>1</sup> Er bod y 'Gramadegau' wedi eu hysgrifennu rai degawdau ar ôl y cerddi diweddarach a ystyrir yn yr astudiaeth hon, adlewyrchant yn deg bwysigrwydd arfau fel rhan o 'arfogaeth' lenyddol y beirdd drwy'r Oesoedd Canol: caiff arfau eu defnyddio wrth foli gwrhydri a milwriaeth, ac fel rhan o ddarlun arwrol o wrthrych cerdd a awgrymai harddwch personol, cyfoeth a statws yn ogystal â rhinweddau milwrol.<sup>2</sup> Nid i ganu mawl i arglwyddi yr oedd arfau'n gyfyngedig, ychwaith, – fe'u gwelir mewn cerddi i osgorddion ac i swyddogion, ac mewn cerddi mawl a cherddi ymffrost sy'n darlunio'r bardd ei hun fel rhyfelwr. Ac fe'u defnyddid yn symbolaidd, yn ffigurol neu'n drosiadol mewn amrediad eang o *genres* gan gynnwys canu crefyddol a cherddi i wragedd yn ogystal â chanu mawl i wrthrychau gwrywaidd.

Nid yw'n syndod fod y beirdd wedi gwneud defnydd mor helaeth o arfau yn eu cerddi. Mae croniclau megis *Brut y Tywysogion* yn tystio i hollbresenoldeb brwydro drwy gyfnod y Tywysogion, a'r tywysogion eu hunain, fel llywodraethwyr canoloesol eraill, yn aml yn defnyddio dulliau arfog wrth adeiladu neu amddiffyn eu teyrnasoedd.<sup>3</sup> Mynegwyd y ffaith

---

<sup>1</sup> G.J. Williams and E.J. Jones (eds.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Cardiff, 1934), t. 56. Mae'r llawysgrif hon, a ddyddiwyd i tua 1330, yn cynnwys fersiwn o'r gramadegau y credir iddo gael ei olygu gan Dafydd Ddu o Hiraddug. Mwy cryno yw'r rhestrau o nodweddion yn y fersiwn cynharach a briodolir i Einion Offeiriad (y credir iddo gael ei ysgrifennu yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg), ac ni chrybwyllir arfau, er bod gwrhydri a milwriaeth yn cael lle blaenllaw bob amser (cymh. fersiynau llsgrau. Llyfr Coch Hergest (c. 1400) a Llanstephan 3 (c. 1425) yn G.J. Williams ac E.J. Jones (goln.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, tt. 16 a 34, ac am ddyddiad a chefnid y testunau hyn gw. R. Geraint Gruffydd, 'Wales' Second Grammarian: Dafydd Ddu of Hiraddug', *Proceedings of the British Academy*, 90 (1995), 1-29).

<sup>2</sup> Mae nifer o ysgolheigion wedi sylwi ar le blaenllaw rhyfel yng ngherddi Beirdd y Tywysogion; gw. Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976), t. 142; J.E. Caerwyn Williams, *The Poets of the Welsh Princes* (Cardiff, 1994); R. Geraint Gruffydd, 'Beirdd y Tywysogion', *Llên Cymru*, 18 (1994), 26-37 (31); Morfydd E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', yn Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), tt. 75-107 (t. 76), a Rhian M. Andrews, WCP tt. xxvii-xxviii.

<sup>3</sup> ByT (Pen. 20) a ByT (RBH), ac am hanes Cymru yn y cyfnod hwn gw. J.E. Morris, *The Welsh Wars of King Edward I* (Oxford, 1901; 1996 edition); John Edward Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 vols (3<sup>rd</sup> edition; London, 1939); David Walker, *Medieval Wales* (Cambridge, 1990); R.R. Davies, *The Age of Conquest: Wales 1063-1415* (Oxford, 1991); David Moore, *The Welsh Wars of Independence* (Stroud, 2007), a Max Lieberman, *The March of Wales 1067-1300: A Borderland of Medieval Britain* (Cardiff, 2008).

anhfryd hon yn gofiadwy gan Brydydd y Moch – bardd y gall ei ffugenw adlewyrchu ei natur ddiflewyn-ar-dafod – wrth ganmol Dafydd ab Owain Gwynedd (CBT V 1.25-8):

Pen Bryn Ceredig, nid cariad—a'i dug  
Yn dëyrn pymthengwlad  
Namyn gwayw yn gwân o'i angad  
A llafn coch yn llaw gynifiad.

Ond nid grym milwrol ymosodol oedd y stori gyfan, hyd yn oed ym mydolwg cyfyngedig y beirdd. Mae nodweddion megis llinach fonheddig a dawn wrth arwain neu lywodraethu yn cael eu crybwyll weithiau,<sup>4</sup> a hyd yn oed yn achos cyfeiriadau at arfau y mae cysylltiad yn aml â swyddogaeth y tywysog wrth amddiffyn ei wlad a'i bobl.<sup>5</sup> Mewn oes pan oedd brwydro mynych rhwng yr arglwyddi Cymreig, yn ogystal â bygythiadau oddi wrth yr Eingl-Normaniaid pwerus, roedd dawn tywysog i uno ei wlad ac i'w hamddiffyn – boed hynny drwy ddulliau diplomyddol neu drwy rym arfau – yn bwysig nid yn unig i'r lleiafrif breintiedig a wrandawai ar gerddi'r beirdd ond hefyd i bawb yn y wlad.<sup>6</sup>

Byddai brwydro wedi rhoi gwobrau mwy uniongyrchol i rai o ddilynwyr y tywysogion, gan gynnwys rhai beirdd. Nid oedd casglu eiddo symudol fel ysbail yn cael ei ystyried fel peth gwarthus o gwbl, ac fe gyfeirir yn aml at yr arfer hwn yn y croniclau Cymraeg ac yng ngherddi'r beirdd.<sup>7</sup> Yn wir, yn ôl y cyfreithiau Cymreig roedd gan y *bardd teulu* hawl i gael

---

<sup>4</sup> Tynnodd J. Beverley Smith, 'Gwlad ac Arglwydd', yn M.E. Owen a B.F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion*, tt. 236-57 (tt. 240-1), sylw at rai enghreifftiau o feirdd yn canmol Llywelyn ab Iorwerth fel llywodraethwr, er nodi mai ei filwriaeth a'i haelioni a ganmolid fwyaf, a hynny hyd yn oed yn ystod blynyddoedd mwyaf sefydlog ei deyrnasiad. Gw. hefyd M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', tt. 75-6, a Meirion Pennar, 'Beirdd Cyfoes', *YB* 13 (1895), 48-69. Mae enghraifft gofiadwy o ganmol tywysog fel llywodraethwr a fu'n sicrhau ffyniant ei wlad ym 'Marwnad Owain Gwynedd' Cynddelw, CBT IV 4.213-18 *Tra fu Owain mawr a'i meddai / Medd a gwin ein gwirawd fyddai. / Gwynedd wen (Gwyndyd len letbai), / Gwedi gwawr cadfawr a'i cadwai / Pa wladwr, arwr ar wyndai, / Pa wledig a wledych arnai?*

<sup>5</sup> Gw. Pennod 3 isod, ac yn enwedig yr ymdriniaeth â tharianau yn adran 3.13.8.

<sup>6</sup> Cymh. Wendy Davies, *Patterns of Power in Early Wales* (Oxford, 1990), tt. 17-18 (yn trafod y cyfnod o'r chweched ganrif hyd yr unfed ganrif ar ddeg): 'In most types of texts and especially – and explicitly – in the vernacular, the most emphasized qualities of rulership at all periods are military: rulers are warriors and need to be competent ones'. Adlewyrchir yr agwedd filwrol ar sofraniaeth mewn chwedlau canoloesol, megis yng ngeiriau Luned i 'Iarlles y Ffynnawn', *Owein*, llau. 411-12 *'Ti a wdost na ellir kynnal dy gyfoeth di namyn o vilwryaeth ac arueu'* (gw. ymhellach Regine Reck, *The Aesthetics of Combat in Medieval Welsh Literature* (Wiesbaden, i'w gyhoeddi), adrannau 3.1.1 a 4.2.5, a Catherine A. McKenna, 'The Theme of Sovereignty in *Pwyll*', *B* 29 (1980), 35-53 (48-49)).

<sup>7</sup> Cyfeirir yn benodol at ysbail yn cynnwys *arfau* neu *wisgoed* – a'r ddau derm hwn yn medru dynodi arfwisgoed – yn ByT (RBH) d.ff. 1109, 1136, 1158 a 1260; ByT (Pen. 20) tt. 48, 87 a 212. Am gyfeiriadau'r beirdd at ysbail gw., e.e., CBT II 22.5-6 *I edmyg dinag, dinas mawrfaith—clod, / Cleddyfrudd yn anrhaith*; III 21.97 *Oedd brwysg braisg lafnawr can breiddiawr brès, a V 24.48 A gwaedlafn adfuddiawg 'A llafn gwaedlyd yn ysbeilio [llawer]'. Mae englyn o waith Einion Wan yn awgrymu bod ysbail yn un o'r ffactorau a barodd i fyddin Llywelyn ab Iorwerth frwydro drosto, hyd yn oed (VI 5.45-50 *Gwelais yn llawen . . . / Gan Lywelyn ganwaith / Ei gigfrain . . . / A'i lu o led ei anrhaith*). Am bwysigrwydd a delwedd anrhydeddus cyrhoedd ysbail penodol, yn enwedig ar gyfer gwartheg (neu geffylau), gw. Gruffydd Aled Williams, 'Welsh Raiding in the Twelfth-Century Shropshire/Cheshire March: The Case of Owain Cyfeiliog', *Studia Celtica*, 40 (2006), 89-115 (105-6); Frederick C. Suppe, *Military Institutions on the Welsh Marches: Shropshire, A.D.**

rhan o'r ysbail a enillid mewn gwlad estron,<sup>8</sup> ac roedd canu wrth i'r ysbail gael ei rhannu yn un o'i ddyletswyddau yn ôl fersiwn Llyfr Iorwerth.<sup>9</sup> Yn fwy cyffredinol, byddai tywysog a enillodd rym a chyfoeth drwy ymladd yn medru bod yn fwy hael wrth ei fardd teulu, ac wrth feirdd eraill nad oedd ganddynt gysylltiad swyddogol â'i lys.<sup>10</sup> Ac ar lefel genedlaethol, byddai'r beirdd wedi cysylltu grym milwrol tywysogion â pharhad y drefn gymdeithasol a'r diwylliant a roddai eu bywoliaeth a'u statws iddynt hwythau.<sup>11</sup> Ond er gwaethaf yr elfennau 'ymarferol' hyn, mae cerddi'r beirdd yn aml yn ymddangos fel pe baent yn canmol milwriaeth fel peth da ynddo ef ei hun, ac fel all eu 'hymhyfrydu' yn eu disgrifiadau o ymladd fod yn wrthun i deimladau darllynydd o'r unfed ganrif ar hugain.

Awgrymodd J.E. Caerwyn Williams y gellir cysylltu'r 'wild delight in warfare' a adlewyrchir mewn rhai cerddi nid cymaint â'r brwydro fel y cyfryw, ond â'r teimladau o gwmniaeth ('camaraderie') a brawdgarwch a dyfai o'r brwydro.<sup>12</sup> Yn yr un modd, nododd

---

1066-1300 (Woodbridge, 1994), pennod 1, a Sean Davies, *Welsh Military Institutions, 633-1283* (Cardiff, 2004), t. 45. Nid oedd ysbeilio'n gyfyngedig i'r Cymry, wrth reswm; roedd yn arfer cyffredin gan yr Eingl-Sacsoniaid (Richard Underwood, *Anglo-Saxon Weapons and Warfare* (Stroud, 1999), t. 111), a chan y Normaniaid a'r Eingl-Normanaidd hwythau. Dangosir arfwisgoedd ac arfau'r meirw yn cael eu casglu ar waelod golygfeydd olaf tapestri Bayeux, er enghraifft (David M. Wilson, *The Bayeux Tapestry* (London, 1985), platiau 71-2), ac fe gyfeirir at ysbeilio ym mrwydro Hastings hefyd yn *Roman de Rou*, rhan III, llau. 7458-60, ac yn y *Gesta Normannorum Ducum*, 16.(37).

<sup>8</sup> *Welsh Medieval Law*, 22.15-19 *Bard teulu a geiff eiddon o pop anreith y bo wrth ydwyn gyt ar teulu, a ran gwr mal pop teuluwr arall; Llyfr Blegywryd*, 22.21-25 *Os bard teulu a gan bardoni y gyt a theulu y brenhin vrth dwyn anreith, y llwdyn goreu o'r anreith a geiff*, a *Llyfr Iorwerth*, §13.11-14 *Ef a dele buvch neu ych o'r anreith a wnel e teulu eg gorwlat, gwedy e del e'r brenhyn e traean*. Wrth drafod cyfeiriadau Cynddelw at *braidd*, ymhlith rhoddion eraill, nododd Ann Parry Owen, "'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan'": Cynddelw Brydydd Mawr a'i Grefft', yn M.E. Owen a B.F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion*, tt. 143-65 (t. 159), nad oedd awgrym iddo gael y pethau hyn fel hawl cyfreithiol, ond y gallai'r arfer o roi rhan o'r ysbail i feirdd fod 'yn draddodiad ac iddo sail gyfreithiol yn wreiddiol'.

<sup>9</sup> *Llyfr Iorwerth*, §13.11-14. Awgrymodd Dafydd Jenkins, *The Law*, t. 227, fod canu wrth rannu'r ysbail yn 'vestigial practice', wrth gymharu fersiwn Llyfr Iorwerth â'r fersiynau eraill. Am swyddogaeth y *bardd teulu*, o'i gymharu â'r *pencerdd*, gw. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986), tt. 203-7, a Dafydd Jenkins, '*Bardd Teulu and Pencerdd*', yn T.M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen and Paul Russell (eds.), *The Welsh King and His Court* (Cardiff, 2000), tt. 142-66, ac am gysylltiadau milwrol y *bardd teulu* gw. isod adran 1.3.

<sup>10</sup> Gw. D. Jenkins, '*Bardd Teulu and Pencerdd*', tt. 158-61, am annibyniaeth y *pencerdd* a'i hawl i chwilio am nawdd mewn gwahanol lysoedd. Mae'n werth sylwi mai haelioni yw'r rhinwedd arall a folir fwyaf gan Feirdd y Tywysogion, ar ôl y rhinweddau milwrol. Rhoddir lle pwysig i haelioni yn y Gramadegau barddol, hefyd, e.e. cyfeirir yn benodol yn fersiwn Dafydd Ddu (Llsg. Peniarth 20) at *hayloni rodyon a gwledeu* (G.J. Williams and E.J. Jones (eds.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. 56).

<sup>11</sup> Roedd ganddynt, felly, resymau proffesiynol dros hybu'r tywysogion, er nad yw hynny'n golygu nad oedd ganddynt argyhoeddiadau a theimladau dwfn, nid yn unig o safbwynt cenedlgarwch ond hefyd o ran eu teyrngarwch personol tuag at y tywysogion. Am swyddogaeth wleidyddol y beirdd wrth gynnal llywodraethiad y tywysogion, ac wrth eu beirniadu, weithiau, gw. Pennar, 'Beirdd Cyfoes'; M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd'; J.B. Smith, 'Gwlad ac Arglwydd'; Peredur I. Lynch, 'Court Poetry, Power and Politics', yn Charles-Edwards *et al.* (eds.), *The Welsh King and His Court*, tt. 167-90, a Huw Pryce, 'Welsh Rulers and European Change, c. 1100-1282', yn Huw Pryce and John Watts (eds.), *Power and Identity in the Middle Ages: Essays in Memory of Rees Davies*, (Oxford, 2007), tt. 37-51 (tt. 48-9).

<sup>12</sup> *The Poets of the Welsh Princes*, tt. 26-7.

Sean Davies bwysigrwydd cwmnïaeth, ynghyd â ‘codes of honour and duty’, ymhlith cymhellion gwŷr y *teulu* neu’r osgordd: yn sicr byddai’r pethau hyn wedi eu hatgyfnerthu gan gerddi’r beirdd, gan draddodiadau Cymreig ehangach a chan naws filwrol bywyd y llysoedd tywysogaidd.<sup>13</sup> Mae’n berthnasol yn y cyd-destun hwn fod rhai o’r beirdd eu hunain yn rhyfelwyr, fel y trafodir isod (adran 1.3). Yn wir, mae’n syndod i ddarllenwydd modern nad ysgogodd profiad personol y beirdd o frwydro fwy o ymateb yn *erbyn* rhyfel yn eu cerddi. Ymddengys fod ideoleg y gymdeithas a chonfensiynau’r canu mawl wedi rhwystro’r math hwn o ganu, ar y cyfan, er bod ychydig eithriadau mewn cerddi crefyddol,<sup>14</sup> ac mae rhai o farwnadau’r beirdd yn ymdrin yn deimladol â’r colledion personol a ddeuai o ryfel.

Mae llawer o gyfeiriadau’r beirdd at arfau heb ddwyn unrhyw gysylltiad uniongyrchol amlwg â rhyfel, fodd bynnag. Yn hytrach, gellid defnyddio arfau, yn yr un modd â cheffylau bywiog, dillad cain neu dorchau aur, i gyfleu darlun o noddwr fel gwŷr hardd, cyfoethog a bonheddig. Nodwyd eisoes fod *adurnyant gwisgoed ac arueu a thlysseu* yn un o’r nodweddion eraill i’w canmol, yn ôl y Gramadegau, ac mae’n arwyddocaol fod y geiriau hyn yn dod yn syth ar ôl [*t]egwch pryt a gwed* yn fersiwn Dafydd Ddu o Hiraddug.<sup>15</sup> Prin yw cyfeiriadau uniongyrchol y beirdd at harddwch tywysogion ond, fel y nododd Elisa Moras wrth drafod yr Hengerdd, gallai beirdd ganmol harddwch rhyfelwyr yn anuniongyrchol drwy ganmol eu ceffylau a’u harfau.<sup>16</sup> Mae’r disgrifiadau o offer y bardd Gwalchmai ap Meilyr Brydydd yn ei ‘Orhoffedd’, er enghraifft, yn rhan o’r ddelwedd arwrol wych y mae’r bardd yn ei chreu iddo ef ei hun (CBT I 9.19-20):

Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy—glew,  
Llewychedig aur ar fy nghylchwy.

Diau fod ei offer *llachar, lluch a llewyrchedig* wedi eu bwriadu fel drych i’w harddwch ei hun – hyd yn oed os nad oedd Gwalchmai yn hardd, fel dyn (ac nid oes modd gwybod, yn

---

<sup>13</sup> *Welsh Military Institutions*, t. 46.

<sup>14</sup> Gw. ar ddiwedd adran 1.3.

<sup>15</sup> G.J. Williams and E.J. Jones (eds.), *Gramadegau’r Penceirddiaid*, t. 56.

<sup>16</sup> Elisa Moras, ‘Gwrywod, Gwroldeb a Gwrhydri yn y Canu Cynnar’, *Llenyddiaeth mewn Theori*, 2 (2007), 35-85. Mae nifer o gyfeiriadau uniongyrchol (prin) y beirdd at harddwch tywysogion yn ymwneud â’u harfogaeth ar yr un pryd – gw. CBT 13.22 (‘Mawl Llywelyn ab Iorwerth’) *Wyt prydafawr i’th arfau*; VI 3.33 (Einion Wan, ‘Mawl Gruffudd ap Llywelyn’) *Hirhoedlawg fo’r gwas gwisg eurduded—hardd* (mae *gwisg* yn cyfeirio at arfwisg, fwy na thebyg); VII 3.16 (Y Prydydd Bychan, ‘Marwnad Rhys Gryg’) *Tëyrn yn hëyrn yn hardd*, a 46.9 (Bleddyn Fardd, ‘Mawl Rhys ap Maredudd ap Rhys’) *Tëyrn yn hëyrn, yn hardd wisgad—balch*. Byddai’r cyseinedd rhwng *hardd a hëyrn* wedi hybu’r cysylltiad rhwng harddwch ac arfogaeth yn y ddwy enghraifft olaf.

anffodus!), byddai'r cyfryw offer, ynghyd â'i ddawn wrth eu defnyddio, wedi helpu i'w wneud yn hardd, yn ôl safonau'r oes.

Ni all cleddyf fod yn *lluch* ('fel mellten') ar ei ben ei hun – heb sôn am amddiffyn (*ardwy*) neb – oni bai ei fod yn llaw rhyfelwr profiadol ac esgud. Gwelir defnydd tebyg o arfau droeon yng ngherddi mawl y beirdd i'w noddwyr, a rhinweddau canmoliaethus fel pe baent yn llifo'n rhwydd rhwng gwrthrychau materol a'u perchnogion. Fel y trafodir yn nhrydedd bennod y traethawd hwn, byddai cadernid dur, sglein aur a natur finiog neu lachar llafnau i gyd yn cael eu trosglwyddo i ddyinion, a byddai dewrder neu sioncrwydd dyinion yn cael eu rhannu â'u harfau. Y nodweddion mwyaf cyffredin a mwyaf arwyddocaol ar arfau yn y cerddi, er hynny, yw'r rheini a ddeuai yn sgil brwydro, sef staen gwaed ar arfau, neu ddifrod iddynt. Swyddogaeth amlycaf y pethau hyn mewn barddoniaeth oedd tystio i filwriaeth a gwrthdri'r gwrthrych mewn brwydr benodol neu yn ystod ei rawd – hynny yw, fel disgrifiadau o'i weithredoedd yn hytrach nag o'i nodweddion cynhenid – ond fe allent hefyd awgrymu'r nodweddion haniaethol hyn o gael eu defnyddio fel epithedau cyffredinol.

Nid astudio pethau, yn unig, felly, a wneir wrth astudio ymdriniaeth y beirdd ag arfau, eithr astudio'r berthynas rhwng pethau a'u perchnogion, fel y'i darlunnid gan y beirdd. Ond y mae'n fwy na hynny, hefyd. Defnyddid offer rhyfel at amryw ddibenion llenyddol mewn amryw *genres* o gerdd. Mewn marwnadau byddai beirdd yn cyfeirio at arfau'r gwrthrych, yn enwedig ei darian, nid yn unig wrth ganmol gweithredoedd ei fywyd ond hefyd wrth bwysleisio'r golled ar ei ôl, gan godi'r cwestiwn pwy fyddai'n 'codi arfau' y gŵr marw, fel petai, i amddiffyn ei bobl ac i frwydro drostynt yn y dyfodol. Yn ei farwnad i Gadwallon ap Madog ab Idnerth (arglwydd cantref Maelienydd, Rhwng Gwy a Hafren), gofynnodd Cynddelw gwestiynau tebyg yn uniongyrchol, fel rhan o restr hir o gwestiynau rhethregol yn ymwneud yn bennaf â milwriaeth a haelioni (CBT III 21.23-5):

Py frys cyflafan yn gwân gwaywddawn?  
Py friw lliw llasar o lin Lleisiawn?  
Py fydd glew a llew a llafn greulawn?<sup>17</sup>

Byddai'r math hwn o ganu, hyd yn oed os oedd y cyfeiriadau at arfau a milwriaeth yn fwy cyffredinol, megis mewn marwnadau eraill, wedi ysbrydoli etifeddion i efelychu

---

<sup>17</sup> Atebodd Cynddelw ei gwestiynau ei hun tua diwedd yr awdl, wrth ganmol y tri mab a adawodd Cadwallon (CBT III 21.192-205, a gw. rhagymadrodd y gerdd). Cymh. hefyd gwestiwn rhethregol Cynddelw ym 'Marwnad Owain Gwynedd' (dyfynnwyd uchod n. 4).

gweithredoedd eu tadau, heblaw swyddogaeth y cerddi hyn wrth goffáu'r gŵr marw.<sup>18</sup> Trist yw cymharu'r anobaith yn y cwestiwn llawer mwy personol a ofynnodd Bleddyn Fardd yn ei farwnad i Lywelyn ap Gruffudd (CBT VII 50.13-16):

Colles Cymru fawr gwawr gŵreiddaf,  
Gŵreiddlafn esgud, gloywddrud glewaf,  
Gŵreiddlyw nid byw: ba wnafr—o'i golled,  
Gŵreiddlew hyged, roddged rwyddaf?

Yma mae'r *gŵreiddlafn esgud* ('cleddyf gwrol cyflym') yn amlwg yn cynrychioli Llywelyn ei hun, ni waeth a yw'r arf wedi ei bersonoli, neu'n cael ei ddefnyddio'n drosiadol neu'n drawsenswol am ei berchennog.<sup>19</sup>

Mae cyfeiriadau symbolaidd neu ffigurol at arfau yn gyffredin iawn yn y farddoniaeth. Gallai cyfeiriad at darian doredig tywysog, er enghraifft, neu at ei gleddyf gwaedlyd, fod naill ai'n disgrifio ei arfau ar adeg benodol, neu'n disgrifio sut roedd ei arfau yn arfer bod yn ystod ei rawd, neu'n ganmoliaeth ystrydebol i'w filwriaeth, neu ynteu yn gyfeiriad trosiadol neu drawsenswol at berchennog yr arf ei hun. At hynny, fe allai arfau hefyd fod yn drosiadau o bethau haniaethol, yn enwedig galar, mewn marwnadau, neu fathau eraill o boen emosiynol mewn cerddi serch.<sup>20</sup> Mewn cerddi crefyddol, gallai arfau gynrychioli trais a phechod, neu fe allent weithredu'n drosiadol i gyfleu arfogaeth yn erbyn pechod.<sup>21</sup> Drwy ddefnyddio gwrthrychau materol fel hyn fe allai'r beirdd wneud eu cerddi'n fwy amrywiol ac yn fwy dealladwy i'w cynulleidfa, a hynny heb orfod troi at dermau haniaethol o hyd.<sup>22</sup>

<sup>18</sup> M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', t. 88.

<sup>19</sup> Am arfau'n cael eu personoli gw. nodyn Rhian Andrews ar y ll. hon yn CBT a hefyd 47.16n yn yr un gyfrol. Mae trosiad a thrawsenswol yn ddau derm am droadau ymadrodd sy'n rhoi enw rhywbeth arall yn lle enw'r gwrthrych. Mae trosiad (S. 'metaphor') yn seiliedig ar debygrwydd, e.e. dweud mai 'cleddyf' yw rhyfelwyr, oherwydd ei fileindra, ond mae trawsenswol (S. 'metonym') yn enw am rywbeth – megis arf – a gysylltir yn agos â'r gwrthrych. Yn achos trosiad, ni fyddai rhaid tybio bod y rhyfelwr yn cludo cleddyf, mewn gwirionedd, ond byddai hynny'n sicr yn ddealladwy yn achos trawsenswol. Mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng yr ystyron hyn yng ngherddi'r beirdd, oherwydd y tebygrwydd y byddai'r rhan fwyaf o wrthrychau eu canu mawl wedi cludo arfau go-iawn, ac yn wir mae'n amheus a fyddai'r beirdd wedi bwriadu eu gwahanu. Am y rhesymau hyn fe ddefnyddir y termau 'trosiad' a 'throsiadol' yn ddiwahân, yn aml, yn y penodau isod, wrth ddisgrifio cyfeiriadau trosiadol a thrawsenswol.

<sup>20</sup> Gw. isod, adrannau 3.2.9 a 3.4.6.

<sup>21</sup> Gw. isod, adran 3.14.

<sup>22</sup> Gw. John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Caerdydd, 1980), tt. 19-20; Marged Haycock, 'Y Traddodiad Barddol', *Barddas*, 97 (1985), 13-15 (yn enwedig t. 14: 'Mae'r farddoniaeth gynnar yn llawn dop o bethau diriaethol sydd yn darlunio'r haniaethol sydd mor bwysig'), ac A. Parry Owen, "'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan'", t. 144: 'canu diriaethol yw'r canu hwn yn ei hanfod ac y mae'r elfen weledol yn gryf iawn ynddo'.

## 1.2 Darlun y beirdd o ryfel

Canmol eu gwrthrychau bonheddig, a hynny yn aml mewn termau cyffredinol iawn oedd prif swyddogaeth arfau yng ngherddi Beirdd y Tywysogion. Er bod lleoliadau brwydrau yn cael eu crybwyll yn bur aml, gan ddangos bod y beirdd yn gweld cofnodi fel elfen bwysig mewn cerddi mawl a marwnad,<sup>23</sup> nid yw hyn yn digwydd bob tro, a'r hyn a geir yn gyffredinol wrth ddisgrifio brwydro yw argraffiadau byrion, yn hytrach na disgrifiadau manwl neu fanylion naratif.<sup>24</sup> Nododd Katharine Simms, wrth drafod barddoniaeth Wyddeleg, mai prin yw'r cyfeiriadau sy'n ymwneud â noddwr neu sefyllfa benodol, o'u cymharu â nifer y delweddau a'r themâu ystrydebol:

. . . historians seeking to identify the underlying political message of any medieval bardic eulogy are well advised first to make themselves familiar with the range of recurring motifs in this genre. Once they can recognise stock images for what they are as they meet with them in the body of the poem, they may more easily winnow out the comparatively few verses that contain original matter prompted by the particular moment in time and patron in question.<sup>25</sup>

Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan Ritchie Girvan, mewn perthynas ag arfau ac offer eraill yn *Beowulf*:

It is well to distinguish here between conventional epithets or phrases inherited by tradition and real description which provides knowledge.<sup>26</sup>

Gallai delweddau neu ymadroddion ystrydebol fod wedi disodli llais profiad hyd yn oed mewn achosion pan oedd gan feirdd weithredoedd neu nodweddion go-iawn i'w canmol, ac mae'r ffaith fod llawer o'r ystrydebau hyn – megis arfau gwaedlyd neu doredig – yn rhan o realiti pob brwydr ganoloesol yn ychwanegu at yr anawsterau wrth ddehongli'r deunydd hwn. Dychwelir yn adran 1.6 isod, ac yn y bennod olaf, at y cwestiwn i ba raddau y gellir dibynnu ar gyfeiriadau'r beirdd at arfau fel tystiolaeth am ddiwylliant materol a dulliau brwydro cyfoes.

Mae disgrifiad Gwalchmai o frwydr Tâl Moelfre, sy'n llenwi ugain llinell o 'Arwyrain Owain Gwynedd', yn eithriad anghyffredin i'r rheol na cheir manylion naratif mewn

---

<sup>23</sup> Mae G.A. Williams, 'Welsh Raiding', wedi dangos bod cyfeiriadau'r beirdd at ymgyrchoedd nas cofnodwyd yn unman arall yn dystiolaeth werthfawr am 'ficro-hanes' milwrol Cymreig.

<sup>24</sup> Gwnaeth G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 34, y pwynt hwn wrth drafod yr Hengerdd, a 'Gweith Gwen Ystrat' yn benodol, a gw. hefyd Haycock, 'Y Traddodiad Barddol', 15 'mae'r darlun yn un cyfansawdd, yn fosaig'.

<sup>25</sup> Katharine Simms, 'Images of Warfare in Bardic Poetry', *Celtica*, 21 (1990), 608-19 (608), yn cyfeirio at Simms, 'Bardic poetry as a historical source', yn T. Dunne (ed.), *The writer as witness: literature as historical evidence* (Cork, 1987), tt. 58-75 (t. 71).

<sup>26</sup> Ritchie Girvan, *Beowulf and the Seventh Century* (London, 1935; new edition 1971 with new chapter by Rupert Bruce-Mitford), t. 38.

barddoniaeth Gymraeg o'r cyfnod hwn.<sup>27</sup> Yma fe ddisgrifir digwyddiadau'r frwydr mewn trefn gronolegol, gan ddechrau â dyfodiad llongau'r ymosodwyr a chan orffen gyda gwŷr Lloegr wedi eu *dygyfwrw yn astrusi* (CBT I 8.31-50). Mae'r disgrifiad hwn hefyd yn cynnwys enghraifft dda o 'olygfa frwydr' gyffredinol. Ar ôl cyfeirio'n fyr at Owain (*draig Môn*) a *haer holi* ('hawlio haerllug') yr ymosodwyr, mae 'camera' y bardd fel pe bai'n tynnu'n ôl i ddangos y brwydro 'amhersonol' sy'n digwydd o flaen y tywysog (*rhagddaw*). Cynrychiolir y frwydr gan floeddiadau ac arfau, ymysg pethau eraill, yn hytrach na thrwy ganmol gweithgareddau milwyr Owain yn uniongyrchol (CBT I 8.42-3):

Ac am Dâl Moelfre mil fanieri;  
Ar lath lath lachar, ar bâr beri,  
Ar ffwyr ffwyr ffyrfgawdd, ar fawdd foddi.<sup>28</sup>

Yn wir, yr unig filwyr sy'n cael eu crybwyll yn benodol yn y darn hwn yw'r rhai marw neu glwyfedig, a hwythau unwaith eto o flaen (*rhag*) y tywysog (CBT I 8.48):

A thrychion ynddudd rhag rheiddudd ri.

Drwy wneud hyn fe ymddengys fod y bardd yn cadw'r clod am y fuddugoliaeth ar gyfer Owain ei hun, heb ei rannu â neb arall.<sup>29</sup> Yn wir, prin yw cyfeiriadau'r beirdd yn gyffredinol at filwyr 'cyffredin',<sup>30</sup> a hwythau'n ymddangos fel arfer fel pobl sy'n 'perthyn' i'r tywysog, megis yn CBT IV 10.19 *A'th dwrf o'th darianogion*, neu wedi ymgasglu o'i amgylch fel arwydd o'i nerth, megis yn CBT VI 20.15-16:

Calchdöed saith rhifed sŷr  
Cylch fy rhwyf yn ei rechdyr.

Rhechdyr Croeseswallt crysiasant—am ddraig . . .<sup>31</sup>

<sup>27</sup> Mae elfen o naratif hefyd ymhlith yr Hengerdd weithiau, e.e. mewn dwy gerdd o Lyfr Taliesin, PT II 'Gweith Gwen Ystrat' a PT VI 'Gweith Argoet Llwyfein', er na ellir cymharu'r un o'r cerddi hyn â'r dull o adrodd stori a geir mewn canu epig o ddiwyllianau eraill megis *Beowulf* neu'r *Chanson de Roland* (Haycock, 'Y Traddodiad Barddol', 15). Trafodir yr Hengerdd yn gyffredinol isod, adran 1.4.2.

<sup>28</sup> Aralleiriad CBT 'Ac o gwmpas Tal Moelfre mil [o] floeddiadau; / [Bu] ar bicell bicell lachar, ar waywffon waywffyn, / Ar arswyd arswyd digofaint mawr, ar foddiaid foddi'.

<sup>29</sup> Cymh., yn yr un gerdd, CBT I 14.17-18 *Cad â chedwyr Lloegr, a llwgr uddudd, / A gorfod i fod i fab Gruffudd!*

<sup>30</sup> Gwnaethpwyd y pwynt hwn gan Nerys Ann Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', yn Sioned Davies and Nerys Ann Jones (eds.), *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives* (Cardiff, 1997), tt. 82-101 (t. 85), a chymh. Girvan, *Beowulf and the Seventh Century*, t. 40 (yn trafod *Beowulf*): 'The society, as in all heroic poetry, is aristocratic; there is no attempt to envisage a whole people'. Roedd anwybyddu milwyr 'cyffredin', neu gyfeirio atynt fel carfanau o wŷr yn hytrach nag fel unigolion, yn nodwedd hefyd ar gronclau canoloesol, ar y rhamantau Ffrangeg ac ar y *chansons de geste* (Catherine Hanley, *War and Combat, 1150-1270: The Evidence from Old French Literature* (Cambridge, 2003), tt. 82-3, 132-7 a 226).

<sup>31</sup> Aralleiriad CBT 'Yr oedd amddiffynfa [o wŷr] saith gwaith rhif y sêr / O amgylch fy arglwydd yn ei arglwyddiaeth. // Cyrhasant arglwyddiaeth Croesoswallt o amgylch [eu] harweinydd . . .' Gw. hefyd llau. 49-50 o'r un gerdd: *Yn Ystrad Meuryg anystywell—lu / I am lyw bro Hiriell*. Am awduraeth y gerdd hon, 'Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu', gw. n. 45 isod.



Ychydig yn wahanol yw darlun Cynddelw o Owain yn ei farwnad iddo, wrth ddisgrifio ymladd ger Caernarfon. Ymddengys yma fod y tywysog yn cael ei ddarlunio'n brwydro ochr yn ochr â'i filwyr (CBT IV 4.33-4 *Amdrychiaid, fleiniaid, flaidd anant, / Amdrychioedd, amdrychu nawcant*),<sup>32</sup> ac fe gyfeirir yn nes ymlaen yn yr un gerdd (ll. 48) at ei swyddogaeth fel rhyfelwr a fu'n arfer 'cadw'r ôl' (*diweddwr*).<sup>33</sup>

Gwahanol yw'r pwyslais mewn dwy gerdd a briodolir i Hywel ab Owain Gwynedd, a'r rheini'n disgrifio buddugoliaethau a enillwyd gan ryfelwyr Gwynedd, heb enwi'r un arweinydd. Yn wir, mewn un o'r cerddi hyn (CBT II cerdd 13) ni chyfeirir yn uniongyrchol at yr un rhyfelwr Cymreig, gan ddefnyddio'r cyflwr goddefol i ddisgrifio'r brwydro. Ond yn y llall, crybwyllir y llu buddugol yn y llinellau olaf (CBT II 12.11-12):

A decant cynran a'i ciliai,  
Cyfarf heb un farf ar Fenai.<sup>34</sup>

Er bod y cerddi hyn yn dra gwahanol i gerddi eraill Hywel, gallai ei statws fel tywysog esbonio pam yr oedd ganddo'r rhyddid i ganmol y *decant cynran*, yn hytrach nag ymuno â'r beirdd eraill a ganai glodydd ei dad, Owain.<sup>35</sup>

Tueddai'r beirdd i ddisgrifio'r tywysogion fel pe baent yn brwydro fel arwyr unigol, hyd yn oed yng nghyd-destun brwydr fawr,<sup>36</sup> ond mae rhai cyfeiriadau at eu swyddogaeth fel

---

<sup>32</sup> Aralleiriad CBT 'Lleiddiaid, ymladdwyr blaen [a] gwron y beirdd, / [Cafwyd] milwyr chwilfriw [wrth iddynt] drychu naw cant'.

<sup>33</sup> Mae dweud mai Owain oedd yr olaf i ffoi yn ddull o ganmol ei ddewrder, ond fe allai hefyd adlewyrchu ei ofal dros ei filwyr. Cyfeirir ato hefyd fel *cynwan torf* a *cynwayw* yn llau. 55-6, hynny yw, fel milwr yn ymladd ar flaen llu (gw. adran 3.2.5 isod, am gyfeiriadau eraill at wŷr â gwaywffyn ar flaen y gad). Nododd Simms, 'Images of Warfare', 609, y byddai is-frenhinoedd Iwerddon hwythau ym mlaen y gad yn ystod brwydr ond yn cadw'r ôl wrth gilio.

<sup>34</sup> Mae'n debyg mai cyfeiriad at ieuengrwydd y *decant cynran* yw'r llinell olaf (CBT II 12.12n). Awgryma J. Beverley Smith, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Gwleidyddiaeth Gwynedd', yn Nerys Ann Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd: Bardd-Dywysog* (Caerdydd, 2009), tt. 61-87 (tt. 74-5), y gall y darn hwn gyfeirio at wrthdaro rhwng Owain Gwynedd a'i frawd Cadwaladr yn 1144. Enghraifft bosibl arall o gyfeiriad at filwyr 'cyffredin' neu filwyr yr osgordd, gan Gynddelw y tro hwn, yw CBT IV 4.26-8 *Saith angerdd sengl ] yn nifant. / Glas feraw hëyrn heusant, / Glas lasar gwasgar gwisgasant*, er y gall mai gelynyon a ddisgrifir yma (gw. Pennod 3 isod, n. 392).

<sup>35</sup> Cymh. n. 111 isod. Nodir yn CBT II t. 169 fod amheuaeth ynghylch priodoliad y ddwy gerdd hyn i Hywel, am eu bod mor wahanol i'w gerddi eraill. Rhaid nodi hefyd awgrym diweddar Dafydd Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', yn N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 134-51 (t. 149), mai Cynddelw a gyfansoddodd y cerddi a briodolir i Hywel (gw. isod, adran 1.4.1).

<sup>36</sup> Tynnwyd sylw at yr un duedd mewn amryw lenyddiaethau arwrol gan H. Munro Chadwick and N. Kershaw Chadwick, *The Growth of Literature*, vol. I (Cambridge, 1932), tt. 86-8. Cymh. Simms, 'Images of Warfare', 608: 'The pattern of Irish warfare in the high Middle Ages meant that there was a practical advantage for a chieftain's subjects in the assurance that their leader was not merely a good general but an effective hand-to-hand fighter himself'. Bu datblygiadau mawr mewn trefniannau milwrol Cymreig yn ystod cyfnod y tywysogion (gw. A.D. Carr, 'Teulu and Penteulu', yn Charles-Edwards *et al.* (eds.), *The Welsh King and His Court*, tt. 61-81, a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, penodau 1 a 2), ond mae'n eglur y byddai'r

penaethiaid ar finteioedd neu fyddinoedd. Gallai CBT I 8.9 (Gwalchmai ap Meilyr) *Ef gwnaeth yn un gad ddwygad ddigudd* ddisgrifio'r gwahanol fyddinoedd a unodd dan arweinyddiaeth Owain Gwynedd yn 1165,<sup>37</sup> ac mae defnydd beirdd o dermau trosiadol megis *angor*, *corf* 'cynhalbost', *ysgor* 'amddiffynfa' neu *ysgwyd* 'tarian' am eu noddwyr yn dweud llawer am bwysigrwydd arweinydd da.<sup>38</sup> Gellid hefyd gyfeirio'n uniongyrchol at dywysog fel pennaeth ar osgordd, megis yn llinellau Prydydd y Moch (CBT V 11.39-40):

Angor côr, cad offelaig,  
Ac o'r penaethau, pen aig.<sup>39</sup>

Yn ei farwnad i Owain Gwynedd, cynhwysodd Cynddelw ganmoliaeth i fyddin neu osgordd y tywysog (CBT IV 4.289 *Llyw llwyrdras, llwyrdraws ei nifer*),<sup>40</sup> ac fe gyfeiriodd Meilyr Brydydd yn uniongyrchol at swyddogaeth gwŷr Gruffudd ap Cynan – sef gwŷr ei osgordd, fwy na thebyg – wrth gynnal ei anrhydedd (*wyneb*) (CBT I 3.107-8):

Gorau gwaith gwyniaith â'i gyweithydd  
Pan gedwis ei wyneb heb gywilydd.<sup>41</sup>

Cadwyd ychydig o gerddi sy'n rhoi'r prif sylw i osgordd neu *teulu* tywysogion – sef carfan o filwyr breintiedig yr oedd ganddynt statws arbennig fel cymdeithion ac amddiffynwyr y tywysog ac, erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, fel cnewyllyn profiadol ei fyddin ehangach.<sup>42</sup> Mae 'Hirlas Owain' (CBT II cerdd 14) yn gerdd ac iddi fframwaith dramatig, a'r Tywysog Owain Cyfeiliog yn rheoli'r dathliadau mewn gwledd gan orchymyn i'r corn yfed gael ei

---

tywysogion yn parhau i arwain o'r tu blaen drwy'r cyfnod hwn (Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 32), hyd yn oed os nad oedd hyn yn wir bob amser yn achos yr uchelwyr Cymreig diweddarach a folid gan y beirdd (nododd G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 16, fod enghreifftiau o feirdd yn canmol campau milwrol anghredadwy gwŷr na wnaethant y fath beth erioed yn eithaf cyffredin erbyn diwedd cyfnod Beirdd yr Uchelwyr). Un eithriad amlwg o gyfnod Beirdd y Tywysogion yw disgrifiadau Prydydd y Moch yn 'Croesawu Gruffydd ap Llywelyn' (CBT V cerdd 29) o'r gwrthrych fel *gryd lofrudd* (ll. 5) neu *diweddwyr eryr* (ll. 9), ac yntau'n llanc ifanc a fu'n wystl am bedair blynedd. Diau fod y bardd yn mynegi disgwyliadau yma, yn hytrach na'i fod yn gwenieithu yn unig; nododd Simms, 'Images of Warfare', 611, y byddai beirdd Gwyddelig yn canmol milwriaeth noddwr 'as proof of his fitness for kingship' a hefyd 'as a form of well-wishing for the patron's future campaigns'.

<sup>37</sup> Am y dehongliad hwn gw. CBT I 8.9n, er nodi yno'r posibilrwydd mai 'brwydr', nid 'byddin', yw *cad* yma.

<sup>38</sup> E.e. CBT I 1.38 *Llugyrn dewdor, lluoedd angor, gwŷr bangor braint*; 3.100 *Cynreinion ysgwyd, ysgor orwydd*; III 12.56 *Arf tarf, torf angor, Iorferth*; IV 4.235 *Eurgorf torf teyrnas Nwython*, a 9.165 *Llydw ysgor, ysgwyd byddinau*. Gw. ymhellach adran 3.13.8 am gyfeiriadau'r beirdd at dywysogion fel tarianau ('amddiffynwyr') naill ai i gydfilwyr ar faes y gad neu i'w pobl yn gyffredinol.

<sup>39</sup> Aralleiriad CBT 'Angor llu, un tanbaid byddin, / Ac o blith y penaethiaid, pennaeth mintai'. Yn ôl y cyfreithiau Cymreig y *penteulu* oedd arweinydd yr osgordd, ac yntau i fod o waed tywysogaidd yn ogystal â dwyn swyddogaeth bwerus a breintiedig (gw. Carr, 'Teulu and Penteulu', a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 32-7), ond mae'n ddiddorol nodi nad oes yr un enghraifft o'r gair hwn yng nherddi Beirdd y Tywysogion. Gallai nifer o ddeiliaid y swyddogaeth hon fod wedi eu canmol gan y beirdd heb grybwyll eu teitl, fodd bynnag, gan gynnwys Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn, ac yntau wedi bod yn benteulu i'w frawd Owain (gw. y rhagymadrodd i CBT VII cerdd 52).

<sup>40</sup> Aralleiriad CBT 'Arweinydd cyflawn ei ormes, cwbl rymus ei fintai'.

<sup>41</sup> Aralleiriad CBT 'Gwnaeth waith dial â'i fintai / Pan gadwodd ei anrhydedd heb gywilydd'.

<sup>42</sup> Gw. Glanville R.J. Jones, 'The Defences of Gwynedd in the Thirteenth Century', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 30 (1969), 29-43 (39-40); Carr, 'Teulu and Penteulu', a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, pennod 1.

estyn i wahanol aelodau'r osgordd.<sup>43</sup> Owain Cyfeiliog sy'n 'llefaru' eto yn 'Englynion Cylchu Cymru' (CBT II cerdd 15), gan anfon gwas ar daith i wahanol gantrefi i ddatgan bod ei osgordd ar ei ffordd.<sup>44</sup> (Mae Gruffydd Aled Williams wedi dadlau mai gwaith Cynddelw yw'r ddwy gerdd hyn, ac yn wir mae'n drawiadol fod gosgorddion â rhan bwysig mewn cerddi eraill o waith Cynddelw,<sup>45</sup> a bod milwyr 'cyffredin' yn cael clod mewn cerdd a briodolir i Hywel ab Owain Gwynedd ond a all hefyd fod yn waith Cynddelw, yn ôl awgrym diweddar Dafydd Johnston.)<sup>46</sup>

Gall mai un esboniad am y cerddi i osgorddion yw'r llinellau ym 'Mawl llys Madog ap Maredudd a'i osgordd' sy'n awgrymu y byddai gwŷr yr osgordd, fel y tywysogion eu hunain, yn anrhegu beirdd (CBT III 2.5-10):

Ysid i'th lys liaws dyn  
A chedyrn a chyrn amgen  
A gwawd gwedi gwirawd gwin  
Ac eur llathr yn llaw deon.

Deon unged yn ungoel,  
Ys berth yd borthir yng ngŵyl . . .<sup>47</sup>

Ond nid *eur llathr* oedd yr unig gysylltiad rhwng beirdd a gwŷr gosgorddion. Gallent hefyd fod yn gymrodyr y gad, fel y trafodir yn yr adran nesaf.

### 1.3 Y beirdd fel rhyfelwyr

Nid Gwalchmai oedd yr unig fardd i ymffrostio yn ei ddawn fel rhyfelwr. Gellir cymharu ei ddarlun ohono ef ei hun yn ei Orhoffedd, e.e. CBT I 9.40 *Gwalchmai y'm gelwir, gelyn y Saeson*, 9.18 *Dychysgogan, Lloegr, rhag fy lläin!* a 9.33-4 *Llachar fy nghleddyf, lluch ei*

<sup>43</sup> Gw. y rhagymadrodd i'r gerdd, CBT II tt. 221-2.

<sup>44</sup> Gw. CBT II tt. 253-4.

<sup>45</sup> Sef 'Mawl llys Madog ap Maredudd a'i osgordd' (CBT III cerdd 2), 'Marwnad Madog ap Maredudd, Llywelyn ei fab a theulu Powys', 'I osgordd Madog ap Maredudd pan fu farw', 'Gwelygorddau Powys' a 'Breintiau Gwŷr Powys' (CBT III cerddi 8-11), a 'Marwnad Gosgordd Owain Gwynedd' (CBT IV cerdd 5). Am y cerddi hyn gw. J.B. Smith, 'Gwlad ac Arglwydd', t. 250. Gall mai gwaith Cynddelw hefyd oedd 'Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu' (CBT VI cerdd 20), er bod Prydydd y Moch yn awdur posibl arall, ac efallai'n fwy tebygol o ystyried dyddiad diweddar y gerdd, ac o ystyried hoffter y bardd hwnnw o restru buddugoliaethau milwrol yn fanwl (CBT VI tt. 298-9). Mae'n bosibl mai aelodau o osgorddion oedd gwrthrychau dwy farwnad arall o waith Cynddelw, sef ei fab ei hun, Dygynnelw (CBT III cerdd 30), a Phyll, a enwir yn nheith y gerdd *yn fab aillt o Lansadwrn* (CBT IV cerdd 11, a gw. CBT IV t. 220 ac n. 3). Gellid cymharu'r cerddi hyn hefyd â cherdd Gruffudd ap Gwrgenau, 'Englynion i'w Gymdeithion' (CBT II cerdd 32), ac â'r farwnad a ganodd Peryf ap Cedifor i'w frodyr maeth (CBT II cerdd 19) (gw. yr adran nesaf).

<sup>46</sup> Gw. n. 35 uchod, er bod statws tywysogaidd Hywel yn cynnig rheswm arall pam y gallai fod wedi rhoi mwy o sylw i filwyr 'cyffredin' nag y gwnaeth y beirdd proffesiynol.

<sup>47</sup> Aralleiriad CBT 'Y gwyrda sydd yn un eu hanrheg [ac] yn un eu ffyddlondeb [i'w harglwydd], / Yn wych y cynhelir [hwy] ar ddydd gŵyl'.

*annwyd—yng nghad, / Llewychedig aur ar fy ysgwyd, â darn o awdl Prydydd y Moch i Wenllïan ferch Hywel o Wynllwŷg (CBT V 14.13-18):*

Llywarch y'm gelwir, llu ddyganre,  
Lloegr ddistryw, ddistrawch, ddilawch ddile;  
Dyfnwyd fy ysgwyd yn ysgardde,  
Dyfnant ysgarant gwayw o'i hasgre.  
Y ffordd yd gerddwyf, gwrdd yd gre—branes,  
Gŵr o farannwg yn eu harfle.

Trawiadol o debyg, unwaith eto, yn enwedig o ran y defnydd o'r fformiwla *ym gelwir*, yw llinellau Cynddelw yn 'Rhieingerdd Efa' (CBT III 5.125-8):<sup>48</sup>

Bardd Llywelyn hael hud ym gelwir,  
Geleurrdd, gelyn i bob enwir;  
Enwawg i'm ceinioes y'm ceinmygir,  
Anwar fy lluchfar oni'm llochir.

Ni ellir bod yn gwbl sicr ai at Gynddelw ei hun neu ynteu at Lywelyn (ap Madog ap Maredudd?) y cyfeirir yn yr ail linell a ddyfynnwyd.<sup>49</sup> O blaid y dehongliad cyntaf y mae'r pwyslais ar y bardd ei hun drwy'r gerdd gyfan, ond rhaid nodi iddo ddisgrifio milwriaeth rhyw *Owain* yn gynharach yn y gerdd.<sup>50</sup> Ar y cyfan, mae Cynddelw yn ei bortreadu ei hun fwy fel carwr – neu, yn wir, fel bardd – yn y gerdd hon,<sup>51</sup> ond gwahanol yw ei ddarlun ohono ef ei hun yn gwisgo ei gleddyf ym 'Marwnad Madog ap Maredudd, Llywelyn ei fab a theulu Powys' (CBT III 8.1-4):

Ym maes Bryn Actun cannun—neu rifais  
A'm rhuddlafn ar fy nghlun,  
Ar un trai trychan catgun,  
Ys elont i nef ar-n-un!

Mae cyfeiriadau eraill yn y gerdd hon yn dangos y bardd 'yn ei uniaethu ei hun â'r osgordd',<sup>52</sup> ac fe gyfeiriodd Nerys Ann Jones at ddarn o 'Arwyrain Owain Gwynedd'

<sup>48</sup> Tynnwyd sylw at nifer o elfennau sy'n cael eu rhannu rhwng 'Rhieingerdd Efa', awdl Prydydd y Moch i Wenllïan a cherddi Gorhoffedd Gwalchmai a Hywel ab Owain Gwynedd gan J. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', *Proceedings of the British Academy*, 35 (1948), 167-97 (190), a J.E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', *Llên Cymru*, 13 (1970), 3-112 (86).

<sup>49</sup> Gw. geiriau J.E.C. Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched', 89, wrth gyfeirio at y darn hwn: 'lledawgrymir ei orchestion milwrol'.

<sup>50</sup> Gw. CBT III 5.63-8, ac yn enwedig ll. 65 *Pargoch cad gadarn rhag calchdöed*. Awgrymodd Ann Parry Owen, 'Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd: Cynddelw Brydydd Mawr a'i cant', *YB* 14 (1988), 56-86 (64-5), fod y bardd yn uniaethu darpar ŵr Efa, neu ŵr arall a enillodd ei serch, â'r arwr o'r Hen Ogledd, Owain ab Urien.

<sup>51</sup> Nododd D. Myrddin Lloyd, 'Barddoniaeth Cynddelw Brydydd Mawr', *Y Llenor*, 11 a 13 (1932 a 1934), 172-87 a 49-59 (182), ei bod yn ymddangos bod y merched sy'n syllu ar y bardd drwy'r *fffenestri gwyrdr* yn ll. 14 yn edmygu ei farddoniaeth yn hytrach na'i wrhydri neu ei ymddangosiad personol (cymh. llau. 10 'Rhieingerdd Efa' a *fawrhëynt* a 20 *Am Gynddelw Brydydd yd bryderynt*).

<sup>52</sup> CBT III t. 92.

Cynddelw (CBT IV 1.41-54) wrth awgrymu bod manylder y disgrifiadau, wedi eu cysylltu yn aml gan y ferf *gwelais*, yn ‘ymddangos fel adroddiadau llygad-dyst’.<sup>53</sup>

Yn yr un modd, dadleuodd J.E. Caerwyn Williams fod cyfeiriadau mynych Gwalchmai at gyrchoedd Owain Gwynedd yn dangos y bu yno yng nghwmni’r tywysog, a’i fod yn llygad-dyst i frwydr Tâl Moelfre.<sup>54</sup> Ac mae awdur dienw ‘Mawl Llywelyn ab Iorwerth a’i Deulu’ (CBT VI cerdd 20) – efallai Cynddelw neu Brydydd y Moch – yn sicr yn ei bortreadu ei hun fel pe bai’n rhan o gwmni buddugoliaethus Llywelyn, fel y nododd J. Lloyd-Jones.<sup>55</sup> Ni ellir bod yn sicr, fodd bynnag, nad confensiynol oedd y darlun o fardd yn brwydro mewn gosgordd neu dros ei dywysog, yn aml. Ac nid yw adroddiad ‘llygad-dyst’ yn profi bod y bardd wedi brwydro, o reidrwydd, na’i fod yn bresennol, hyd yn oed – nid amhosibl fod rhai o’r darnau hyn wedi’u hysbrydoli gan adroddiadau llygad-dyst milwyr eraill.

Yn eironig, braidd, o ystyried mai ef yw’r bardd y mae gennym y dystiolaeth gryfaf am ei rawd milwrol, pedair llinell yn unig o Orhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd sy’n ymwneud â phethau rhyfelgar (CBT II 6.21-4):

Gwneuthum â gwth gwayw gwaith ardderchedd  
I rwng glyw Powys a glwys Wynedd,  
Ac i ar welwgan gynnif rysedd  
Gorpwyf ellyngdawd o alltuedd.<sup>56</sup>

<sup>53</sup> Nododd Nerys Ann Jones, ‘Marwnad Bardd-Ryfelwr’, *YB* 20 (1995), 90-107 (94-5), y gellid dadlau bod y defnydd o *gwelais* mewn cyd-destunau tebyg yn gonfensiwn llenyddol weithiau, ond bod ‘manylion graffig’ rhai darnau yn awgrymu’r gwrthwyneb. Ceir disgrifiadau eraill o frwydrau (rhai ohonynt heb fod mor fanwl) wedi eu cyflwyno gan *gwelais* yn CBT I 7.99-110 a 9.37-8, 45-6, 77-82 a 103-4 (Gwalchmai); II 14.105-6 (Owain Cyfeiliog (neu Gynddelw?)), IV 1.57-66 a 9.25-36 (Cynddelw), VI 5.45-8 (Einion Wan), VI 18.13-30 (Einion ap Gwgon) a VII 3.13-14 (Y Prydydd Bychan). Fe’i ceir hefyd mewn un o awdlau crefyddol Gruffudd ab yr Ynad Coch, mewn darn sy’n dechrau *Gwelais Lywelyn luoedd ail Merfyn / A Chymry derfyn yn ei dyrfa* (VII 42.23-4), ond ergyd y darn hwn yw fod y cyfan wedi mynd heibio *fal ymchoel dy law* (ll. 31, ‘fel tro dy law’). Defnyddid *gwelais* hefyd yn yr Hengerdd i gyflwyno disgrifiadau neu argraffiadau o frwydr (gw. G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 34).

<sup>54</sup> J.E. Caerwyn Williams, ‘Beirdd y Tywysogion: Arolwg’, *Llên Cymru*, 11 (1970), 3-94 (48), ac am frwydr Tâl Moelfre gw. CBT I 8.31-52 (‘Arwyrain Owain Gwynedd’).

<sup>55</sup> Lloyd-Jones, ‘The Court Poets of the Welsh Princes’, 169, a gw., e.e., ddefnydd y bardd o’r person cyntaf lluosog yn CBT VI 20.85 *Cawsam ar Bowys, beues goeth,—gestyll*. Am gefndir ac awduraeth y gerdd hon gw. CBT VI t. 298-9 ac uchod n. 45.

<sup>56</sup> Tueddir i ystyried mai mwy nag un gerdd yw Gorhoffedd Hywel. Awgrymodd Lloyd-Jones, ‘The Court Poets of the Welsh Princes’, 188, a J.E.C. Williams, ‘Beirdd y Tywysogion: Arolwg’, 73, mai cyfuniad ydoedd o ddwy gerdd, y naill yn canmol gwlad neu fro a’r llall yn gân serch; ac fe ddadleuodd Nerys Ann Jones, ‘Gorhoffedd Hywel ab Owain’, yn N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 111-33 (t. 115), mai dilyniant o dair cerdd ydyw, sef dwy awdl un caniad ac un awdl dau ganiad, a bod y teitl ‘Gorhoffedd’ yn fwyaf addas ar gyfer yr awdl olaf hon (llau. 43-83) gyda’i naws ysgafn, boblogaidd. Gw. hefyd N.A. Jones, ‘Gorhoffedd Hywel ab Owain’, tt. 118-21 am arwyddocâd y disgrifiadau o dirwedd yn awdl neu gerdd gyntaf y Gorhoffedd: ‘Edrych ar y wlad drwy lygad rhyfelwr a wna Hywel wrth ganmol ei “brooedd a’i diffaith mawrfaith”, sef tiroedd y ffin a’r tiroedd anghyfannedd y byddai aelodau gosgordd y brenin yn gofalu amdanynt ac yn elwa ohonynt’. Awgryma Jones, t. 121, y gallai llau. 21-2 (a ddyfynnir uchod) gyfeirio o bosibl at frwydr Cwmsyllt, 1150.

Nid yw canmol campau milwrol y bardd-dywysog yn brin yn ‘Canu Hywel ab Owain Gwynedd’ Cynddelw, er hynny,<sup>57</sup> ac mae’r marwnadau a ganodd Peryf ap Cedifor ymhlith y ffynonellau sy’n disgrifio marwolaeth Hywel ym mrwydr Pentraeth.<sup>58</sup> Mae’r marwnadau hyn hefyd yn tystio bod Peryf yntau yn bresennol yn y frwydr, gan gael ei anafu yno o bosibl,<sup>59</sup> ac yn wir, mae gennym farwnadau i feirdd eraill a gollodd eu bywyd mewn brwydr. Lladdwyd Dafydd Benfras yn Llangadog yn Ystrad Tywi, efallai yn ystod ymgyrch Llywelyn ap Gruffudd yn 1258, gan gael ei farwnadu gan Fleddyn Fardd,<sup>60</sup> ac fe ganodd Cynddelw farwnad i ryw Fleddyn Fardd arall a fu farw yn *nydd trin ger traeth Caer*, sef, mae’n debyg, brwydr Cwnsyllt (S. Coleshill) yn 1157.<sup>61</sup>

Mae’n bosibl iawn fod y beirdd a ganodd y ddwy farwnad hyn, fel yn achos Peryf ap Cedifor, wedi bod yn bresennol yn y frwydr,<sup>62</sup> a gall yr un peth fod yn wir yn achos yr englynion marwnad a ganodd Gruffudd ap Gwrgenau i bump o’i gymdeithion, a bardd arall, Gwilym Rhyfel, yn eu plith.<sup>63</sup> Mae un englyn ym marwnad Elidir Sais i Ednyfed Fychan a Thegwared ab Iarddur yn awgrymu y bu yntau mewn brwydr rywdro wrth ochr y gwrthrychau, er na ellir cysylltu’r frwydr honno â’u marwolaethau,<sup>64</sup> ac fe nododd J.E. Caerwyn Williams gyfeiriadau yng ngherddi Llywelyn Fardd I a Phylip Brydydd sy’n awgrymu eu bod hwythau wedi ymgyrchu wrth ochr tywysogion.<sup>65</sup>

<sup>57</sup> E.e. CBT IV 6.166-9 *Pan wasgar hëyrn, pan hëir, / Pan wesgryn camawn, camp engir, / Pan lladd yn lluchiad, pan llochir—yn llym, / Yn llachar yd fernir.*

<sup>58</sup> Gw. CBT II tt. 103-5, a CBT II cerddi 19 a 21, yn enwedig 19.23-4 *Â gwayw, gwae Ddafydd enwir! / Gwân gwalch rhyfel, Hywel hir, a 21.39-40 Gwae fi, pan ’i harhoais: / Gwayw yn Hywel a welais.* Am rawd milwrol Hywel, gw. Nerys Ann Jones, *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 9-12, a J.B. Smith, ‘Hywel ab Owain Gwynedd a Gwleidyddiaeth Gwynedd’, t. 79, sy’n nodi bod marwolaeth Hywel dan ddwylo ei frawd Dafydd neu deulu Dafydd wedi ei chofnodi yn *Brut y Tywysogion* ac yn yr *Annales Cambriae*.

<sup>59</sup> Gw. CBT II 19.9-10 *Can eddyw Hywel, hwyl ddi-oddef—cad / (Cydfuam gyd ag ef); 21.40 Gwayw yn Hywel a welais, a 21.5-8 Difiau in diau leas / Yn y Penrhyn uch Penrhos, / Ym Môn, i mewn ei hynys, / Ydd ym lleddir â llafn glas.* Ond er ei bod yn gwbl bosibl fod y ll. olaf a ddyfynnwyd yn disgrifio clwyf a gafodd y bardd, yn llythrennol, rhaid nodi bod beirdd yn defnyddio llafnau’n ffigurol weithiau i ddisgrifio poen neu alar (gw. adran 3.4.6 isod, yn enwedig n. 816, sy’n trafod y ll. hon mewn perthynas â ll. 23 o’r un gerdd, *A lladd Rhirid (a’ m lliid llif)*).

<sup>60</sup> Gw. CBT VI tt. 368-9 a CBT VII cerdd 44 (a’r rhagymadrodd).

<sup>61</sup> CBT III 29.6, a gw. rhagymadrodd y gerdd, CBT tt. 358-9 a N.A. Jones, ‘Marwnad Bardd-Ryfelwr’.

<sup>62</sup> J.E. Caerwyn Williams, *LlyB*, t. 66, a N.A. Jones, ‘Marwnad Bardd-Ryfelwr’, 106.

<sup>63</sup> CBT II 32.9-12, a gw. CBT II tt. 497 a 548.

<sup>64</sup> CBT I 18.17-20 *Nodded ni’ m rhodded rhag rhysgyr—arfau / Arfod Cai a Bedwyr; / Yng ngorofn trai, trais ffyr, / Yng ngwriawr cadwawr, cedwyr* (‘Ni roddwyd nodded i mi rhag arfau rhyfelgyrch / Ymladdfa Cai a Bedwyr; / Yng ngorofn enciliad [byddin], [rhai yn] dwyn i gof gadernid [oeddynt], / Yn rhyfel cadarglwydd, milwyr’). Gw. hefyd nodyn Andrews, *WCP* t. 118, ar linell gyntaf yr englyn, ond cymh. y nodyn yn CBT I, sy’n awgrymu y gellid darllen *neu’ m rhodded* ‘gan y byddai honni ei fod wedi ei arbed rhag ergydion Ednyfed a Thegwared (*Cai a Bedwyr*) o bosibl yn fwy ystyrlon ar ran Elidir’.

<sup>65</sup> Mae J.E.C. Williams, ‘Beirdd y Tywysogion: Arolwg’, 48, yn cyfeirio, e.e., at CBT II 2.61-2 (Llywelyn Fardd I, ‘Arwyrain Owain Gwynedd’) *Mi a fûm gennwch, can awch barnaf, / Ar dir Deheubarth, diau byrth naf*, a VI 12.13-16 (Phylip Brydydd, ‘Dadolwch Rhys Gryg’) *Mi a’ th fûm borthwr . . . / Ban oedd, lyw*

Mae enw Gwilym Rhyfel, yn ogystal â'r englyn a ganodd Gruffudd ap Gwrgenau iddo (CBT II 32.9-12), yn tystio i'w gysylltiadau milwrol yntau, ac fe awgrymodd Peredur Lynch y gallai Llygad Gŵr fod wedi cael ei enw barddol am fod ganddo 'lygad fel milwr'.<sup>66</sup> Ategir y syniad mai milwr oedd Llygad Gŵr gan linell mewn cerdd foliant o'i waith i Lywelyn ap Gruffudd, CBT VII 24.127 *Cyfarf wyf o rwyf rhudd lafnau—yng ngnif* ('Wedi fy llawn arfogi yr wyf gan bennaeth coch [ei] lafnau mewn brwydr'). Ac y mae beirdd eraill yn crybwyll eu harfau eu hunain weithiau. Yn ogystal â'r cyfeiriadau yng Ngorhoffedd Gwalchmai a nodwyd wrth ddechrau'r adran hon, gellid hefyd nodi'r gerdd ddiolch am gleddyf a ganodd Cynddelw i Ririd Flaidd, a'r llinell *Cleddyf clod wasgar a wisgaf ar glun* (CBT III 23.5) yn dwyn i gof gyfeiriad arall y bardd at wisgo cleddyf ar ei glun mewn englyn a ddyfynnwyd uchod.<sup>67</sup> Mae'r ffaith mai cerdd ddiolch yw hon yn ychwanegu at ei gwerth fel tystiolaeth fod beirdd wedi gwisgo arfau; ac er nad yw'n profi bod y cleddyf wedi ei ddefnyddio mewn brwydr erioed, y mae'n dangos, o leiaf, fod cleddyf yn ategolyn addas i fardd yn y byd go-iawn.<sup>68</sup>

Roedd milwriaeth yn cael ei hystyried fel nodwedd addas hefyd ar y beirdd cynharach, neu'r rhai chwedlonol. Ymfrostiodd Taliesin yn ei arfau a'i ddoniau milwrol ei hun, ymysg rhinweddau eraill,<sup>69</sup> bu Myrddin ym mrwydr Arfderydd, yn ôl yr 'Afallennau',<sup>70</sup> ac mae cyfeiriadau yn 'Y Gododdin' a'r Gwarchanau yn awgrymu bod Aneirin yntau wedi mynd i ryfel.<sup>71</sup> Crybwyllir beirdd-ryfelwyr hefyd yn y casgliadau o ddeunydd traddodiadol a elwir yn 'Trioedd Ynys Prydein':

Tri Gwa(y)6rud Beird Enys Prydein:  
 Trist6ard bard 6ryen [*neu* arouan uard Seleu ap kynan],  
 Dygynnelw bard Ewein mab 6yren,  
 ac Auan 6erdic bard Catwalla6n mab Catuan.<sup>72</sup>

---

*cyhoedd, lew cad, / Ym mhob rhiw rhyfel arnad.* Trafodwyd tystiolaeth am feirdd fel rhyfelwyr hefyd gan Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 169.

<sup>66</sup> J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 48; M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', t. 86, a Peredur Lynch, CBT VII t. 212.

<sup>67</sup> Sef CBT III 8.1-4 *Ym maes Bryn Actun kannun—neu rifais / A'm rhuddlafn ar fy nghlun . . .*

<sup>68</sup> Am gerddi gofyn a diolch, gw. isod n. 113.

<sup>69</sup> Nododd Marged Haycock, LPBT t. 169, nad yw ymfrostio Taliesin yn ei filwriaeth, ei arfau a'i geffyl yn 'Kat Godeu' yn annhebyg i gerddi Gorhoffedd Gwalchmai neu Hywel ab Owain Gwynedd.

<sup>70</sup> Afall<sup>LIDC</sup> 45 *Ac igueith arywderit. oet eur. wy gorthorch.*

<sup>71</sup> Kenneth Jackson, GOSP t. 57.

<sup>72</sup> Gall mai cyfansoddair yn cynnwys *gwawr* 'arglwyd, arwr' ac *udd* 'arglwydd' neu *rhudd* 'coch/gwaedlyd' oedd y ffurf wreiddiol, a'r gair mwy adnabyddus *gwaywrudd* (*gwayw* + *rhudd*, 'coch ei waywffon') wedi cymryd ei lle mewn fersiynau diweddarach (Rachel Bromwich, TYP tt. 20-1).

Nododd Marged Haycock fod cyfeiriadau yng ngherddi Taliesin yn darlunio'r bardd yn canu cyn brwydrau, neu yn ystod brwydrau,<sup>73</sup> ac fe allai un o linellau'r englyn gan Gynddelw a ddyfynnwyd uchod (CBT III 8.1 *Ym maes Bryn Actun kannun—neu rifais*) awgrymu ei fod yntau wedi canu ar faes y gad, o ddehongli *rhifo* fel 'mawrygu'.<sup>74</sup> Awgrymir yr un peth gan linellau eraill o waith Cynddelw (CBT IV 6.210-11):

Ceffitor 'y mhraffnad, 'y mhroffwyd—araith  
Ym mhryffwn a waedwyd.<sup>75</sup>

Nododd J.E. Caerwyn Williams dystiolaeth am feirdd neu gerddorion o India, yr Almaen, Iwerddon a Sgandinafia yn canu cyn brwydr.<sup>76</sup> Er y gallai rhai beirdd fod wedi cyflawni'r swyddogaeth hon yn unig, fel a ddigwyddodd yn Iwerddon, mae'n debyg,<sup>77</sup> gallai eraill fod wedi ymuno â'r brwydro wedyn. Yn ôl *Roman de Rou Wace*, er enghraifft, canodd y *jongleur* Taillifer am Siarlymaen a Roland cyn brwydr Hastings, ac yntau'n gofyn, ac yn cael, caniatâd y Dug Gwilym i daro'r ergyd gyntaf wedyn.<sup>78</sup> Mae'r bywgraffiad Cymreig *Historia Gruffud vab Kenan* hefyd yn nodi presenoldeb bardd, neu gerddor, mewn rhyfel, gan ddweud fod *Gellan telynyaur penkerd* wedi marw yn *llyniges* Gruffudd yn ystod brwydro ym Môn, er nad yw'n eglur a fu yno i frwydro neu ynteu i ganu.<sup>79</sup>

Mae'r cyfreithiau Cymreig yn tystio i swyddogaeth filwrol beirdd, wrth ddisgrifio perthynas agos y bardd teulu â gosgordd y brenin, er y byddai swyddogaethau'r bardd teulu a'r

<sup>73</sup> LPBT 5.27n, a gw. yn arbennig LPBT 5.43-4 *Kenynt gerdoryon; / kryssynt katuaon* a 8.9-10 *Keint yn aduwyn rodle ymore rac Vryen / yny uyd am an traet gwaet ar dien*. Awgrymodd Haycock, LPBT tt. 30-1, y gallai'r ddwy gerdd hyn fod wedi eu cyfansoddi, neu eu hail-lunio, gan Brydydd y Moch.

<sup>74</sup> Aralleiriad CBT 'Ym maes Bryn Actun can gŵr a fawrygais'. Yn ôl GPC mae ystyron *rhifo* yn cynnwys 'cyfrif o werth, gwerthfawrogi', 'adrodd' ac 'ystyried', yn ogystal â S. 'count', fel ei bod yn amhosibl cysylltu'r llinellau hyn yn bendant â chanu mewn brwydr. O ran 'ystyriais' fel ystyr bosibl, gellid cymharu dechrau englyn arall yn yr un gerdd, llau. 33-4 *Yn Ystrad Langwm ystyriais—ein glyw, / Ystyrient a genais* ('Yn Ystrad Langwm meddyliais am ein dewrion, / Meddylion hwy am yr hyn a genais'). Awgrymodd D.M. Lloyd, 'Barddoniaeth Cynddelw Brydydd Mawr', 174-5, fod defnydd Cynddelw o'r ferf *ystyriais* yma yn dangos 'rhyw *ystyried* sy'n treiddio'n is na'r gweledig'.

<sup>75</sup> Aralleiriad CBT 'Derbynnir fy ngherdd rymus, fy nghân [o] broffwydoliaeth / Ym mlaen brwydr a waedwyd'.

<sup>76</sup> J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 33.

<sup>77</sup> J.E. Caerwyn Williams, 'Meilyr Brydydd and Gruffudd ap Cynan', yn K.L. Maund (ed.), *Gruffudd ap Cynan: A Collaborative Biography* (Woodbridge, 1996), tt. 165-86 (t. 169).

<sup>78</sup> J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 33, a Glyn S. Burgess (trans.), *The History of the Norman People: Wace's Roman de Rou* (Woodbridge, 2004), t. 181 (gw. n. 276, ar yr un dudalen, am fersiynau eraill o'r stori hon).

<sup>79</sup> HGK t. 21. Nid yw statws Gellan yn hollol glir o'r *Historia*, ond yn *Vita Griffini Filii Conani*, testun y credir ei fod yn cynrychioli copi diweddar o fersiwn Lladin gwreiddiol y bywgraffiad, ceir *Gellan cytharaedus, penkerd*, gan awgrymu'r ystyr 'harpist, i.e. *pencerdd*' (VGC §23/16, a gw. nodyn Paul Russell ar y darn). Os Gwyddyl oedd Gellan – er nad yw hyn yn sicr – byddai hynny'n awgrymu mai canu yr oedd, am nad oedd beirdd Gwyddelig yn arfer ymladd wrth ochr eu noddwyr (gw. trafodaeth J.E.C. Williams, 'Meilyr Brydydd and Gruffudd ap Cynan', t. 169).



osgordd fel ei gilydd yn newid yn ystod cyfnod y tywysogion.<sup>80</sup> Mae cerddi Cynddelw i aelodau gosgorddion yn dystiolaeth ychwanegol am gysylltiad agos rhwng beirdd a rhyfelwyr, ni waeth a oedd y bardd yn ymladd ei hunan ai peidio.<sup>81</sup> Yn wir, mae Rhian M. Andrews wedi awgrymu y gallai'r berthynas hon fod wedi dechrau pan oedd beirdd ifanc yn cael eu haddysg, a hwythau'n dysgu trin arfau ar y cyd â *macwyaid* llysoedd y tywysogion cyn ymuno â'r osgordd.<sup>82</sup>

Ni ddylid cymryd, er hynny, fod pob bardd wedi ymladd, neu wedi byw ymhlith rhyfelwyr, neu fod pob bardd wedi cydsynio â safonau rhyfelgar ei oes. Mae Madog ap Gwallter yn eithriad amlwg, ac yntau'n fardd a ganodd i Dduw yn unig (hyd y gwyddys), ac efallai'n glerigwr.<sup>83</sup> Ac mae cerddi beirdd eraill yn cynnwys cyfeiriadau negyddol at arfau a lladd mewn cyd-destunau crefyddol, megis CBT I 27.107-8 (Einion ap Gwalchmai) *Mynnid im gyreifiaint mwyniant creiriau—Duw / A diofryd arfau* ('Fe fyn gwneud defnydd o greiriau Duw / Ac ymwrthod ag arfau faddeuant i mi'), II 31.17-18 (Gruffudd ap Gwrgenau) *Wythfed yw lladd â llafnau cochwedd / Celain a chathl brain ar ei bronwedd*, a VI 10.33-4 (Llywelyn Fardd II) *Ni mad gymyrth arf ni gymer—benyd / Can ni wŷr ennyd pa hyd ater*.

Mae cerdd ddadolwch a ganodd Elidir Sais i Lywelyn ab Iorwerth yn ymddangos fel pe bai'n beirniadu rhyfel yn fwy penodol (CBT I 17.22-9):

Cysul a'th roddaf (o'th rin—wyd gorau,  
Wyd gorofn tra merin!):  
Ystyrych pan dreisych dros ffin,  
Ystwing pawb hyd ben ei ddeulin;  
Bydd wrth wan gyfran gywrennin,  
Bydd iawnllary wrth gerddau iawnllin,  
Bydd wrdd-ddrud, aer ddylud ddilin,  
Dilain Lloegr a llwgr ei gwerin.  
Trugaredd a'th fo o'th fein—gaerwedd  
O garu Duw Ddewin!<sup>84</sup>

<sup>80</sup> D. Jenkins, 'Bardd Teulu and Pencerdd', t. 163. Nododd D. Jenkins, 'Bardd Teulu and Pencerdd', tt. 149-50, fod cyfeiriadau yn y gwahanol fersiynau o'r cyfreithiau at y bardd teulu'n canu i'r osgordd gerdd a elwid yn *Unbeiniaeth Prydain* yn dangos newid mewn arferion, a'r canu wedi digwydd yn wreiddiol wrth iddynt fynd i'r gad, ond yn ddiweddarach wrth rannu'r ysbail. Awgrymodd Rachel Bromwich y gall mai 'Armes Prydein' oedd y gerdd hon (Adolygiad o A.O.H. Jarman and Gwilym Rhys Hughes (eds.), *A Guide to Welsh Literature, Volume 1* (Swansea, 1976), *Llên Cymru*, 13 (1980-1), 298-301 (300)), ac awgrymodd J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 34, y gallai'r 'Gododddin' fod wedi goroesi mor hir oherwydd ei hadrodd gan feirdd teulu dan yr un amgylchiadau.

<sup>81</sup> Gw. yr adran flaenorol.

<sup>82</sup> 'Golwg ar Yrfa Gwalchmai', *Llên Cymru*, 27 (2004), 30-47 (30).

<sup>83</sup> CBT VII tt. 347-50.

<sup>84</sup> Aralleiriad CBT 'Cyngor a roddaf i ti (oherwydd dy briod allu yr wyt orau, / Arswyd mawr wyt dros y môr!): / Boed i ti ystyried pan fyddi'n treisio dros [y] ffin / [A] gostwing pawb hyd ben ei ddeulin; / Bydd wrth y gwan yn barod [dy] ran, / Bydd yn dra haelionus wrth gerddi o iawn linach, / Bydd [yn] gadarnddewr,

Ond serch y ddwy linell olaf, a serch y cyngor heddychlun yn llinellau 22-5 – sy'n ymwneud, mae'n debyg, â ffiniau o fewn Cymru – mae Elidir yn ymddangos yr un mor rhyfelgar â'i gyfoedion yn ei agwedd tuag at Loegr yn llinellau 28-9.<sup>85</sup> Gorsymleiddio, felly, fyddai dweud bod Elidir Sais yn 'heddychwyr' pur.<sup>86</sup> Mae'n ymddangos, yn hytrach, iddo wrthwynebu polisiâu ehangol Llywelyn, naill ai oherwydd dull y tywysog o drin ei ewythrod, Dafydd a Rhodri ab Owain Gwynedd, neu am resymau gwleidyddol neu foesol eraill.<sup>87</sup> Mae Gruffudd ab yr Ynad Coch yntau yn dangos agwedd fwy myfyriol tuag at ryfel, neu efallai tuag at ymdrechion pob dyn meidrol ar y ddaear hon, wrth gloi ei ddisgrifiad o ogoniant Llywelyn ap Gruffudd gyda'i fyddinoedd a'i wleddoedd (CBT VII 42.31-2):

Hynny aeth heibaw fal ymchoel dy law,  
Mae pawb yn adaw oed dibara.

#### 1.4 Yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion – diffiniadau a dylanwadau

##### 1.4.1 Beirdd y Tywysogion

Mae cyfnod canu Beirdd y Tywysogion yn estyn o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif (neu ychydig yn gynharach), gyda'r cerddi mawl i Hywel ap Goronwy a Chuhelyn Fardd a cherddi Meilyr Brydydd,<sup>88</sup> ac yn dod i ben ychydig flynyddoedd ar ôl canu am farwolaethau

---

ymlidiwr ymosod mewn brwydr, / Diffeithiwr Lloegr a dinistr ei phobl. / Boed i ti drugaredd yn dy gaer o feini / Drwy garu Duw[’r] Dewin!

<sup>85</sup> Am y dehongliad gw. CBT I t. 343, a gw. hefyd R.R. Davies, *The Age of Conquest*, t. 14, yn cymharu'r darn hwn â III 8.69-72 (Cynddelw, 'Marwnad Madog, Llywelyn a Theulu Powys') *Ym mywyd Madawg ni feiddiai undyn / Dwyn terfyn tra hyfryd, / Nid meddwl meddu hefyd, / Namyn o Dduw, ddim o'r byd*.

<sup>86</sup> Mae'n wir y gall CBT I 21.32 *Gwaith dedwydd yw dadolychu* gyfeirio at heddychu rhwng dynion, ond mae cyd-destun y llinell honno yn awgrymu mai ei hystyr bennaf yw fod y bardd yn cymodi â Duw – a hynny'n rhywbeth y mae'n cynghori pobl eraill i'w wneud mewn cerdd arall (CBT I 23.25-6 *Cymhennaf i ddyn cyn ei ddiwedd / Cymodi â Duw cyn mud ym medd*).

<sup>87</sup> Dywed D. Myrddin Lloyd, yn y cofnod am Elidir Sais yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953): 'Y mae'n amlwg nad oedd ganddo fawr gydymdeimlad â thuedd ei oes yng Nghymru.' Am rawd y bardd hwn a'i berthynas â'r tywysogion gw. ymhellach CBT I tt. 319-24 a 343, a Jennifer Day, "'Elidir gwir, gwarant iawn—ganon": Elidir ap Gwalchmai ac Elidir Sais', *Llên Cymru*, 28 (2005), 53-99.

<sup>88</sup> Dyddiwyd 'Mawl Hywel ap Goronwy' i'r cyfnod rhwng 1102 a 1105 gan R. Geraint Gruffydd, CBT I t. 3, ond dadleuodd Nerys Ann Jones, 'Golwg Arall ar "Fawl Hywel ap Goronwy"', *Llên Cymru*, 21 (1998), 1-8, ei bod wedi ei chanu cyn 1100, gan awgrymu'r flwyddyn 1096 fel un posibilrwydd (cymh. hefyd Rhian M. Andrews, WCP, tt. 43-4, sy'n dyddio'r gerdd i ddegawd olaf yr unfed ganrif ar ddeg). Byddai'r cyfeiriad yn 'Cerdd Ddarogan Meilyr' (CBT I cerdd 5) at frwydr Mynydd Carn (1081) yn golygu gosod dechrau cyfnod Beirdd y Tywysogion yn gynharach fyth, pe bai'r gerdd yn cael ei derbyn fel gwaith Meilyr Brydydd. Ond er cynnwys y gerdd yn CBT I, nodir yno, tt. 61-3, fod y priodoliad hwn yn amheus. Gw. ymhellach Morris-Jones, *Cerdd Dafod*, t. xxiv; J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 13; R. Geraint Gruffydd, 'Meilyr Brydydd a Meilyr Awenydd', *Barn*, 213 (Hydref 1980), 313-16, a Nerys Ann Jones, 'The Mynydd Carn "Prophecy": A Reassessment', *CMCS* 38 (1999), 73-92. Nid yw'r gerdd hon yn berthnasol i'r astudiaeth bresennol, fodd bynnag, am nad oes ynddi gyfeiriadau at arfau.

Llywelyn ap Gruffudd a'i frawd Dafydd yn 1282 a 1283.<sup>89</sup> Cedwid y cerddi mewn tair prif lawysgrif, sef Llawysgrif Hendregadredd (c. 1283-1325-(50)), Llyfr Coch Hergest (c. 1400), a ffynhonnell ganoloesol goll (sef darnau coll o Lawysgrif Hendregadredd ei hun, fwy na thebyg) a gopiwyd gan John Davies, Mallwyd, yn ei 'Liber B' (llsgr. NLW 4973B (1631)).<sup>90</sup> Llawysgrif Hendregadredd yw'r ffynhonnell bwysicaf, a'i phrif ysgrifwr, a alwodd Daniel Huws yn 'Alpha', yn bennaf cyfrifol am greu 'ein haniaeth lenyddol "Beirdd y Tywysogion"', fel y dywed Daniel Huws.<sup>91</sup> Meilyr Brydydd yw'r bardd cynharaf y cynhwyswyd ei gerddi yn y llawysgrif hon, a'r gerdd ddiweddaraf, mae'n debyg, yw marwnad Bleddyn Fardd i Lywelyn ap Gruffudd.<sup>92</sup> Er bod y tair prif lawysgrif yn dyddio o gyfnod ar ôl cwmp y tywysogion, mae rhai cerddi o'r un corpws wedi goroesi mewn llawysgrifau cynharach, sef Y Llyfr Du o'r Waun (c. 1250), Llyfr Du Caerfyrddin (c. 1250) a llsgr. Peniarth 3i (ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg).<sup>93</sup>

Mae 'Gogynfeirdd' yn enw arall a ddefnyddir, ond mae hwn yn derm ehangach sy'n cynnwys nid yn unig Feirdd y Tywysogion ond hefyd rai o'r beirdd a ganai i uchelwyr Cymru ar ôl cyfnod y tywysogion, hyd tua 1370.<sup>94</sup> Bathwyd yr enw hwn yn y ddeunawfed

---

<sup>89</sup> Yn ogystal â saith cyfrol CBT, gw. yr ymdriniaethau â Beirdd y Tywysogion gan Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes'; J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg'; G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, pennod 4; J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*; M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', Rhian M. Andrews, rhagymadrodd i WCP, a N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*.

<sup>90</sup> Mae'r cyfnod a nodir uchod ar gyfer Llawysgrif Hendregadredd yn cwmpasu cyfraniadau tair 'haen' o waith gwahanol ysgrifwyr, y cyntaf, 'Alpha', yn ysgrifennu c. 1300 neu efallai'n fuan ar ôl 1282, a'r ail yn ysgrifennu hyd 1325; nid yw cerddi'r drydedd haen yn cynnwys ond un enghraifft o waith Beirdd y Tywysogion, sef un o awdlau crefyddol Elidir Sais a gopiwyd c. 1325-50 (Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', *CLIGC* 22 (1981), 1-26 (13); Nerys Ann Jones, 'Ffynonellau Canu Beirdd y Tywysogion', *Studia Celtica*, 37 (2003), 81-125 (82-6), a CBT I t. 374). Gw. hefyd Gerald Morgan, 'Testun Barddoniaeth y Tywysogion yn Llsgr. N.L.W. 4973', *B* 20 (1962-4), 95-103; Dafydd Johnston, Adolygiad o CBT VI, *Llên Cymru*, 21 (1998), 196-201 (198), a Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000), t. 226.

<sup>91</sup> D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', 14.

<sup>92</sup> D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd'; N.A. Jones, 'Ffynonellau', 82, a gw. hefyd D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, tt. 193-226. Cerddi Meilyr Brydydd sy'n dod gyntaf yn rhwymiad Dr John Davies, Mallwyd, o'r llawysgrif, o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ond fe ymddengys mai cerddi Cynddelw a ddôl yn gyntaf yn rhwymiad cynharach William Llŷn (N.A. Jones, 'Ffynonellau', 83-4).

<sup>93</sup> N.A. Jones, 'Ffynonellau', 95, a D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, t. 58. Mae Llyfr Du Caerfyrddin yn cynnwys yr unig gopiâu cynnar o 'Mawl Cuhelyn Fardd' a 'Mawl Hywel ap Goronwy'. Er bod y cerddi hyn heb eu priodoli i feirdd penodol fe'u cyfrifir fel gwaith Beirdd y Tywysogion ar sail ieithwedd, mydr, a pherthynas y beirdd â'u noddwyr (J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, t. 10).

<sup>94</sup> Canai'r Gogynfeirdd Diweddar yn ôl hen dduilliau Beirdd y Tywysogion, o'u cyferbynnu â dulliau newydd y cywyddwyr (gw., e.e., Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 167, a J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, t. 80). Nododd Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 51, fod rhaid gwahaniaethu rhwng beirdd megis Casnodyn a ganai yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif, cyn y daeth y cywydd yn boblogaidd, a rhai diweddarach megis Gruffudd ap Maredudd, yr ymddengys iddo ymwrthod â'r cywydd yn fwriadol. Gw. ymhellach olygiadau *Cyfes Beirdd yr Uchelwyr* o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur (*fl.* c. 1300) a Gwilym Ddu o Arfon (*fl.* 1316-18) (GGDT), Casnodyn (*fl.* hanner cyntaf y 14g.) (GC), Gruffudd ap Maredudd ap

ganrif, mae'n ymddangos, mewn cyferbyniad â'r term 'Y Cynfeirdd' a fathwyd ganrif yn gynharach ar gyfer y beirdd y credid iddynt ganu cyn 1100.<sup>95</sup> Gwyddys erbyn hyn, fodd bynnag, fod rhai cerddi o waith y 'Cynfeirdd' yn gyfoes â cherddi'r 'Gogynfeirdd', fel y trafodir yn yr adran nesaf. Am y rheswm hwnnw, ac oherwydd ehangder cronolegol yr enw 'Gogynfeirdd', defnyddir y termau 'Beirdd y Tywysogion' a 'Hengerdd' fel arfer yn y traethawd hwn, a 'Hengerdd' yn cwmpasu'r holl gerddi o'r cyfnod cyn c. 1300 na ellir eu cysylltu'n bendant â Beirdd y Tywysogion.<sup>96</sup>

Golygwyd gwaith Beirdd y Tywysogion yn drwyadl yn ddiweddar yn saith cyfrol *Cyfres Beirdd y Tywysogion*. Cyflwynir yno 237 o gerddi fesul bardd,<sup>97</sup> mewn trefn sydd fwy neu lai'n gronolegol, er bod rhoi gwaith holl ddisgynyddion (gwir neu dybiedig) Meilyr Brydydd yn y gyfrol gyntaf yn golygu ei bod yn cynnwys rhai cerddi sy'n ddiweddarach na cherddi cyfrolau II-V. Cyflwynir gwaith amryw feirdd o'r ddeuddegfed ganrif yn yr ail gyfrol, ond gwaith dau fardd unigol, sef Cynddelw Brydydd Mawr a Phrydydd y Moch, a geir yng nghyfrolau III-IV a chyfrol V. Mae'r ddwy gyfrol olaf, sef cyfrolau VI a VII, yn cynnwys gwaith amryw feirdd o'r drydedd ganrif ar ddeg. Ers cyhoeddi'r gyfres, mae rhai o'r priodoliadau wedi eu herio. Dangosodd Nerys Ann Jones mai camgymeriad copïo fu'n gyfrifol am fodolaeth 'Meilyr ap Gwalchmai' fel bardd, dadleuodd Gruffydd Aled Williams y gallai'r cerddi a briodolir i'r Tywysog Owain Cyfeiliog fod wedi eu cyfansoddi mewn gwirionedd gan Gynddelw, ac yn ddiweddar iawn mae Dafydd Johnston wedi awgrymu'r un posibilrwydd ynghlŷn â cherddi Hywel ab Owain Gwynedd.<sup>98</sup> Mae'n anodd profi'r

---

Dafydd (*fl.* 1346-82) (GGMDi-iii), Madog Dwygraig (*fl.* ail hanner y 14g.) (GMD) a Dafydd y Coed (*fl.* ail hanner y 14g.) (GDC).

<sup>95</sup> J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 3. Nododd A.O.H. Jarman, *The Cynfeirdd: Early Welsh Poets and Poetry* (Cardiff, 1981), t. 1, fod y term 'Y Cynfeirdd' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer cerddi y credid iddynt gael eu canu rhwng y chweched canrif a'r unfed ganrif ar ddeg, er cael ei gyfyngu weithiau i feirdd yr ystyr iddynt berthyn i hanner cyntaf y cyfnod hwnnw, sef Aneirin, Taliesin a Llywarch Hen (gw. y drafodaeth am 'yr Hengerdd' yn yr adran nesaf, isod).

<sup>96</sup> Mae awgrym diweddar Haycock, LPBT tt. 27-36, y gallai Prydydd y Moch fod wedi cyfansoddi rhai o gerddi 'Taliesin' wedi gwneud i'r cyfryw ddiffiniadau ymddangos braidd yn artiffisial, ond at ddibenion ymarferol y traethawd hwn fe gedwir y term 'cerddi Beirdd y Tywysogion' ar gyfer y cerddi a olygir yn CBT, a'r term 'yr Hengerdd' ar gyfer yr holl gerddi eraill hyd at tua 1300 a gynhwysir ym mynegair CD-ROM Graham Isaac o'r Hengerdd (H-cd), ac eithrio 'Englynion y Misoedd'. (Credir erbyn hyn fod 'Englynion y Misoedd' wedi eu cyfansoddi tua diwedd y bymthegfed ganrif; gw. Nicolas Jacobs, "'Englynion" y Misoedd: Testun B neu Fersiwn Llansteffan 117 a Pheniart 155', *Dwned*, 6 (2000), 9-24, a Nicolas Jacobs, "'Englynion" y Misoedd: Testun C neu Fersiwn Nyffryn', *Llên Cymru*, 25 (2002), 1-11).

<sup>97</sup> N.A. Jones, 'Ffynonellau', 81.

<sup>98</sup> Nerys Ann Jones, 'Meilyr ap Gwalchmai – Rhithfardd!', *Dwned*, 9 (2003), 23-36; Gruffydd Aled Williams, 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?', yn M.E. Owen a B.F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion*, tt. 180-201, a D. Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', t. 149. Tynnodd Nerys Ann Jones sylw, hefyd, at y ffaith nad oes sicrwydd ynghylch dosbarthiad y cerddi a briodolir i Lywelyn Fardd (a rennir rhwng 'Llywelyn Fardd I' a 'Llywelyn Fardd II' yn CBT), gan awgrymu y gall mai tri bardd yn hytrach

priodoliadau hyn drwy gymharu cerddi, er hynny, am y gallai'r cyffelybiaethau fod yn ffrwyth dylanwad cryf y naill fardd ar y llall<sup>99</sup> – ac yn wir, yn achos Hywel ab Owain Gwynedd, mae astudiaeth Rhian M. Andrews ar gynganeddion ei gerddi yn awgrymu bod Gwalchmai a Chynddelw fel ei gilydd wedi dylanwadu arno ar wahanol adegau.<sup>100</sup> Rhaid nodi hefyd fod y tebygolrwydd fod nifer fawr o gerddi ar goll yn golygu y gallai'r cyfryw gyffelybiaethau fod yn gamarweiniol.<sup>101</sup>

Er mai Cynddelw, bardd o Bowys,<sup>102</sup> oedd y mwyaf cynhyrchiol o Feirdd y Tywysogion yn ôl nifer y cerddi sydd wedi goroesi,<sup>103</sup> tywysogion Gwynedd a enillodd y rhan fwyaf o ganmoliaeth y beirdd.<sup>104</sup> Gallai casglwyr y cerddi fod wedi ychwanegu at yr ogwydd hon – mae'n drawiadol fod 'Alpha' wedi rhoi cerddi i dywysogion Gwynedd o flaen cerddi i dywysogion y rhanbarthau eraill, yn Llawysgrif Hendregadredd<sup>105</sup> – ond y tebyg yw fod atyniad y noddwyr hyn i feirdd wedi ei adlewyrchu mewn gwirionedd yn nifer y cerddi a ganwyd iddynt. Diau fod hyn yn ymwneud i raddau helaeth â grym gwleidyddol,<sup>106</sup> er y gallai nodweddion fel haelioni a 'cherddgarwch'<sup>107</sup> fod wedi ychwanegu at apêl rhai noddwyr. At ddibenion y traethawd hwn, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r ogwydd

---

na dau a ganodd y cerddi hyn ('Llywarch ap Llywelyn a Llywarch Brydydd y Moch', *Llên Cymru*, 24 (2001), 161-4, ac am Lywelyn Fardd I a II gw. hefyd CBT II tt. 3-5 a CBT VI tt. 101-3). Dadleuodd Jones ymhellach, yn yr un erthygl, mai dau fardd, yn hytrach nag un, yw'r Llywarch ap Llywelyn a enwir yn nheitl cerdd arwyrain i Lywelyn Fawr (CBT V cerdd 24) a'r Llywarch Brydydd y Moch (neu Brydydd y Moch, yn syml) a enwir fel awdur cerddi eraill. At hynny, awgrymodd Andrews, 'Golwg ar Yrfa Gwalchmai', 36, y dylid gwahanu'r cerddi a briodolir i Elidir Sais (mab tybiedig arall i Walchmai) rhwng dau fardd o'r un enw, gan ddadlau bod dau o'i gyfeiriadau at ffigurau hanesyddol, sef ei farwnad i Ednyfed Fychan (m. 1246), a'i gyfeiriad at haelioni tad Llywelyn Fawr, sef Iorwerth Drwyndwn (m. 1174) (CBT I 17.48-9 *Haelaf oedd Fordaf a' th fawrdad—am ged, / Ni'm gedynt arallwlad*) yn gwneud cyfnod ei ganu yn afresymol o hir i un dyn. Er hynny, mae'r cyferbyniad rhwng *mawrdad* Llywelyn a'r ffigur chwedlonol Mordaf (un o'r 'Tri Hael') yn awgrymu nad oes rhaid deall y llinellau hyn yn llythrennol (gw. Day, "Elidir gwir, gwarant iawn—ganon", sy'n trafod hefyd y berthynas deuluol dybiedig rhwng Elidir a Gwalchmai).

<sup>99</sup> M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', yn N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 31-60 (t. 50). Awgrymodd Gruffydd Aled Williams, CBT II t. 206, y gallai'r cerddi a briodolir i Owain Cyfeiliog gynrychioli 'ffrwyth cydymwneud ffrwythlon rhwng noddwr a bardd' hyd yn oed os Cynddelw oedd y prif awdur; ac am ddylanwad Cynddelw ar Hywel gw. Huw Meirion Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', yn N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 88-110 (tt. 89-90).

<sup>100</sup> Rhian M. Andrews, 'Cynganeddion Hywel ab Owain', yn N.A. Jones (gol.), *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 152-92.

<sup>101</sup> Diolchaf i Dr Nerys Ann Jones am yr awgrym hwn.

<sup>102</sup> Mae traddodiad iddo hanu o Fechain (gallai cyfeiriad at *Mihangel* mewn un o'i gerddi awgrymu iddo ddod o blwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa yn y cantref hwnnw); ac mae'n eglur fod ganddo gysylltiadau cynnar â theulu Madog ap Maredudd, tywysog Powys (CBT III t. xxviii).

<sup>103</sup> Fel y nodwyd yn barod, mae dwy o saith cyfrol CBT yn cynnwys ei gerddi ef, sef 20 awdl a 28 cyfres o englynion, ac iddynt 3852 o linellau, o'u cymharu â 1780 llinell o waith Prydydd y Moch (CBT III t. xxxiii a CBT V t. xxvii).

<sup>104</sup> M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', tt. 79-83.

<sup>105</sup> N.A. Jones, 'Ffynonellau', 83.

<sup>106</sup> Gw. M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', t. 78: 'po rymusaf y rheolwr, mwyaf yn y byd o gerddi iddo sydd wedi goroesi'.

<sup>107</sup> Gw. CBT I 10.23-4 *Cadwaladr cerddgar, cerddau cyfarwar, / Cyfarf fu a'm perchi*.

ddaeryddol-wleidyddol, a'r anghydbwysedd cronolegol, yn nosbarthiad y cerddi sydd wedi goroesi. Cymharol brin yw'r farddoniaeth i dywysogion Powys, ac mae cerddi o'r Deheubarth wedi eu cyfyngu i gyfnod yr Arglwydd Rhys (m. 1197) a'i ddisgynyddion, ar wahân i ddwy gerdd o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif ('Mawl Hywel ap Goronwy' a 'Mawl Cuhelyn Fardd').<sup>108</sup> Yn yr un modd, o fewn y canu a gysylltir â Gwynedd, mae mwy o gerddi i Lywelyn ab Iorwerth nag i unrhyw dywysog arall.<sup>109</sup>

Canu mawl a marwnad i dywysogion ac arglwyddi, ac weithiau i'w perthnasau, eu swyddogion a'u gosgorddion, yw'r rhan fwyaf o'r cerddi sydd wedi goroesi, ond y mae ar glawr hefyd gerddi crefyddol, cerddi i ferched ac i wragedd, ac amryw *genres* neu *is-genres* eraill megis cerddi Gorhoffedd, cerddi dadolwch a bygwth, ymrysonau barddol a cherddi diolch.<sup>110</sup> Ni fyddai pob bardd yn ymwneud â *genre* yn yr un modd – er enghraifft, nid oes syndod na chadwyd unrhyw gerdd o fawl i dywysog gan y bardd-dywysog Hywel ab Owain Gwynedd, a cherddi crefyddol yn unig a ganwyd gan Fadog ap Gwallter, hyd y gwyddom (CBT II cerddi 32-4).<sup>111</sup> Cynddelw yw'r bardd a gysylltir â'r nifer fwyaf o *genres*, er y gallai'r ffaith hon fod yn gysylltiedig â lluosogrwydd y cerddi o'i waith sydd wedi goroesi.<sup>112</sup>

Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau'r beirdd at arfau ac offer rhyfel i'w cael yn y cerddi mawl a'r marwnadau, gan ddisgrifio offer y gwrthrychau, a'r *genres* hynny sy'n cael y prif sylw yn y traethawd hwn. Ond pwysig hefyd yw'r darluniau o'r beirdd eu hunain fel arwyr

---

<sup>108</sup> M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', tt. 82-3. Awgrymodd H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', t. 90, y gallai barddoniaeth Ceredigion fod wedi dylanwadu ar Hywel yn ystod y deng mlynedd a dreuliodd yno, ac y gallai Dafydd ap Gwilym yntau fod wedi 'tynnu ar draddodiad coll barddoniaeth lys Deheubarth'.

<sup>109</sup> M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', tt. 79-80.

<sup>110</sup> J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 50-94, a G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, tt. 134-48. Am *genres* yr Hengerdd gw. Jenny Rowland, 'Genres', yn Brynley F. Roberts (ed.), *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth, 1988), tt. 179-208.

<sup>111</sup> Ni chanodd Owain Cyfeiliog yntau glodydd i dywysogion, ond yn hytrach i osgorddion (oni bai mai gwaith Cynddelw yw'r cerddi hyn) (gw. uchod, adran 1.2). Bardd arall nad oes gennym ganu mawl i dywysogion o'i waith yw Iorwerth Fychan, a'i dair cerdd yn CBT VII (cerddi 29-31) oll yn gerddi i ferched. Gall fod yn berthnasol fod Iorwerth, yn ôl pob tebyg, yn 'fardd o uchelwr' – gw. CBT VII t. 307, yn ei gymharu â Hywel ab Owain Gwynedd, a J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 67, yn cysylltu cerddi serch Hywel â'r ffaith 'ei fod yn dywysog ac felly heb fod dan rwympau i ganu yn ôl y ddefod ac i geisio a chadw ffafr noddwr'. Ni ellir bod yn sicr mai ef oedd y cyntaf i gyflwyno syniadau 'serch llysaidd' i farddoniaeth Gymraeg, er hynny, am fod elfennau tebyg yn 'Rheingerdd Efa' Cynddelw, y credir iddi gael ei chanu cyn 1160 (A. Parry Owen, 'Rheingerdd Efa', 70-2). Gw. hefyd H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 88-90, sy'n dadlau nad 'rhyw adar prin o gerddi a genhedlwyd gan amgylchiadau ac athrylith arbennig y bardd' oedd cerddi Hywel i wragedd, ac am ddylanwadau eraill ar waith Hywel gw. n. 108 uchod ac adran 1.5 isod).

<sup>112</sup> A. Parry Owen, "'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan'", tt. 143-4.

gwyh, megis yn awdl Prydydd y Moch i Wenllian a Gorhoffedd Gwalchmai, a'r cyfeiriadau eraill at feirdd, aelodau gosgorddion a milwyr 'cyffredin' yn ymladd a grybwyllwyd yn barod yn y bennod hon. Yn wir, i fardd y perthyn yr arf y ceir y darlun mwyaf eglur ohono ymhlith holl farddoniaeth Beirdd y Tywysogion, sef y cleddyf y canodd Cynddelw gerdd ddiolch amdano (CBT III cerdd 23).<sup>113</sup> Ond hyd yn oed mewn canu serch a chanu crefyddol, mae ambell gyfeiriad trosiadol neu ffigurol yn adlewyrchu grym symbolaidd arfau yn y gymdeithas ac yn y traddodiadau brodorol ac eglwysig, yn ogystal â dawn greadigol y beirdd.

#### 1.4.2 Yr Hengerdd

Y tu allan i gorff cymharol ddiffiniedig canu Beirdd y Tywysogion mae amryw gerddi Cymraeg eraill a elwir yn 'waith y Cynfeirdd', 'yr Hen Ganu' neu 'yr Hengerdd'. Fel mae'r enwau hyn yn awgrymu, mae lle i gredu bod llawer o'r cerddi hyn yn hŷn na gwaith Beirdd y Tywysogion, ac efallai'n sylweddol hŷn, er nad yw'r un o'r prif lawysgrifau sy'n eu cynnwys, sef Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Aneirin, Llyfr Taliesin a Llyfr Coch Hergest, yn dyddio o gyfnod cyn y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>114</sup>

Awgrymodd Ifor Williams fod Aneirin a Thaliesin yn feirdd hanesyddol a ganodd yn y chweched ganrif, a bod 'Y Gododdin' (neu ryw gnewyllyn gwreiddiol ohoni) a'r deuddeg cerdd a elwid ganddo'n gerddi dilys Taliesin yn dyddio o'r un cyfnod.<sup>115</sup> Tebyg oedd barn Kenneth Jackson yn ei gyfieithiad *The Gododdin: The Oldest Scottish Poem*, gan osod 'Y Gododdin' a'i 'Gwarchanau' tua diwedd y chweched ganrif, er nodi y gallai newidiadau sylweddol fod wedi digwydd yn ystod y ddwy ganrif neu fwy cyn iddynt gael eu rhoi ar

---

<sup>113</sup> Roedd *genre* y gerdd ddiolch yn rhoi i feirdd fwy o gyfle i oedi dros ddisgrifiad nag a geid fel arfer mewn cerddi mawl. Nid oes cerdd ddiolch arall am arf wedi goroesi o gyfnod Beirdd y Tywysogion, er bod gennym gerddi gan Gynddelw i ddiolch am gorn hela ac am darw (CBT III cerddi 6 a 22), ac mae'r unig gerdd a briodolir i Lywarch y Nam yn gerdd i ddiolch am gŵn (CBT II cerdd 17). Mae cerddi gofyn yn cynnig cynigion tebyg am ddisgrifiad (gw., e.e., y cerddi i ofyn cylllell gan y beirdd diweddarach Rhys Goch Eryri a Guto'r Glyn a drafordir yn adran 3.6 o'r traethawd hwn) ond mae'n amheus a oes unrhyw enghraifft o gerdd ofyn bur o waith Beirdd y Tywysogion, er bod elfennau tebyg yn yr unig gerdd a briodolir i Lywarch Llaety, sef CBT II cerdd 16, 'Mawl i Lywelyn ap Madog', ac ym 'Mawl Cuhelyn Fardd' (CBT I cerdd 2). Am yr holl gerddi hyn gw. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 194; J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 65; Nerys Ann Jones, 'Canu Gofyn a Diolch Beirdd y Tywysogion', *Dwned*, 5 (1999), 23-33, a'r rhagymadroddion i'r cerddi unigol yn CBT. Cerdd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur i ofyn bwa yw'r enghraifft sicr gynharaf o gerdd ofyn sydd wedi goroesi (GGDT cerdd 2).

<sup>114</sup> Ysgrifennwyd y tair cyntaf o fewn cyfnod Beirdd y Tywysogion, a'r bedwaredd, Llyfr Coch Hergest, fwy na chanrif ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw (D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, t. 226).

<sup>115</sup> CA tt. xi-xvi ac xc-xciii, BWP tt. 50-69 a PT tt. lxxv-lxxviii.

femrwn.<sup>116</sup> Ond fe gododd Proinsias Mac Cana rai amheuon wrth adolygu llyfr Jackson, ac fe ddadleuodd David Greene nad oes unrhyw ddarn o'r 'Gododdin', nac yng ngherddi 'dilys' Taliesin, 'where a ninth-century date is excluded by the archaism of the language'.<sup>117</sup> Yn fwy diweddar mae R. Geraint Gruffydd wedi dadlau bod y 'cradle-song' 'Pais Dinogad', a ryngosodwyd o fewn testun 'Y Gododdin', yn dyddio o gyfnod tua chanol y seithfed ganrif, neu'n gynharach,<sup>118</sup> ac mae John Koch, wrth gyflwyno ei destun 'adluniedig', wedi amddiffyn y syniad fod 'Y Gododdin' ei hun yn tarddu o'r chweched neu'r seithfed ganrif, gan ddadlau ei bod yn cynnwys rhai elfennau o'r Oes Haearn gyn-Rufeinig, hyd yn oed.<sup>119</sup> Dadleuodd Graham R. Isaac, ar y llaw arall, y gallai'r 'Gododdin' fod yn gerdd (neu'n gerddi) a gyfansoddwyd yn llawer diweddarach, efallai yn y ddegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar ddeg, er cydnabod ei bod yn cynnwys elfennau a allai fod mor hen â'r chweched ganrif, neu'n hŷn fyth.<sup>120</sup>

Mae'r cerddi o Lyfr Taliesin a ystyrir fel gwaith dilys Taliesin gan Ifor Williams yn tueddu i gael eu trin fwy fel cerddi unigol erbyn hyn, yn hytrach nag fel un corff o ganu, ac yn achos y cerddi hyn hefyd mae gwahaniaethau barn ynghylch eu dyddiad. Cynhwysodd John Koch adluniad 'Archaic Neo-Brittonic' o 'Gweith Gwen Ystrat' yn rhagymadrodd ei destun

<sup>116</sup> GOSP tt. 62-3.

<sup>117</sup> Proinsias Mac Cana, Adolygiad o GOSP, *Celtica*, 9 (1971), 317-29, a David Greene, 'Linguistic Considerations in the Dating of Early Welsh Verse', *Studia Celtica*, 6 (1971), 1-11 (11), a gw. ymateb K.H. Jackson, 'Some Questions in Dispute about Early Welsh Literature: I. How Old is the *Gododdin*?', *Studia Celtica*, 8/9 (1973-4), 1-17. Gw. hefyd David Dumville, 'Ystiriaethau Palaeograffegol wrth Ddyddio Barddoniaeth Gymraeg Gynnar', *YB* 13 (1985), 17-25; D. Simon Evans, 'Iaith y Gododdin', yn AH tt. 72-88; David N. Dumville, 'Early Welsh Poetry: Problems of Historicity', yn B.F. Roberts (ed.), *Early Welsh Poetry*, tt. 1-16, a Graham Isaac, 'Scholarship and Patriotism: the Case of the Oldest Welsh Poetry', *Studia Celtica*, 1 (2002), 67-81.

<sup>118</sup> Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Where Was *Rhaeadr Derwennydd* (*Canu Aneirin*, Line 1114)?', yn A.T.E. Matonis and Daniel F. Melia (eds.), *Celtic Languages, Celtic Culture: A Festschrift for Eric P. Hamp* (Van Nuys, 1990), tt. 261-6, sy'n dadlau hefyd ei bod yn debygol 'that the texts we now have of *Y Gododdin* had their genesis in a Strathclyde scriptorium sometime in the latter half of the seventh century'.

<sup>119</sup> GodA (1997), a John T. Koch, '*llawr en asseð* (CA 932) "The Laureate Hero in the War-Chariot": some Recollections of the Iron Age in the Gododdin', *Études celtiques* (1987), 253-78, a gw. hefyd Morfydd E. Owen, *Golwg Bardd Cymreig yr Oesoedd Canol ar Gymdeithas: 'Drych yr Oes Haearn'* (Machynlleth, 1992), sy'n dadlau bod rhai o'r disgrifiadau a'r syniadau a fynegir yng ngwaith Beirdd y Tywysogion hwythau, megis torchau aur, yn tarddu yn y pen draw o'r Oes Haearn. Mae J.T. Koch wedi dadlau bod traddodiadau Oes Haearn yn goroesi hefyd yn y Pedair Cainc, gw. 'A Welsh Window on the Iron Age: Manawydan, Mandubracios', *CMCS* 14 (1987), 17-52, a 'Bran, Brennos: An Instance of Early Gallo-Brittonic History and Mythology', *CMCS* 20 (1990), 1-20. Gw. ymhellach adran 1.6 isod, sy'n trafod rhai astudiaethau eraill sy'n cyfuno llenyddiaeth, hanes ac archeoleg.

<sup>120</sup> Adolygiad o GodA, *Llên Cymru*, 22 (1999), 138-60 (147 a 149). Am y syniad nad un gerdd yw'r 'Gododdin', gw. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1986), t. 8: 'Ai hynny yw'r *Gododdin*, sef cyfresi o benillion marwnad a gyfansoddwyd mewn gwahanol gyfnodau gan ddisgyblion yn dysgu mesurau ac arddull a ddyfeisiesid gyntaf gan bencerdd enwog yn y chweched neu'r seithfed ganrif?', ac adolygiad Proinsias Mac Cana o GOSP, t. 317: 'the *Gododdin* is not a true epic . . . but is rather a series of separate poems, each of them an elegy upon an individual hero or upon the whole troop of heroes . . .'



o'r 'Gododdin', gan ddadlau bod y ddwy gerdd yn disgrifio'r un frwydr o safbwynt dwy ochr wahanol, ond dadleuodd Graham Isaac fod 'Gweith Gwen Ystrat' yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1050 a 1150.<sup>121</sup> Awgrymodd Isaac hefyd fod 'Trawsganu Kynan Garwyn' yn gerdd wleidyddol o'r ddegfed ganrif a all (fel 'Armes Prydein') adlewyrchu amgylchiadau teyrnasiad y Brenin Æthelstan (924-939).<sup>122</sup>

Mae 'Marwnad Cunedda' yn gerdd ddadleuol arall, ac Ifor Williams wedi ei galw'n waith 'masquerader', na allai fod yn gynharach na'r nawfed neu'r ddegfed ganrif.<sup>123</sup> Yn ddiweddar, mae John Koch wedi dadlau bod lle i'w hystyried fel cerdd hynafol ddilys sy'n adlewyrchu digwyddiadau'r bumed ganrif, neu ddiwedd y bedwaredd ganrif o bosibl.<sup>124</sup> Ond dadleuodd Marged Haycock y gallai'r gerdd hon fod wedi ei chyfansoddi mewn nifer o wahanol gyfnodau ar ôl y bumed ganrif, ac efallai mor ddiweddar â'r ddeuddegfed ganrif neu'r drydedd ganrif ar ddeg hyd yn oed.<sup>125</sup>

Dyddiodd Jenny Rowland yr englynion 'saga' a gysylltir â'r ffigurau Urien, Llywarch Hen a Heledd i'r cyfnod rhwng diwedd yr wythfed ganrif a'r ddegfed ganrif, gan awgrymu bod cerddi 'Pen Urien' yn debyg o fod yn gynharach na'r cerddi sy'n ymwneud â Llywarch, a bod y ddwy gerdd i Wên, mab Llywarch, yn llawer cynharach na rhai cerddi i'w feibion eraill.<sup>126</sup> Mae'n debyg fod 'Llym Awel' a 'Geraint Fab Erbin' hefyd yn gerddi saga, er bod 'Llym Awel' yn cynnwys elfennau o ganu gwirebol yn ogystal.<sup>127</sup> Credir bod 'Llym Awel' yn dyddio o'r ddegfed ganrif neu o ddechrau'r ganrif ddilynol, ond mae'r rhan fwyaf o'r cerddi gwirebol a olygwyd yn llyfr Kenneth Jackson, *Early Welsh Gnostic Poetry*, wedi eu dyddio i tua dechrau'r ddeuddegfed ganrif (neu tua diwedd y ganrif honno yn achos EWGP VIII 'Bidiau II'), ac mae 'Englynion y Misoedd' (EWGP cerdd IX) mor ddiweddar – tua

---

<sup>121</sup> J.T. Koch, GodA tt. xxvi-xxx, a G.R. Isaac, 'Gweith Gwen Ystrat and the Northern Heroic Age of the Sixth Century', *CMCS* 36 (1998), 61-70 (68).

<sup>122</sup> 'Trawsganu Kynan Garwyn mab Brochuael: a Tenth-Century Political Poem', *ZCP* 51 (1999), 173-85 (178).

<sup>123</sup> PT t. lxxv.

<sup>124</sup> "'Marwnad Cunedda' a Diwedd y Brydain Rufeinig', yn Paul Russell (ed.), *Yr Hen Iaith: Studies in Early Welsh* (Aberystwyth, 2003), tt. 171-97.

<sup>125</sup> LPBT tt. 488-90.

<sup>126</sup> EWSP tt. 388-9. Awgrymodd Ifor Williams, BWP t. 126, fod y cerddi hyn wedi perthyn unwaith i gylch o storïau neu sagâu rhyddiaith a adroddid yng ngogledd-orllewin Cymru yn y cyfnod cyn-Normanaid. Defnyddir y term 'Canu Llywarch Hen' yn aml i gwmpasu'r holl gerddi sy'n ymwneud â Llywarch, Heledd ac Urien.

<sup>127</sup> Rowland, EWSP t. 243.

diwedd y bymthegfed ganrif – fel nad yw'n cael ei chynnwys fel Hengerdd yn y traethawd hwn.<sup>128</sup>

Un dylanwad posibl ar Ganu Heledd yw'r gerdd 'Marwnad Cynddylan', a honno'n ymddangos fel marwnad ddilys i Gynddylan ap Cyndrwyn[yn], brenin neu is-frenin ar Bowys yn y seithfed ganrif.<sup>129</sup> Gallai 'Moliant Cadwallon' berthyn i'r un ganrif, er bod y gerdd (neu'r darnau o gerdd) hon yn goroesi mewn llawysgrifau llwgr a chymharol diweddar, yn unig.<sup>130</sup> Cafodd 'Edmyg Dinbych' – cerdd o fawl i gaer yn Ninbych-y-Pysgod, mae'n debyg – ei dyddio i chwarter olaf y nawfed ganrif, neu i ddegawd olaf y ganrif honno,<sup>131</sup> ac mae 'Echrys Ynys' wedi ei dyddio naill ai i'r nawfed neu'r ddegfed ganrif, neu i'r unfed ganrif ar ddeg.<sup>132</sup>

Y farddoniaeth gynharaf y gellir bod yn bur sicr am ei dyddiad yw'r Tri a'r Naw englyn – y Tri yn seciwlar, a'r Naw yn ddefosiynol – a ychwanegwyd at lawysgrif Juvencus Caergrawnt mewn llaw a ddyddiwyd i ddiwedd y nawfed ganrif neu ddechrau'r ddegfed ganrif.<sup>133</sup> Yr unig enghraifft arall sydd gennym o farddoniaeth Gymraeg a roddwyd ar glawr cyn y ddeuddegfed ganrif yw'r gerdd fer (neu'r darn o gerdd) 'Ffon Fagl Sant Padarn', y credir iddi gael ei hysgrifennu rhwng 1085 a 1091.<sup>134</sup> Ymddengys fod cerddi crefyddol eraill o blith yr Hengerdd yn llawer diweddarach, fodd bynnag, a bod rhai yn gyfoes â cherddi Beirdd y Tywysogion hyd yn oed. Nododd Marged Haycock fod y cerddi crefyddol hyn 'yn symlach o ran mesur ac arddull na cherddi crefyddol y Gogynfeirdd', ac y gallent

---

<sup>128</sup> Gw. Jackson, EWGP tt. 7-14; N. Jacobs, "'Englynion" y Misoedd: Testun B' a N. Jacobs, "'Englynion" y Misoedd: Testun C'.

<sup>129</sup> R. Geraint Gruffydd, "'Marwnad Cynddylan"', yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *'Bardos': Penodau ar y Traddodiad Barddol Cymreig a Cheltaidd* (Caerdydd, 1982), tt. 10-28.

<sup>130</sup> R. Geraint Gruffydd, 'Canu Cadwallon ap Cadfan', yn AH tt. 25-43 (tt. 27-34).

<sup>131</sup> I. Williams, BWP tt. 158-61, a gw. hefyd R. Geraint Gruffydd, "'The Praise of Tenby": A Late-Ninth-Century Welsh Court Poem', yn Joseph Falaky Nagy and Leslie Ellen Jones (eds.), *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition: A Festschrift for Patrick K. Ford*, CSANA Yearbook 3-4 (Dublin, 2005), tt. 91-102, sy'n awgrymu'r cyfnod rhwng 893 ac 895.

<sup>132</sup> R. Geraint Gruffydd, 'A Welsh "Dark Age" Court Poem', yn John Carey, John T. Koch and Pierre-Yves Lambert (eds.), *Ildánach, Ildírech: A Festschrift for Proinsias Mac Cana* (Andover & Aberystwyth, 1999), tt. 39-48, ac I. Williams, BWP t. 177.

<sup>133</sup> Helen McKee (ed.), *The Cambridge Juvencus Manuscript Glossed in Latin, Old Welsh and Old Irish* (Aberystwyth, 2000), tt. 15-18, a gw. hefyd CC cerdd 1, BWP tt. 89-121 ac EWSP tt. 466-7.

<sup>134</sup> Gw. BWP t. 181 a rhagymadrodd Marged Haycock ar gyfer CC cerdd 23, yn cyfeirio at W.M. Lindsay, *Early Welsh Script* (Oxford, 1912), tt. 32-3, a Montague Rhodes James, *A Descriptive Catalogue of the Manuscripts in the Library of Corpus Christi College Cambridge, part III* (Cambridge 1910), tt. 481-3.

fod wedi eu cyfansoddi – megis y cerddi darogan – gan feirdd o wahanol ddsbarthiadau, yn hytrach na chan rai o gyfnod cynharach.<sup>135</sup>

Nid yw darogan yn *genre* y byddai Beirdd y Tywysogion hwythau yn ymgymryd ag ef fel arfer, hyd y gwyddom,<sup>136</sup> ond mae cyfeiriadau at ffigurau a digwyddiadau hanesyddol yn caniatáu dyddio llawer o gerddi darogan y ‘Cynfeirdd’, yn eu ffurf bresennol, i’r ddeuddegfed ganrif neu i’r drydedd ganrif ar ddeg.<sup>137</sup> Hyd yn oed yn achos ‘Armes Prydein’, cerdd ddarogan o Lyfr Taliesin a ddyddir yn hyderus fel arfer i tua 930 ar seiliau hanesyddol a gwleidyddol,<sup>138</sup> awgrymwyd yn ddiweddar y gallai ddyddio o’r unfed ganrif ar ddeg, o bosibl.<sup>139</sup> At hynny, mae Marged Haycock wedi tynnu sylw at y cyffelybiaethau rhwng iaith a ieithwedd rhai o gerddi chwedlonol Llyfr Taliesin a gwaith Beirdd y Tywysogion, yn enwedig Prydydd y Moch (*fl.* c. 1174/5 - c. 1220), er na wrthododd y posibilrwydd y gallai peth o’r deunydd fod wedi tarddu o’r cyfnod cyn y ddeuddegfed ganrif.<sup>140</sup>

Artiffisial, felly, yw’r rhaniad rhwng ‘cerddi Beirdd y Tywysogion’ ac ‘yr Hengerdd’, ond mae’r termau hyn yn dal i fod o ddefnydd ar gyfer gwahaniaethu rhwng cerddi o gyfnod y tywysogion ac iddynt gyd-destun hanesyddol a swyddogaeth wleidyddol/gymdeithasol bendant, a cherddi eraill – rhai ohonynt o gyfnod cynharach na 1100 – ac iddynt *genres* mwy amrywiol a chyd-destunau a swyddogaethau gwahanol neu ansicr.

---

<sup>135</sup> CC tt. xix, a gw. rhagymadroddion Haycock i’r cerddi unigol, sy’n awgrymu’r ddeuddegfed ganrif neu ddechrau’r drydedd ganrif ar ddeg fel dyddiad ar gyfer ‘Dadl y Corff a’r Enaid’ (CC cerdd 21), er enghraifft, a’r unfed ganrif ar ddeg neu’r ddeuddegfed ganrif ar gyfer ‘Proffwydoliaeth ynghylch Dydd y Farn’ (CC cerdd 20), ac yn cyfeirio at Ifor Williams, *B* 2 (1923), 269-86 (278-9), a ddyddiodd ‘Ymddiddan Arthur a’r Eryr’ (CC cerdd 30) i’r cyfnod cyn tua 1150.

<sup>136</sup> Am ‘Cerdd Ddarogan Meilyr’ gw. uchod n. 88.

<sup>137</sup> Gallai rhai o’r cerddi hyn gynnwys elfennau hŷn, megis y darnau chwedlonol yn ‘Afallennau Myrddin’ a’r ‘Oianau’ (gw. Jarman, LIDC tt. xxix-xxxiii a xxxvii). Nododd Manon B. Jenkins, AWPVTMA t. 3 a passim, fod cerddi darogan o Lyfr Coch Hergest hefyd yn ymddangos fel pe bai hen ddeunydd wedi ei ail-lunio i roi awdurdod i ‘broffwydoliaethau’ (neu ddyheadau) newydd, er dyddio’r rhan fwyaf o’r cerddi, yn y ffurf sydd wedi goroesi, i’r ddeuddegfed ganrif neu’r drydedd ganrif ar ddeg.

<sup>138</sup> AP t. xxiv-xxvi.

<sup>139</sup> Mae Colmán Etchingham wedi dadlau y gallai’r llinell *Gwydyl Iwerddon Mon a Phrydyn* – os yw’r gair *Gwydyl* yn rheoli *Mon a Phrydyn* yn ogystal ag *Iwerddon* – awgrymu bod ‘Armes Prydein’ wedi ei chanu o bosibl yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg, pan oedd cysylltiadau â theyrnlin Gwyddyld Dulyn ar eu cryfaf (‘Viking-age Gwynedd and Ireland: Political Relations’, yn Karen Jankulak and Jonathan M. Wooding (eds.), *Ireland and Wales in the Middle Ages* (Dublin, 2007), tt. 149-67 (tt. 164-6)). Nododd hefyd fod David Dumville wedi dweud y gallai’r gerdd ddyddio o rhwng a 935 a 950, ac na fyddai c. 960 neu c. 980, hyd yn oed, yn amhosibl. Gw. hefyd Haycock, LPBT t. 26, sy’n nodi bod statws ‘Armes Prydein’ mewn perthynas â cherddi darogan eraill, ynghyd â’i chyd-destun hanesyddol, yn bynciau sy’n haeddu sylw, ac yn cyfeirio at ymdriniaeth Haycock, PBT.

<sup>140</sup> LPBT, tt. 27-36.

### 1.4.3 Geirfa'r beirdd a'u dulliau o ganu

Serch dyddiad diweddar peth o'r 'Hengerdd', gallai rhai o'r cerddi hyn fod wedi cynnig patrymau i Feirdd y Tywysogion ynghylch sut i ddefnyddio arfau yn eu cerddi, a hynny o ran mydr ac addurniadau mydryddol (a ddatblygai wedyn yn gynghanedd) yn ogystal â dulliau o foli.<sup>141</sup> Yn wir, cyfeiriodd Phylip Brydydd a Phrydydd y Moch yn benodol at ganu yn null Taliesin, ac fe ddymunai Dafydd Benfras yntau fod *Cyflawn o awen awydd Fyrddin / I ganu moliant mal Aneirin—gynt / Dydd y cant 'Ododin'* (CBT VI 25.4-6).<sup>142</sup> Aeth T.J. Morgan mor bell â dweud bod y Gogynfeirdd yn 'ailgyfansoddi' gwaith y Cynfeirdd, a hynny'n arwain at fwy o gymhlethdod ac addurn wrth iddynt greu 'plethwaith addurnol o amrywebau' ar yr un patrymau cysefin,<sup>143</sup> ac mae nifer o ysgolheigion wedi tynnu sylw at 'adleisiau' yn eu gwaith o gerddi megis 'Y Gododdin', cerddi 'dilys' Taliesin a'r englynion saga.<sup>144</sup> Yn wir, gallai adeiladwaith 'Y Gododdin', a'i gwahanol awdlau'n canmol gwahanol arwyr, fod wedi ysbrydoli dwy gerdd gyfan i osgorddion, sef marwnad Cynddelw i osgordd Owain Gwynedd a 'Hirlas Owain'.<sup>145</sup> At hynny, awgrymwyd y gallai'r englynion saga fod wedi ysbrydoli tair o gerddi Cynddelw, sef 'Marwnad Madog, Llywelyn a Theulu Powys' (CBT III cerdd 8), 'I osgordd Madog ap Maredudd pan fu farw' (CBT III cerdd 9), a 'Marwnad Gosgordd Owain Gwynedd' (CBT IV cerdd 5), yn ogystal â fframwaith dramatig 'Rhieingerdd Efa' Cynddelw, a'r cerddi 'Hirlas Owain' ac 'Englynion Cylchu

<sup>141</sup> Gw. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 171; J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, t. 65, a hefyd Isaac, Adolygiad o GodA, 151: 'trwy ddysgu cerddi, ac nid rheolau mydryddol, y byddai'r beirdd yn dysgu'r ffurfiau y'i hystyrid yn briodol canu arnynt'. Gellir defnyddio'r term 'cynghanedd rydd' ar gyfer patrymau odl a chyseinedd yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion, er mwyn eu gwahaniaethu oddi wrth y gynghanedd gaeth a arferid yn ddiweddarach (Morris-Jones, *Cerdd Dafod*, tt. 136-7; J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, t. 65, a G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 131, a chymh. y term 'gogynghanedd' a ddefnyddiodd R.M. Jones, 'Gogynghanedd y Gogynfeirdd', *YB* 22 (1997), 41-79).

<sup>142</sup> Gw. J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 53, ac I. Williams, CA t. lxxxvi. Yn ogystal ag Aneirin, Myrddin a Thaliesin, 'Cynfeirdd' eraill a grybwyllir yng ngherddi Beirdd y Tywysogion yw Afan Ferddig, Arofan, Cywryd, Golydan, Morfran ac efallai Tristfardd (Morfydd E. Owen, 'Chwedl a Hanes: y Cynfeirdd yng Ngwaith y Gogynfeirdd', *YB* 19 (1993), 13-28, a Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 171). Mae'n bosibl hefyd fod Cynddelw wedi enwi ei fab Dygynnelw ar ôl bardd a gysylltir ag Owain ab Urien (TYP t. 336).

<sup>143</sup> T.J. Morgan, 'Arddull yr Awdl a'r Cywydd', *THSC* (1946-7), 276-313 (278), a T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (I)', *B* 13 (1948-50), 169-74 (169).

<sup>144</sup> D.M. Lloyd, 'Barddoniaeth Cynddelw Brydydd Mawr'; T.J. Morgan, 'Arddull yr Awdl a'r Cywydd', 278-84; Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 180-1; T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (I)'; T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (II)', *B* 14 (1950-2), 1-8; J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 22-4; G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, tt. 118-23; Rowland, EWSP tt. 362-3, a Bromwich, TYP tt. lxi-xlii.

<sup>145</sup> Disgrifiwyd 'Hirlas Owain' gan I. Williams, BWP t. 68, fel 'the best commentary on the Gododdin'. Gw. hefyd CA tt. xxiii-xxiv a lxxxvi, y rhagymadroddion i CBT IV cerdd 5 a CBT II cerdd 14, a'r cyfeiriadau a nodir yno.

Cymru' a ganwyd gan Owain Cyfeiliog (neu gan Gynddelw, yn ôl awgrym Gruffydd Aled Williams).<sup>146</sup>

Yn ogystal â chyfeiriadau penodol at yr Hengerdd, a'r 'adleisiau' niferus o ymadroddion penodol neu ddulliau o ganu, byddai Beirdd y Tywysogion hefyd wedi etifeddu cysyniadau a *topoi* megis y ddelwedd o ryfelwr yn darparu porthiant i greaduriaid ysglyfaethus, neu o lanc ifanc ac iddo rinweddau gŵr.<sup>147</sup> Roedd sylwedd eu canu hefyd yn gyffelyb, yn aml, a hwythau'n hoff o'r un categorïau o foliant, neu'r un 'gweddau ar y delfryd arwrol', fel y dywedodd A.O.H. Jarman mewn perthynas â'r 'Gododdin'.<sup>148</sup> Eto i gyd, nid oedd rhai 'gwerthoedd arwrol' megis dewrder, ysfa am glod a theyrngrarwch i unigolyn (yn hytrach nag i genedl) yn gyfyngedig i ryw 'oes arwrol' bell – roedd y pethau hyn yn cael eu gwerthfawrogi drwy'r Oesoedd Canol, ac yn rhan o werthoedd 'sifalrig' cymdeithasau ffiwdal.<sup>149</sup> At hynny, nododd D. Myrddin Lloyd nad oedd amgylchiadau'r ddeuddegfed ganrif yn wahanol iawn i rai'r chweched neu'r seithfed ganrif, o ran yr angen i amddiffyn tiriogaeth rhag bygythiadau allanol ac i sicrhau parhad y 'llwyth' neu'r genedl.<sup>150</sup> (Erys y pwynt hwn yn ddilys hyd yn oed os na dderbynnir bod 'Y Gododdin' mor hen â'r chweched neu'r seithfed ganrif).

---

<sup>146</sup> D.M. Lloyd, 'Barddoniaeth Cynddelw Brydydd Mawr', 173-5; T.J. Morgan, 'Arddull yr Awdl a'r Cywydd', 283, a G.A. Williams, 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?', tt. 196-7 a passim.

<sup>147</sup> Gw. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 180-1, a T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (I)' a 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (II)'. Fel y nodwyd yn barod, er hynny (gw. ar ddechrau adran 1.2), gallai rhai pethau ystrydebol fod yn bethau real hefyd – gw., e.e., y rhagymadrodd i CBT V cerdd 17, sy'n nodi bod Prydydd y Moch yn gwneud 'defnydd mynych o'r topos *gredyff gwr oed gwas*' wrth ganmol Llywelyn ab Iorwerth, ac yntau wedi 'hawlio brenhiniaeth Gwynedd yn gynnar – efallai cyn iddo ddod i'w oed, hyd yn oed'.

<sup>148</sup> Gellid crynhoi chwe chategori Jarman, 'Y Delfryd Arwrol yn yr Hen Ganu', *Llên Cymru*, 8 (1965), 125-49, fel a ganlyn: (1) moli haelioni a dewrder, (2) disgrifio'r wledd, (3) ymhyfrydu mewn golygfa ysblennydd gwŷr yn cychwyn allan i'r frwydr, (4) disgrifio 'eu dewrder a'u creulonder, eu balchder a'u hystyfnigrwydd di-ildio ar faes y gad', (5) galaru dros y rhai a fu farw, a (6) disgrifio'r clod a enillwyd.

<sup>149</sup> J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, tt. 22-3, ac am y cysyniad o 'Oes Arwrol' a 'Delfryd Arwrol' gw. Chadwick and Chadwick, *The Growth of Literature*, vol. I; Jarman, 'Y Delfryd Arwrol yn yr Hen Ganu'; Jackson, GOSP §12 'The Northern Heroic Age', a Leslie Alcock, *Economy, Society and Warfare among the Britons and Saxons* (Cardiff, 1987), tt. 289-95. Trafodwyd agweddau'r beirdd diweddarach gan Barry J. Lewis, 'Opening up the Archives of Welsh Poetry: Welshness and Englishness during the Hundred Years' War', darlith a draddodwyd yn 'Golwg ar yr Oesoedd Canol: Cymru a Llydaw', Fforwm Undydd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 24 Ionawr 2009. Nododd Chadwick and Chadwick, *The Growth of Literature*, vol. I, t. 87, fod enghreifftiau o ymddygiad 'sifalrig' mewn hen lenyddiaethau arwrol, ac fe dynnodd Kenneth Hurlstone Jackson, *The Oldest Irish Tradition: A Window on the Iron Age* (Cambridge, 1964), tt 13-15, sylw at yr ymwybyddiaeth o werthoedd 'chwarae teg' yn chwedlau Cylch Wlster, yn enwedig yn achos Cú Chulainn. Mae defnydd y term 'Oes Arwrol' ar gyfer y chweched neu'r seithfed ganrif ym Mhrydain yn ddadleuol, erbyn hyn (gw. K.R. Dark, *Civitas to Kingdom: British Political Continuity 300-800* (London, 1994), t. 198). Defnyddir y gair 'arwrol' yn y traethawd hwn gyda'r ystyr ehangaf, o hyn ymlaen, i ddisgrifio cysyniadau a delweddau cyffredinol, ac nid mewn ymdrech i gysylltu cyfeiriadau'r beirdd ag unrhyw gyfnod penodol.

<sup>150</sup> T.J. Morgan, 'Arddull yr Awdl a'r Cywydd', 278.

O ran geirfa Beirdd y Tywysogion, mae'n bosibl iddynt gadw'n fyw rai geiriau o'r Hengerdd a fyddai wedi swnio'n hen-ffasiwn hyd yn oed i'r cynulleidfaoedd cyfoes, fel y dywedodd J. Lloyd-Jones:

From their predecessors they derived their archaic vocabulary, and no poets in any land have surpassed the Gogynfeirdd in their predilection for ancient forms and their ingrained prejudice against neologisms.<sup>151</sup>

Dadluedd Saunders Lewis y byddai geiriau anghyfarwydd, a oedd wedi diflannu o'r iaith lafar, wedi dwyn arwyddocâd a swyn arbennig am nad oeddynt yn cael eu defnyddio bellach 'fel arian bath i gyfnewid syniadau angenrheidiol',<sup>152</sup> gan awgrymu ymhellach:

Os oedd yn hoff gan y Gogynfeirdd hen eiriau meirwon, hoffusach oedd ganddynt eiriau a warantesid ac a ardderchogwyd drwy eu defnyddio yn "hengerdd yr hen brydyddion" . . .<sup>153</sup>

Ni fyddai'r beirdd yn gwrthod pob gair newydd, er hynny. Dangosodd Marie Surridge nad oedd barddoniaeth Beirdd y Tywysogion yn sylweddol fwy ceidwadol na gweithiau rhyddiaith, mewn perthynas â geiriau benthyg o Ffrangeg, gan ddod i'r casgliad:

. . . that the vocabulary of the Gogynfeirdd reflects not only archaism pure and simple, but also a selectivity which may have been dictated as much by social as by linguistic or literary considerations. Like other court poets of all times, the Gogynfeirdd were doubtless not above concessions to their patrons. The neologisms of the aristocracy, as long as they remained the property of the élite, remote from the normal social registers of speech, and untainted by association with English, were evidently esoteric enough to be considered worthy of the poet's art.<sup>154</sup>

Weithiau, felly, byddai atyniad ffasiynau newydd, a'r angen i greu darlun teilwng o gyfoeth, chwaeth a chysylltiadau gwrthrychau cerddi mawl, yn drech na cheidwadaeth. Awgrymodd Surridge y gallai rhai geiriau am bethau materol, megis termau am ddillad neu ddefnyddiau ceinion, neu'r gair *glaiif* 'gwaywffon', fod wedi eu cyflwyno fel ymateb i ddatblygiadau materol, ond y gallai paroddrwydd y beirdd i ddefnyddio geiriau benthyg fod wedi amrywio mewn gwahanol gyfnodau, gan adlewyrchu cynhesrwydd (neu oerni) y berthynas gyffredinol rhwng y Cymry a'r Normaniaid.<sup>155</sup> Nododd Surridge hefyd y posibilrwydd fod rhai geiriau'n colli eu hapêl ymhlith y beirdd ar ôl iddynt ddod yn gyffredin yn y Gymraeg,

<sup>151</sup> 'The Court Poets of the Welsh Princes', 171.

<sup>152</sup> *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, t. 20.

<sup>153</sup> *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, t. 22.

<sup>154</sup> 'Words of Romance Origin in the Works of the Gogynfeirdd', *B* 29 (1980-2), 528-30.

<sup>155</sup> Surridge, 'Words of Romance Origin in the Works of the Gogynfeirdd', 529. Awgrymodd Surridge y gallai'r ffaith fod cynifer o eiriau newydd wedi'u defnyddio gan Fleddyn Ddu, Gwynfardd Brycheiniog, Cynddelw ac yn enwedig Prydydd y Moch adlewyrchu cysylltiadau cymharol gyfeillgar rhwng y Cymry a'r Normaniaid yn eu cyfnod hwy, ond y gallai gwrthwynebiad o du'r beirdd i'r cyfryw eiriau fod wedi cynyddu wrth i'r cysylltiadau hyn ddirywio. Am y geiriau a ddefnyddid am ddillad gw. Alaw Mai Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol c. 700 - c. 1600' (Traethawd PhD, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2007), t. 34, ac am y gair *glaiif* gw. isod, adran 3.2.4.3.

a'i bod yn ymddangos fod gwahanol feirdd wedi amrywio o ran eu hagwedd tuag at eiriau benthg.<sup>156</sup>

Dull arall o gyflwyno geiriau anghyffredin i gerddi oedd creu geiriau cyfansawdd newydd. Er bod cyfansoddeiriau i'w gweld yn yr Hengerdd hefyd, teg yw dweud mai Beirdd y Tywysogion a'u datblygodd fwyaf, ac yn wir tynnodd Saunders Lewis sylw at y ffaith fod eu harfer o 'glymu enwau ynghyd mewn un bar o linell a than un brifacen' yn creu cyfuniadau geiriol sy'n gyfwerth â chyfansoddair wrth i'r llinell gael ei chanu.<sup>157</sup> Mae defnydd helaeth Beirdd y Tywysogion o'r cyfryw gyfuniadau a chyfansoddeiriau yn golygu bod llawer o'u cyfeiriadau at arfau heb fod yn llawer mwy nag 'epithetical devices', yng ngeiriau J. Lloyd-Jones.<sup>158</sup>

Byddai geirfa'r beirdd ar gyfer arfau yn cael ei chyfoethogi ymhellach fyth gan eiriau a ddefnyddid yn drosiadol. Gellid defnyddio enw defnydd crai megis pren neu fetel i gyfeirio at arf a wnaethpwyd ohono, neu estyn gair am ran o arf, megis llafn cleddyf neu flaen tarian, i gyfeirio at y peth cyfan (a hwn yn fath o droad a elwir yn gydgymeriad, *pars pro toto* neu 'y rhan am y cwbl').<sup>159</sup> Gwneid yr un peth gydag addurn, a'r geiriau *calch*, *llasar* ac *eurgrwydr* yn medru dynodi naill ai mathau o addurn, neu offer – yn enwedig tarianau – a addurnid felly.<sup>160</sup>

Cyfosodwyd *eurgrwydr* â *brwydr* yn aml, ac mae nifer y cyfuniadau cyffredin eraill rhwng enwau arfau a geiriau sy'n ymwneud â brwydro, megis *ongyr* / *angerdd*, *hëyrn* / *tëyrn* ac *ysgwyd* / *ysgwydd* yn dangos pa mor bwysig oedd cynghanedd wrth benderfynu pa eiriau a

---

<sup>156</sup> Surridge, 'Words of Romance Origin in the Works of the Gogynfeirdd', 529-30, a gw. hefyd Elisa Moras, 'Tystiolaeth Barddoniaeth Gymraeg ynghylch Lle'r Ferch yn ei Chymdeithas yn yr Oesoedd Canol Cynnar' (Traethawd PhD, Prifysgol Cymru Bangor, 2001), t. 141, sy'n nodi, wrth drafod dillad, mai Hywel ab Owain Gwynedd oedd y bardd cyntaf i ddefnyddio'r gair benthg *pali*, gan awgrymu y gallai hyn adlewyrchu 'agwedd bersonol y bardd-dywysog hwn neu ei lwyddiant i sicrhau'r fath geinderau i'w lys ef ei hun'. Nid oedd geiriau benthg o Ffrangeg fel y cyfryw yn niferus iawn, serch hynny, naill ai yng ngwaith Hywel ab Owain Gwynedd neu yng ngwaith y bardd-dywysog arall, Owain Cyfeiliog. Nododd Surridge, 'Words of Romance Origin in the Works of the Gogynfeirdd', 530, mai un enghraifft yr un sydd yn eu cerddi hwythau (er bod rhaid nodi nad yw llawer o'u cerddi wedi goroesi, o'u cymharu â beirdd megis Cynddelw neu Brydydd y Moch (gw. y n. blaenorol)).

<sup>157</sup> *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, tt. 20-1. Gw. hefyd J.E.C. Williams, *The Poets of the Welsh Princes*, t. 69, sy'n trafod gwahanol ddsobarthiadau o gyfansoddeiriau, sef (1) enw + ansoddair, (2) ansoddair + enw, (3) ansoddair + ansoddair, a (4) enw + enw.

<sup>158</sup> 'The Court Poets of the Welsh Princes', 171. Roedd beirdd Eingl-Sacsonaidd hwythau'n hoff iawn o gyfansoddeiriau (Ritchie, *Beowulf and the Seventh Century*, t. 4).

<sup>159</sup> Morris-Jones, *Cerdd Dafod*, tt. 50-1, a gw. isod, Pennod 3 ac Atodiadau Ia a Ib, am enghreifftiau.

<sup>160</sup> Gw. isod, adran 3.13.1.

ddewisid gan y beirdd (a chan Feirdd y Tywysogion, yn enwedig).<sup>161</sup> Nid ceidwadaeth yn unig, ond hefyd defnyddioldeb, a fyddai'n sicrhau goroesiad rhai enwau yng ngeirfa'r beirdd ar ôl iddynt beidio â bod yn rhan o iaith arferol y gymdeithas ehangach. Oherwydd hynny, mae'r posibilrwydd fod llawer o gyfeiriadau'r beirdd at arfau yn anacronistig – hynny yw, yn disgrifio arfau neu ddulliau brwydro o gyfnod arall – yn uchel iawn. Rhaid cofio hefyd y gallai elfennau anacronistig fod wedi cyrraedd cerddi Beirdd y Tywysogion o ffynonellau eraill heblaw'r Hengerdd. Byddai'r beirdd hefyd yn 'adleisio' eu cydoeswyr, a'u rhagflaenwyr o fewn cyfnod y tywysogion,<sup>162</sup> ac mae'n berthnasol nodi yn y cyd-destun hwn fod newidiadau mawr mewn offer a dulliau brwydro ar droed yn y ddwy ganrif rhwng dechrau'r ddeuddegfed ganrif a diwedd y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>163</sup>

Yn ogystal â chyfeirio'n ôl at offer y gorffennol, gallai rhai beirdd fod wedi cyfeirio 'ymlaen' neu 'ar letraws', fel petai, at bethau yr oeddynt yn tybied y 'dylai' eu noddwyr fod yn berchen arnynt, naill ai oherwydd eu heffeithioldeb mewn rhyfel neu er mwyn adlewyrchu statws pennaeth cyfoethog a soffistigedig. Gallai'r beirdd fod wedi gweld rhai o'r pethau hyn drostynt hwy eu hunain fel eiddo penaethiaid eraill, neu mewn darluniau, neu fe allent fod wedi 'mewnforio' gwrthrychau a delweddau o lenyddiaethau eraill, fel yr awgrymodd Ann Parry Owen wrth drafod y darlun o'r merched yn gwyllo Cynddelw drwy *fffenestri gwydr* yn 'Rhieingerdd Efa' (CBT III 5.14).<sup>164</sup> Trafodir yn yr adran nesaf rai o'r dylanwadau estron eraill ar ganu'r beirdd, ac ar eu noddwyr hwythau.

## 1.5 Cysylltiadau a dylanwadau eraill

Nid yr Hengerdd oedd yr unig ddylanwad ar Feirdd y Tywysogion. Dangosodd Rachel Bromwich fod Cynddelw a beirdd eraill o'i gyfnod yn gyfarwydd nid yn unig â fersiwn cynnar o 'Trioedd Ynys Prydain' ond hefyd ag amrediad eang o gymeriadau a storïau megis gwreiddiau'r Brythoniaid yng Nghaerdroea (traddodiad a geir hefyd yn yr *Historia Brittonum*), storïau Caswallawn a Maccsen Wledig, deunydd Arthuriaidd, a thraddodiadau o

---

<sup>161</sup> Gw. isod, adrannau 3.2.1.3, 3.13.3 a 3.13.4, am y cyfuniadau geiriol hyn, ac am ddatblygiad y gynghanedd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion o'u cymharu â cherddi'r Hengerdd gw. Tom Parry, 'Twf y Gynghanedd', *THSC* (1936), 143-60, a R.M. Jones, 'Gogynghanedd y Gogynfeirdd'.

<sup>162</sup> Gw. G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 125, a G.A. Williams, 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?'.

<sup>163</sup> E.e. newidiadau yn ffurf tarianau ac, o bosibl, yn nulliau brwydro marchogion â gwaywffyn (gw. isod, adrannau 2.2.3.3 a 2.13.3).

<sup>164</sup> 'Rhieingerdd Efa', 72-3.



Ogledd Prydain.<sup>165</sup> Roeddynt yn gyfarwydd hefyd â chymeriadau'r Pedair Cainc ac â rhai elfennau o stori 'Culhwch ac Olwen', er na cheir cyfeiriadau gan y beirdd at y 'Tair Rhamant' nac at waith Sieffre o Fynwy tan tua dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg.<sup>166</sup>

Fel aelodau o lysoedd y tywysogion – neu fel gwesteion breintiedig yn y llysoedd hynny – byddai'r beirdd wedi dod ar draws gwŷr dysgedig eraill megis clerigwyr, mynaich, cyflafareddwyr ac ynadon, ac yn wir fe wyddom fod beirdd, neu aelodau o deuluoedd barddol, wedi cyflawni rhai o'r swyddogaethau hyn eu hunain.<sup>167</sup> Credir mai clerigwr – un o'r Brodyr Llwydion, o bosibl – oedd Madog ap Gwallter,<sup>168</sup> ac mae Catherine McKenna wedi dadlau bod datblygiadau eglwysig pwysig y drydedd ganrif ar ddeg wedi eu hadlewyrchu nid yn unig ym marddoniaeth Madog, ond hefyd mewn cerddi 'myfyriol' o waith Elidir Sais a Gruffudd ab yr Ynad Coch.<sup>169</sup> Yn fwy cyffredinol, mae cerddi Beirdd y Tywysogion yn dangos ymwybyddiaeth o ddysg Ladinaidd glasurol ac eglwysig drwy eu cyfeiriadau at gymeriadau clasurol megis Iason, Eneas, Echdor a Chesar, ynghyd â rhai o'r Beibl megis Dafydd a Selyf, ac fe fyddai'r beirdd weithiau'n defnyddio geiriau neu ymadroddion Lladin yn eu cerddi.<sup>170</sup> Nid yw'r darnau bach hyn yn profi bod y beirdd yn

---

<sup>165</sup> TYP tt. lxi-lxii.

<sup>166</sup> TYP tt. lxi-lxii, a Rachel Bromwich, 'Cyfeiriadau Traddodiadol a Chwedlonol y Gogynfeirdd', yn M.E. Owen a B.F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion*, tt. 202-18.

<sup>167</sup> Gw. Dafydd Jenkins, 'Iorwerth ap Madog: Gŵr Cyfraith o'r Drydedd Ganrif ar Ddeg', *CLIGC* 8 (1953-4), 164-170 (165), a Dafydd Jenkins, 'Yr Ynad Coch', *B* 22 (1966-8), 345-6, am berthynas y beirdd Einion ap Madog ap Rhahawd a Gruffudd ab yr Ynad Coch â theulu enwog o wŷr cyfraith, 'Llwyth Cilmin Droetu'. Mae tystiolaeth fod Einion ap Gwalchmai yntau wedi gweithredu fel tyst, cyflafareddwr a barnwr, ac awgrymodd David Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), tt. 14 a 210, y gallai ef a'i dad Gwalchmai fod wedi cyfuno swyddogaethau'r bardd teulu a'r ynad llys (am rawd Einion gw. hefyd CBT I tt. 427-9, a J.E. Lloyd, 'Einion ap Gwalchmai', *B* 7 (1933-5), 34).

<sup>168</sup> CBT VII tt. 347-50.

<sup>169</sup> Roedd y datblygiadau hyn yn cynnwys gofynion Pedwerydd Cyngor y Lateran (1215) ynghylch addysgu llyegwyr, ymsefydliad y Brodyr Llwydion o 1245 ymlaen, ac elfennau newydd yn y litwrgi megis y *Stabat Mater* (Catherine McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric: Poems of the Gogynfeirdd, 1137-1282* (Belmont, 1991), tt. 42-6 a 70-3, a gw. hefyd N.G. Costigan, *Defining the Divinity: Medieval Perceptions in Welsh Court Poetry* (Aberystwyth, 2002), tt. 14-15.

<sup>170</sup> G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t. 126, a gw., e.e., CBT I 4.1 *Rex regum, Rhebydd rhwydd Ei foli*; 33.8 *Yn llwgr llu malaen maledicti*, a IV 16.34 *Iudex Rex, Rhegofydd hygar*. Nododd Haycock, CC t. 6, nifer o enghreifftiau o eiriau neu ymadroddion Lladin mewn cerddi crefyddol cynnar, gan gynnwys Naw Englyn y Juvencus, a'u dau air agoriadol (*Omnipotens auctor*) wedi eu benthylg, o bosibl, o gerdd neu gerddi Lladin (gw. Patrick Sims-Williams, 'The Evidence for Vernacular Irish Literary Influence on Early Mediaeval Welsh Literature', yn Dorothy Whitelock, Rosamond McKitterick and David Dumville (eds.), *Ireland in Early Mediaeval Europe* (Cambridge, 1982), tt. 235-57 (tt. 242-3)). Awgrymodd Ceri Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Cardiff, 1995), t. 43, mai 'Ystoria Dared', cyfieithiad o'r *Historia de Excidio Troiae* a briodolir i Dares Phrygius, oedd prif ffynhonnell yr enwau priod clasurol a welir yng ngherddi'r beirdd ac yn y Trioedd.

medru Lladin eu hunain, er bod hynny'n ymddangos fel posibilrwydd cryf yn achos beirdd a chanddynt ddyletswyddau 'gwasanaeth sifil', neu'r rhai â chysylltiadau eglwysig.<sup>171</sup>

Gallai rhai o feirdd yr Hengerdd hefyd fod wedi medru Lladin. Awgrymwyd bod nifer o gerddi crefyddol cynnar wedi eu llunio mewn mynachlogydd neu mewn *clasau* megis Llanbadarn Fawr,<sup>172</sup> a mynach o Dde Cymru oedd awdur y gerdd ddarogan 'Armes Prydein', yn ôl Ifor Williams.<sup>173</sup> Yn wir, fe allasai beirdd fod wrthi'n cyfansoddi yn y ddwy iaith, Cymraeg a Lladin, mewn rhai o'r canolfannau hyn. Mae'n debyg mai Cymro oedd Moucan neu Feugan, sef awdur naw gweddi Ladin (*Ora' moucani*) a gofnodwyd mewn llawysgrif o Fersia o ail hanner yr wythfed ganrif,<sup>174</sup> ac mae englynion y Juvencus yn dangos bod barddoniaeth Gymraeg yn medru bod yn rhan o ddiwylliant *scriptorium* Cymreig (nid amhosibl bod y Naw Englyn wedi eu cyfansoddi yn y gyfryw ganolfan, hyd yn oed).<sup>175</sup>

Yr un math o ddiwylliant cymysg a chyfoethog a arwyddir gan y gerdd fer (neu ddarn o gerdd) 'Ffon Fagl Sant Padarn', a gadwyd mewn llawysgrif o *De Trinitate* Awstin a gopiwyd gan Ieuan ap Sulien (m. 1137).<sup>176</sup> Gwyddys bod Ieuan, fel ei frawd Rhygyfarch, wedi llunio cerddi Lladin, er nad oes modd gwybod ai ef a gyfansoddodd 'Ffon Fagl Sant Padarn', yn ogystal â'i chofnodi.<sup>177</sup> Mae'r tair marwnad Ladin i'r Arglwydd Rhys, dwy yn fersiwn llsgr. Peniarth 20 o *Frut y Tywysogion* a'r llall yn Nhestun B o'r *Annales Cambriae*, yn enghreifftiau eraill o ganu Lladin Cymreig o gyfnod y tywysogion, a'r rheini hefyd yn

---

<sup>171</sup> Gw. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 182; McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric*, t. 38, a Costigan, *Defining the Divinity*, tt. 14-15.

<sup>172</sup> Gw. Haycock, CC tt. xv-xviii, yn cyfeirio'n arbennig at CC cerddi 1 ('Naw Englyn y Juvencus'), 6, 7, 20, 21, 23 ('Ffon Fagl Sant Padarn') a 24, ac at awgrym R. Geraint Gruffydd, "'Cyntefin Ceinaf Amser"' o Lyfr Du Caerfyrddin', *YB* 4 (1969), 12-26, mai mynach neu fardd-fynach oedd awdur 'Cyntefin Ceinaf Amser' a cherddi crefyddol eraill y Llyfr Du. Mae Andrew Breeze, 'Master John of St David's, a New Twelfth-century Poet', *B* 40 (1993), 73-82, wedi awgrymu mai 'Master John', un o ganoniaid Tyddewi (*fl.* tua 1148-76), oedd awdur 'Difregwawd Taliesin' o Lyfr Coch Hergest a cherddi eraill, ac yntau'n hyddysg mewn Lladin; ond gw. hefyd Haycock, CC tt. xvii-xviii, sy'n nodi bod mydr 'Difregwawd Taliesin' yn ymddangos fel pe bai'n bur ddiweddar, ac mai mewn llawysgrifau cymharol ddiweddar y ceir y priodoliad i'r 'Athro Johannes Mynyw'.

<sup>173</sup> AP t. xxvi, ond gw. uchod n. 139 am awgrym gwahanol a wnaethpwyd yn ddiweddar ynghylch dyddiad cyfansoddi'r gerdd hon.

<sup>174</sup> CC t. xiv, a D.R. Howlett, '*Orationes Moucani*: Early Cambro-Latin Prayers', *CMCS* 24 (1992), 55-74.

<sup>175</sup> Gw. Haycock, CC t. 5. Awgrymwyd y gallai Naw Englyn y Juvencus fod yn gyfieithiad o gerdd Ladin, er bod Haycock yn nodi nad oes cyswll Ladin addas wedi ei hadnabod hyd yma (trafodwyd hyn yn CC t. 6, a gw. n. 170 uchod).

<sup>176</sup> Haycock, CC t. 241.

<sup>177</sup> Gw. Haycock, CC t. 242, a Michael Lapidge, 'The Welsh-Latin Poetry of Sulien's Family', *Studia Celtica*, 8/9 (1973-4), 68-106 (69-70 a 74), sy'n nodi bod cynnwys y cerddi Lladin yn awgrymu bod y ddau frawd yn gyfarwydd â gwaith amrywiaeth fawr o awduron Lladin clasurol a Christnogol, a bod eu harddull yn debycach i gerddi Carolingaid o'r nawfed ganrif nag i gerddi Lladin eu cyfoeswyr Ewropeaidd. Am y teulu hwn, gw. hefyd C. Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, tt. 16-19 a 25-6.

ffrwyth canolfan(nau) eglwysig.<sup>178</sup> Er nad yw'n ymddangos bod y marwnadau Lladin yn perthyn i'r un traddodiad â marwnadau Cymraeg Beirdd y Tywysogion,<sup>179</sup> diau bod cyfathrebu ar waith yn y ddau gyfeiriad rhwng y beirdd a charfanau eraill o wŷr dysgedig. Yn yr un modd ag y byddai'r beirdd yn defnyddio syniadau a chyfeiriadau o ddysg Ladinaidd i gyfoethogi eu cerddi ac i roi urddas iddynt, felly y byddai awduron testunau Lladin megis yr *Historia Brittonum* a bucheddau'r seintiau, ynghyd â bywgraffiad Gruffudd ap Cynan a'r testunau cyfraith, yn tynnu ar draddodiadau barddol ac ar fathau eraill o gyfarwyddyd at eu dibenion eu hunain.<sup>180</sup>

Mae dylanwad canu Lladin wedi cael cryn sylw mewn perthynas â cherddi beirdd y ddeuddegfed ganrif i ferched. Gwyddys bod canu serch Lladin clasurol yn gyfarwydd i rai Cymry, o leiaf, yn gynnar iawn, fel y dengys y glosau Cymraeg ar destun o lyfr cyntaf *Ars Amatoria* Ofydd a gopiwyd yng Nghymru yn y nawfed ganrif neu ddechrau'r degfed

---

<sup>178</sup> Gw. rhagymadrodd a chyfieithiadau Huw Pryce, 'Atodiad B: Y Canu Lladin er Cof am yr Arglwydd Rhys', yn Nerys Ann Jones a Huw Pryce (goln.), *Yr Arglwydd Rhys* (Caerdydd, 1996), tt. 212-23. Awgrymodd Pryce, 'Atodiad B: Y Canu Lladin', t. 213, y gallai'r tair cerdd fod wedi eu cyfansoddi yn Ystrad Fflur neu mewn un o'r mynachlogydd Sistersaidd eraill yng Nghymru, neu o bosibl yn Nhyddewi. Roedd Gerallt Gymro yntau'n fardd Lladin, gan gyfansoddi cerddi serch, hyd yn oed, yn ei ieuenctid (gw. J.E.C. Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched', 69, a'r cyfeiriadau a roddir yno).

<sup>179</sup> Tynnodd Pryce, 'Atodiad B: Y Canu Lladin', tt. 213-14, sylw at y ffaith fod Rhys yn cael ei gyffelybu ag Alecsander Fawr yn y gerdd gyntaf o Isgr. Peniarth 20 a hefyd mewn cerdd o waith Cynddelw (CBT II 8.30 'Arwyrain yr Arglwydd Rhys'), a bod Alecsander, Arthur a Chesar yn cael eu crybwyll gyda'i gilydd yn yr un gerdd Ladin ac mewn cerdd grefyddol o waith Cynddelw neu Brydydd y Moch (CBT II 17.67, 69 a 77). Ond hyd yn oed yn achos y gerdd Ladin gyntaf hon, nid oes rhyw lawer o gyffelybiaeth â cherddi Beirdd y Tywysogion o ran y cyfeiriadau at arfau. Ni cheir yng ngherddi Beirdd y Tywysogion y ddelwedd o faneri'n cwmpo fel symbol o farwolaeth y gwrthrych (ll. 9, *Resus obit, vexilla cadunt regalia signa*) neu o helm, cleddyf ac arfau yn rhydu (llau. 11-12, *Resus obit, ferrugo tegit galeam, tegit enseme; / Arma rubigo tegit, Cambria, Resus obit*), er bod y syniad fod y wlad yn ddiameddiffyn bellach (ll. 13) yn gyfarwydd mewn marwnadau Cymraeg (gw. yn enwedig adran 3.13.8 isod, wrth drafod tarianau). Mae'r ddelwedd yn yr un gerdd o saeth drwy'r galon fel trosiad o alar (ll. 18, *Cor ferit omne ducis dira sagitta necis*) hefyd yn anghyfarwydd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, a hwythau'n defnyddio ergydion (llai penodol) gan wayffyn neu lafnau at y diben llenyddol hwn (gw. adrannau 3.2.9 a 3.4.6); ac anghyfarwydd hefyd yw'r ddelwedd o dir yn cael ei 'sathru gan arfau' (ll. 31, *Occasus solis tritus Resi fuit armis*), er bod arfau ac offer eraill yn cael eu sathru yng ngherddi'r beirdd Cymraeg (gw. CA (LXIII A) 723-5 *sengi waewawr / en dyd cadyawr* a CBT VI 14.15 (Phylip Brydydd) *Diseirch meirch a seirch osethrid—borthfor*). Mae'r ddelwedd yn y llinell olaf ond un o ysgrifbin yn wlyb gan ddagrau yn arwyddocaol, gan awgrymu bod y gerdd wedi ei chyfansoddi'n unswydd ar gyfer cyd-destun ysgrifenedig yn hytrach na'i bod wedi ei pherfformio ar lafar fel cerddi'r beirdd llys.

<sup>180</sup> Gw. R.R. Davies, *The Age of Conquest*, tt. 105-6; J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', tt. 5-7 (yn trafod 'adfywiad llenyddol' y ddeuddegfed ganrif, yn arbennig); John T. Koch, 'De sancto Iudicaelo rege historia and Its Implications for the Welsh Taliesin', yn J.F. Nagy and L.E. Jones (eds.), *Heroic Poets and Poetic Heroes*, tt. 247-62 (tt. 259-62), a Morfydd E. Owen, 'Royal Propaganda Stories from the Law-Texts', yn Charles-Edwards *et al.* (eds.), *The Welsh King and His Court*, tt. 224-54. Byddai dylanwad traddodiadau a llenyddiaeth Gymraeg a Chymreig yn lledu i wledydd eraill hefyd, fel yn achos datblygiad y chwedlau Arthuriaidd a ddeuai'n rhan bwysig o lenyddiaeth Ewropeaidd ganoloesol (gw. Rachel Bromwich, A.O.H. Jarman and Brynley F. Roberts (eds.), *The Arthur of the Welsh: The Arthurian Legend in Medieval Welsh Literature* (Cardiff, 1991)).

ganrif.<sup>181</sup> Cyfeiriodd Hywel ab Owain Gwynedd at Ofydd yn ei Orhoffedd, yn wir, er na ellir bod yn sicr fod hynny'n dangos gwybodaeth uniongyrchol o'i waith, ac erys amheuaeth ynghylch maint dylanwad gwaith Ofydd neu feirdd Lladin eraill megis y *clerici vagantes* ar ganu Beirdd y Tywysogion.<sup>182</sup> Yn wir, dadleuodd Ceri Davies a Ceri Lewis nad oes tystiolaeth fod beirdd Cymreig proffesiynol, fel y cyfryw, yn hyddysg iawn mewn Lladin tan y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>183</sup>

Mae cerddi serch cyfandirol, yn enwedig cerddi 'serch llysaidd' neu 'serch cwrtais' trwbawriad Profens, wedi eu hawgrymu fel dylanwad arall ar gerddi serch Hywel, ac ar rai o gerddi ei gyfoeswyr megis 'Rhieingerdd Efa' Cynddelw a Gorhoffedd Gwalchmai.<sup>184</sup> Mae ysgolheigion eraill wedi dadlau, fodd bynnag, fod fersiwn brodorol o gysyniadau serch 'llysaidd' neu 'gwrtais' wedi bodoli eisoes yng Nghymru, neu fod y syniadau hyn wedi datblygu yng Nghymru (megis mewn gwledydd eraill) fel canlyniad i ddatblygiad cymdeithas llysaidd soffistigedig, yn hytrach nag mewn ymateb i ddylanwadau llenyddol o'r tu allan.<sup>185</sup>

---

<sup>181</sup> C. Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, t. 13, a gw. M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 43, sy'n nodi testunau glosedig eraill o'r cyfnod Hen Gymraeg, sef 'De Nuptiis Philologiae et Mercurii Martianus Capella, De Natura Rerum Beda, cerdd Juvencus, y Colloquy yn Oxonienses Posterior a Gramadeg Priscianus'.

<sup>182</sup> Am gyfeiriad Hywel ab Owain Gwynedd at Ofydd gw. CBT II 6.40 *Cyd bwyf-i cariadawg cerdded Ofydd*, a hefyd CBT II 6.40n, yn cyfeirio at J. Lloyd-Jones, *B* 15 (1952-4), 198-20. Trafodir dylanwad posibl cerddi Lladin ar Hywel a'i gyfoeswyr gan M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 5, a H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', t. 104. Cyfeiriodd Edwards hefyd (ibid., n. 87) at linell Owain Cyfeiliog (neu Gynddelw?), CBT II 15.17 *Dos o Benweddig, boen Ofydd—gennad*, ac at fotiff yr eos yn y ddau Orhoffedd fel enghraifft bosibl arall o ddylanwad Ofydd. Mae cyfeiriad arall at Ofydd yn y gerdd 'I Wenllïan' gan Iorwerth Fychan, bardd o'r drydedd ganrif ar ddeg (CBT VII 30.63 *Ys mawr fy angof na bûm Ofydd*). Cyfeiriodd Dafydd ap Gwilym yntau'n aml at Ofydd, gan ddefnyddio'r gair *Ofyddiaeth* i ddisgrifio ei farddoniaeth ei hun, a chan ei ddisgrifio ei hunan fel *dyn Ofydd* (C. Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, t. 45, a gw. Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), passim).

<sup>183</sup> C. Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, t. 40, yn dyfynnu o Ceri Lewis yn A.O.H. Jarman a Gwilym R. Hughes (goln.), *A Guide to Welsh Literature* (Swansea, 1979), t. 74. Gw. hefyd drafodaeth H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 103-4. Nododd C. Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, t. 40, fod Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug wedi ceisio cyfuno traddodiadau Cymreig â'u dysg Lladinaidd wrth greu'r 'Gramadegau' barddol Cymreig yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.

<sup>184</sup> Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 190; Thomas Parry (ed.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962; 2nd edition 1989), t. 542; Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Y Traddodiad Islenyddol', yn John Rowlands (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975), tt. 43-57 (t. 55); Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), t. 103, a Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues', *CMCS* 33 (1997), 81-92 (88-90).

<sup>185</sup> Gw. trafodaethau J.E.C. Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched', H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', a D. Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', tt. 145-6; a hefyd H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, t. 86, yn cyfeirio at Dronke, *Medieval Latin and the Rise of European Love-Lyric*, vol. I (Oxford, 1965); Kathleen Anne Evans, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Rianedd a Gwragedd' (thesis MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, 1972), a Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989). Dadleuodd H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel

Nid o'r dwyrain y daeth yr holl ddylanwadau ar ddiwylliant Cymru, wrth reswm. Bu hanes hir o gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a hynny wedi arwain nifer o ysgolheigion i dybied mai ffrwyth dylanwad Gwyddelig yw rhai o'r cyffelybiaethau sydd wedi eu hadnabod rhwng llenyddiaethau'r ddwy wlad, megis elfennau yn stori 'Branwen uerch Lyr' ac yn 'Culhwch ac Olwen', trawsnewidiadau Taliesin, y gellir eu cymharu â thrawsnewidiadau'r arwr Gwyddelig Tuan mac Cairill, a rhai agweddau ar ganu natur.<sup>186</sup> Problemus, er hynny, yw gwahaniaethu rhwng benthyciadau uniongyrchol a'r cyffelybiaethau hynny sy'n adlewyrchu etifeddiaeth Geltaidd gyffredin y ddwy wlad.<sup>187</sup> Yn wir, mae Patrick Sims-Williams wedi dadlau y gellir priodoli llawer o'r cyffelybiaethau i draddodiadau cyffredin gogledd-orllewin Ewrop yn hytrach nag i ddylanwadau penodol,<sup>188</sup> er nodi ei bod yn ymddangos bod gan awdur Cymreig 'Marwnad Corroi', o Lyfr Taliesin, wybodaeth am ryw fersiwn o'r stori Wyddeleg 'Aided Con Roi', a allai fod wedi cyrraedd Cymru drwy nifer o lwybrau.<sup>189</sup>

Roedd cysylltiadau Gwyddelig a Gwyddelig-Sgandinafaidd Gruffudd ap Cynan yn un llwybr amlwg ar gyfer dylanwadau o bob math<sup>190</sup> – nid yn unig rai Gwyddelig, ond hefyd o

---

ab Owain Gwynedd', t. 98, ei bod yn annhebygol y gallai syniadau'r Trwbawriaid fod wedi cyrraedd Cymry mor gynnar â 1160 – sef y dyddiad diweddaraf sy'n debygol ar gyfer cyfansoddi 'Rheingerdd Efa' – gan nodi bod y cerddi serch Eingl-Normaneg cynharaf yn dyddio o ddiwedd y deuddegfed ganrif (gw. hefyd J.E.C. Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched', t. 40). Am drafodaethau am ddylanwadau cyfandirol (a rhai eraill) ar Dafydd ap Gwilym ac ar feirdd eraill y bedwaredd ganrif ar ddeg, gw. Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Y Traddodiad Islenyddol' ac *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*; H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, a Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues', tt. 88-90. Gw. hefyd R.G. Gruffydd, "'Cyntefin Ceinaf Amser' o Lyfr Du Caerfyrddin', sy'n trafod dylanwadau cyfandirol posibl canu serch cyfandirol ar y gerdd grefyddol 'Cyntefin Ceinaf Amser', er nodi bod holl elfennau sylfaenol y gerdd 'eisoes wrth law yn y traddodiad Cymraeg'.

<sup>186</sup> Gw. Cecile O'Rahilly, *Ireland and Wales: their Historical and Literary Relations* (London, 1924), tt. 92-127, a thrafodaeth Proinsias Mac Cana, 'Ireland and Wales in the Middle Ages: an Overview', yn Jankulak and Wooding (eds.), *Ireland and Wales in the Middle Ages*, tt. 17-45 (tt. 33-41).

<sup>187</sup> Mac Cana, 'Ireland and Wales in the Middle Ages', t. 34.

<sup>188</sup> Sims-Williams, 'The Evidence for Vernacular Irish Literary Influence', a gw. hefyd Sims-Williams, 'The Significance of the Irish Personal Names in Culhwch ac Olwen', *B* 29 (1982), 600-20; Sims-Williams, 'The Irish Geography of Culhwch and Olwen', yn Donnchadh O Corrain, Liam Breatnach and Kim McCone (eds.), *Sages, Saints and Storytellers: Celtic Studies in Honour of Professor James Carney* (Maynooth, 1989), tt. 412-26; a Sims-Williams, *The Iron House in Ireland* (Cambridge, 2006). O ran y canu natur, mae Kenneth Jackson, *Studies in Early Celtic Nature Poetry* (Cambridge, 1935; new edition, Felinfach, 1996), tt. 178-9, hefyd wedi dadlau nad oes tystiolaeth am ddylanwadau llenyddol o Iwerddon. Daeth Mac Cana, 'Ireland and Wales in the Middle Ages', t. 40, i gasgliad tebyg: 'In general, as we have seen, the documentary evidence is not sufficiently specific to enable us to prove beyond reasonable doubt instances of direct literary influence between the two countries'.

<sup>189</sup> Mae Sims-Williams, 'The Evidence for Vernacular Irish Literary Influence', tt. 248-55, yn awgrymu Ynys Manaw fel un llwybr posibl, neu un o'r Gwyddyl dysgedig y gwyddys iddynt fynychu llys Merfyn Frych (brenin Gwynedd yn y nawfed ganrif). Gw. hefyd Haycock, LPBT, tt. 463-6 (rhagymadrodd i gerdd 21).

<sup>190</sup> Gw. O'Rahilly, *Ireland and Wales*, tt. 74-7; D. Simon Evans, HGK tt. lix-cxvii; Seán Duffy, 'Ostmen, Irish and Welsh in the Eleventh Century', *Peritia*, 9 (1995), 378-96, a David Moore, 'Gruffudd ap Cynan and the Mediaeval Welsh Polity', yn Maund (ed.), *Gruffudd ap Cynan*, tt. 1-77.

bosibl rhai Llychlynaidd, fel yr awgrymodd Morfydd E. Owen yn ddiweddar.<sup>191</sup> Mae hen draddodiad fod Gruffudd wedi dod â cherddorion a beirdd gydag ef o Iwerddon, a adlewyrchir yn y ffaith fod ei enw wedi'i ddefnyddio i roi awdurdod i 'Statud Gruffudd ap Cynan', sef casgliad o reolau ar gyfer cerdd dant a luniwyd adeg eisteddfod Caerwys yn 1523.<sup>192</sup> Ac eto, mae rheolau'r Statud yn llawer mwy cydnaws â'r cyfnod cyfoes nag â'r ddeuddegfed ganrif, ac nid oes unrhyw gyfeiriad at Ruffudd ap Cynan yn ymwneud â rheolau barddoniaeth na cherddoriaeth cyn yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>193</sup> Gallai'r traddodiad hwn o bosibl adlewyrchu rhyw adfywiad gwirioneddol a ddigwyddodd yng nghyfnod Gruffudd – crybwyllir weithiau yn y cyd-destun hwn y ffaith mai iddo ef y canodd Meilyr Brydydd, sef y cyntaf o Feirdd y Tywysogion y gwyddys ei enw – ond nid yw'n glir faint mewn gwirionedd oedd arwyddocâd cysylltiadau Gruffudd ag Iwerddon yn y cyd-destun hwn.<sup>194</sup> Yn wir, mae D. Simon Evans wedi dadlau nad oedd digon o ddwyieithrwydd, na digon o gyd-ymwneud neu 'ymrwbio â'i gilydd', i ganiatáu trosglwyddo dylanwadau sylweddol rhwng Iwerddon a Chymru yn y cyfnod ar ôl y chweched ganrif,<sup>195</sup> ac mae Ifor Williams a Patrick Sims-Williams wedi dadlau nad oes tystiolaeth fod y Gogynfeirdd yn gyfarwydd â hanes na llenyddiaeth Iwerddon.<sup>196</sup> Yn fwy

<sup>191</sup> Gw. 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 34-6, sy'n nodi cyffelybiaethau rhwng canu'r beirdd llys Sgandinafaidd a chanu Beirdd y Tywysogion.

<sup>192</sup> Gw. J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 10-11; J.E.C. Williams, 'Meilyr Brydydd and Gruffudd ap Cynan', tt. 168-70; D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, t. 19; Einir Gwenllian Thomas, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan' (Traethawd PhD, Prifysgol Cymru Bangor, 2001), yn enwedig tt. 537-76, a Sally Harper, *Music and Welsh Culture Before 1650* (Aldershot, 2007), tt. 50-1. Dywed D.S. Evans, HGK t. ci: 'mae'n amlwg ei bod hi'n ffasiwn yn y dyddiau hynny edrych yn ôl ar Gruffudd ap Cynan a'i amserau fel man cychwyn llawer peth o bwys', gan gyfeirio at awgrym mewn un o destunau 'Y Naw Helwriaeth' fod rheolau hela hefyd yn gysylltiedig ag ef.

<sup>193</sup> E.G. Thomas, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan', tt. 541, a Harper, *Music and Welsh Culture*, tt. 50-1.

<sup>194</sup> Gw. J.E.C. Williams, 'Meilyr Brydydd and Gruffudd ap Cynan'; D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, t. 19, a Mac Cana, 'Ireland and Wales in the Middle Ages', t. 40. Fel y nodwyd yn barod, yr Hengerdd Gymraeg fu'r dylanwad amlycaf ar gerddi Beirdd y Tywysogion, ac os oedd adfywiad mewn barddoniaeth adeg Gruffudd ap Cynan fe allasai fod yn fwyaf cysylltiedig nid â thraddodiadau Iwerddon ond yn hytrach â 'dadeni' ehangach Ewrop yn y ddeuddegfed ganrif, neu â grym a dylanwad Gruffudd ei hun (J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', tt. 5-11, a J.E.C. Williams, 'Meilyr Brydydd and Gruffudd ap Cynan', tt. 170-1). Mae R.G. Gruffydd, 'Beirdd y Tywysogion', 27, wedi dadlau, fodd bynnag, nad oes tystiolaeth am 'ddadeni' gwirioneddol yn y ddeuddegfed ganrif, am y gallai cerddi i dywysogion cynharach fod wedi'u colli. Gallai'r ffaith fod Meilyr Brydydd yn dad ac yn daid i feirdd fod wedi helpu i sicrhau y byddai ei gerddi yntau'n cael eu cadw, ac yn wir mae'n ddiddorol ei bod yn ymddangos bod y ffynhonnell a ddefnyddiodd prif ysgrifydd Llawysgrif Hendregadredd ('Alpha') ar gyfer cerddi Meilyr, Gwalchmai ac Einion ap Gwalchmai yn un nas defnyddiwyd yn yr un man arall yn y llawysgrif (T.M. Charles-Edwards and P. Russell, 'The Hendregadredd Manuscript and the Orthography and Phonology of Welsh in the Early Fourteenth Century', *CLIGC* 28 (1994), 419-62 (434-6)). (Mae awgrym petrus Charles-Edwards and Russell, 'The Hendregadredd Manuscript', 436, mai Einion ei hun a ysgrifennodd y ffynhonnell honno wedi'i wrthod gan N.A. Jones, 'Ffynonellau', 118, n. 151).

<sup>195</sup> HGK t. cviii.

<sup>196</sup> Sims-Williams, 'Irish Elements in Late Medieval Welsh Literature', yn Martin J. Ball, James Fife and Erich Poppe (eds.), *Celtic Linguistics / Ieithyddiaeth Geltaidd, Readings in the Brythonic Languages:*

penodol, mae'n ddadleuol faint o ddylanwad a gafodd llinach Hywel ab Owain Gwynedd – ac yntau'n fab i 'Ffynnod Wyddeles', yn ôl yr achau<sup>197</sup> – ar ei farddoniaeth yntau, ac ar y traddodiad barddol ehangach, yn enwedig mewn perthynas â chanu i wragedd a chanu 'natur'.<sup>198</sup>

Yn gyffredinol, fodd bynnag, gallai dylanwadau fod wedi lledu drwy amryw ddulliau, gan gynnwys rhwydweithiau rhyngwladol urddau eglwysig, cysylltiadau diplomataidd a phriodasau dynastig, gweithgareddau cyfieithwyr a lladmeryddion, cysylltiadau masnachol, teithiau crefftwyr a phererinion, a theithiau beirdd, cerddorion a diddanwyr eraill.<sup>199</sup> Rhaid ystyried hefyd effaith y cymathiad a ddigwyddai'n raddol yn yr ardaloedd o Gymru a feddiannwyd gan arglwyddi Eingl-Normaniaid,<sup>200</sup> yn ogystal â dylanwadau posibl cytrefwyr Gwyddelig, Saesneg, Llychlynnaidd a Ffleminiaidd a ddaeth i'r wlad ar wahanol adegau.<sup>201</sup> At hynny, byddai rhai Cymry'n setlo yn Iwerddon yn sgil yr ymgyrchoedd Eingl-/Cambro-

---

*Festschrift for T. Arwyn Watkins* (Amsterdam & Philadelphia, 1990), tt. 277-95 (t. 277), yn cyfeirio at Arthur Hughes ac Ifor Williams, *Gemau'r Gogynfeirdd* (Pwllheli, 1910), t. xvii.

<sup>197</sup> N.A. Jones, *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 5-6, a M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 32, yn cyfeirio at P. C. Bartrum (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff, 1966), t. 97. Gw. hefyd N.A. Jones, *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 5-6, sy'n nodi y gallai'r llysenw 'Gwyddeles' fod wedi dynodi rhywun o dras Wyddelig yn hytrach na rhywun a aned yn Iwerddon, fel y gallai Ffynnod fod wedi ei magu yng Nghymru o bosibl. Er nad oes tystiolaeth fod Hywel (na'i dad Owain) wedi ymweld ag Iwerddon erioed, awgrymwyd bod gan frodyr maeth Hywel hwythau gysylltiadau Gwyddelig; yn wir, gallent fod wedi perthyn i deulu ei fam, er bod iddynt hefyd gysylltiad â Gwent (gw. N.A. Jones, *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 5-8, a'r cyfeiriadau a nodir yno).

<sup>198</sup> Gw. O'Rahilly, *Ireland and Wales*, tt. 129-31; Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', tt. 187 a 193, a hefyd drafodaeth N.A. Jones, *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 20-1 a'r cyfeiriadau a nodir yno, a M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 34-5. Fel y trafodwyd yn barod yn yr adran hon, awgrymwyd bod dylanwadau cyfandirol neu Ladinaidd ar waith Hywel, a phosibiliadau eraill yw fod barddoniaeth Ceredigion wedi dylanwadu arno, neu fod ei farddoniaeth yn adlewyrchu ei statws tywysogaidd a'i ryddid fel bardd amatur (gw. uchod nn. 107 a 110). Mae rhai ysgolheigion wedi tynnu sylw at y cyffelybiaethau rhwng cerddi Hywel a gwaith beirdd Cymraeg eraill ei gyfnod, fodd bynnag; gw. trafodaeth H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 88-90; D. Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', t. 149 (yn nodi cyffelybiaethau rhwng cerddi Hywel – neu'r rhai a briodolir iddo – a cherddi Cynddelw), ac Andrews, 'Cynganeddion Hywel ab Owain', t. 178 (yn awgrymu bod cerddi Gwalchmai wedi dylanwadu'n gryf ar waith Hywel o ran arddull a themâu yn ogystal â mydr).

<sup>199</sup> Gw. Marie Surridge, 'Romance Linguistic Influence on Middle Welsh', *Studia Celtica*, 1 (1966), 63-92; R.R. Davies, *The Age of Conquest*, t. 103; Jackson, *Studies in Early Celtic Nature Poetry*, t. 196; Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Y Traddodiad Islenyddol', t. 55; Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, t. 103; Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues', 87; Richard Avent, *Cestyll Tywysogion Gwynedd* (Caerdydd, 1983), tt. 9 a 15; Peter Lord, *The Visual Culture of Wales: Medieval Vision* (Cardiff, 2003), tt. 90-1, ac H.M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 97-8.

<sup>200</sup> Surridge, 'Romance Linguistic Influence'; Lieberman, *The March of Wales*, pennod 4, a gw. hefyd Max Lieberman, 'Anglicization in High Medieval Wales: The Case of Glamorgan', *Welsh History Review*, 23 (2007-8), 1-26. Roedd cytrefwyr Normaniaidd yn Henffordd cyn 1066, hyd yn oed, ac fe wyddys bod Gruffudd ap Llywelyn wedi ymgyrchu'n llwyddiannus yn eu herbyn (Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues', 88, yn cyfeirio at J.E. Lloyd, *A History of Wales*, II, t. 363).

<sup>201</sup> W. Davies, *Patterns of Power*, tt. 39-40, 51-6 a 61-79; O'Rahilly, *Ireland and Wales*, tt. 36-48; Mark Redknap, *Y Llychlynwyr yng Nghymru: Ymchwil Archeolegol* (Caerdydd, 2000), tt. 65-74; Etchingham, 'Viking-age Gwynedd and Ireland', ac R.R. Davies, *The Age of Conquest*, tt. 98-100 a 159-60.

Normanaidd yno o ddiwedd yr 1160au ymlaen, ac roedd tywysogion Cymreig, neu eu perthnasau, yn dal tir yn Iwerddon (yn ardal Dulyn) yn ogystal ag yn Lloegr.<sup>202</sup>

Yn aml, ond nid bob amser, byddai cytrefu'n gysylltiedig ag ymlediad dylanwad gwleidyddol. Credir bod y Saeson wedi dechrau rheoli rhannau o dde-ddwyrain Cymru yn ystod y ddegfed ganrif,<sup>203</sup> a bod arweinwyr Gwyddelig wedi rheoli rhannau o Gymru yn yr unfed ganrif ar ddeg, ac efallai'n gynharach.<sup>204</sup> Roedd y Llychlynwyr hwythau'n bresenoldeb grymus yn Iwerddon ac, i ryw raddau, yng Nghymru – yn wir, awgrymodd Wendy Davies mai cymaint oedd grym y Llychlynwyr nes eu bod i bob pwrpas yn rheoli Gwynedd rhwng tua 960 a 1025.<sup>205</sup> Yn fwy diweddar mae Colmán Etchingham wedi dadlau y dylid ystyried Gwynedd ac Ynys Môn fel rhan o 'Insular Viking Zone', a hynny nid yn unig yn ystod y ddegfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg ond efallai mor gynnar â'r nawfed ganrif.<sup>206</sup>

Yng nghyfnod y tywysogion, byddai'r traddodiad o anfon meibion arglwyddi i lys arglwydd arall i gael eu magu wedi bod yn llwybr arall ar gyfer lledaeniad dylanwadau newydd, ac fe allai peth tebyg fod wedi digwydd yn achos gwystlon a anfonwyd i diriogaeth arall, neu i wlad arall, fel yn achos Hywel Sais, un o feibion yr Arglwydd Rhys.<sup>207</sup> Yn wir, fe ddywedodd Gerallt Gymro fod y Cymry wedi dysgu dulliau brwydro gan y Normaniaid wrth fynychu eu llysoedd ac wrth drigo yn Lloegr fel gwystlon.<sup>208</sup> Perthnasol hefyd yw hanes Gruffudd ap Rhodri, cefnder i Lywelyn ab Iorwerth a fagwyd fel alltud ac a

---

<sup>202</sup> O'Rahilly, *Ireland and Wales*, tt. 80-3; Marie Therese Flanagan, 'Historia Gruffud vab Kenan and the Origins of Balrothery, Co. Dublin', *CMCS* 28 (1994), 71-94; Séan Duffy, 'The 1169 Invasion as a Turning-point in Irish-Welsh Relations', yn Brendan Smith (ed.), *Britain and Ireland 900-1300: Insular Responses to Medieval European Change* (Cambridge, 1999), tt. 98-113, a Pryce, 'Welsh Rulers and European Change', t. 42.

<sup>203</sup> W. Davies, *Patterns of Power*, t. 71.

<sup>204</sup> W. Davies, *Patterns of Power*, t. 39, ac am drafodaethau ar y dystiolaeth am ddylanwad Gwyddelig yn Nyfed rhwng y bedwaredd ganrif a'r chweched ganrif gw. ymhellach Ken Dark, *Britain and the End of the Roman Empire* (Stroud, 2000), tt. 188-90, Iwan Wmffre, 'Post-Roman Irish settlement in Wales: New Insights from a recent study of Cardiganshire place-names', yn Jankulak and Wooding (eds.), *Ireland and Wales in the Middle Ages*, tt. 46-61, a Catherine Swift, 'Welsh Ogams from an Irish Perspective', yn yr un gyfrol, tt. 62-101.

<sup>205</sup> *Patterns of Power*, tt. 56-60, a gw. hefyd Etchingham, 'Viking-age Gwynedd and Ireland'.

<sup>206</sup> Etchingham, 'Viking-age Gwynedd and Ireland: Political Relations'.

<sup>207</sup> Treuliodd Hywel Sais 13 blynedd fel gwystl yn llys Harri II cyn dychwelyd i Gymru yn 1171; ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd Hywel yn gwasanaethu Harri II yn Normandi, a'r flwyddyn ar ôl hynny arweiniodd Rhys yntau filwyr Cymreig i warchae ar Gastell Tutbury, Swydd Stafford (Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 30-1 a 138-9, ac R.R. Davies, *The Age of Conquest*, t. 103).

<sup>208</sup> *Descriptio Kambriae*, II.7 (*Opera*, VI, t. 218; *Gerallt Gymro*, t. 221, a *Journey/Description*, t. 267).



ymladdodd dros y Brenin John o Loegr – fel capten ar filwyr Cymreig eraill – cyn dychwelyd, fe ddichon, i wasanaethu Llywelyn.<sup>209</sup>

Byddai milwyr ‘cyffredin’ hwythau’n gyfarwydd â brwydro wrth ochr milwyr o wledydd eraill, yn ogystal â brwydro yn eu herbyn. Mae croniclau Gwyddelig yn cofnodi bod milwyr Cymreig wedi ymladd yn Iwerddon yn y seithfed a’r wythfed ganrif,<sup>210</sup> ac fe allai’r cyfeiriad at *ffranc* yn englynion y Juvencus awgrymu bod y Cymry hwythau’n defnyddio hurfilwyr estron mor gynnar â’r wythfed neu’r nawfed ganrif, er bod ‘freeman’ yn ddehongliad posibl arall.<sup>211</sup> Nododd Beda fod Penda o Mercia a’r Brenin *Cædwalla*, sef Cadwallon ap Cadfan o Wynedd, wedi ymladd fel cynghreiriaid wrth drechu’r Brenin Edwin yn 633 O.C.,<sup>212</sup> ac mae nifer o gofnodion diweddarach am y Cymry’n brwydro wrth ochr milwyr Eingl-Sacsonaidd, yn enwedig wrth iddynt orfod amddiffyn yn erbyn ymgyrchoedd Llychlynniaidd o ddiwedd y nawfed ganrif ymlaen.<sup>213</sup> Mae John Koch wedi dadlau bod ‘Y Gododdin’, hyd yn oed, yn disgrifio cynghreirio rhwng tiriogaethau Brythonig ac Eingl-Sacsonaidd,<sup>214</sup> ac awgrymodd Leslie Alcock y gallai’r Eingl-Sacsoniaid fod wedi dysgu technegau marchoglu gan y Brythoniaid, a hynny dan amgylchiadau heddychlon.<sup>215</sup>

Defnyddid hurfilwyr neu gynghreiriaid Gwyddelig-Sgandinafaidd gan Ruffudd ap Cynan a chan dywysogion eraill,<sup>216</sup> ac fe fyddai tywysogion Cymreig hefyd yn galw ar yr Eingl-

---

<sup>209</sup> J.E. Lloyd, *A History of Wales*, II, t. 640 a n. 142, a Stephenson, *The Governance of Gwynedd*, tt. 116-17. Mae’n ymddangos bod disgynyddion eraill Rhodri wedi dilyn trywydd tebyg – nododd J.B. Smith, ‘Hywel ab Owain Gwynedd a Gwleidyddiaeth Gwynedd’, t. 81, fod Einion ap Caradog, wŷr i Thomas ap Rhodri (brawd Gruffudd) yn un o weinidogion Llywelyn ap Gruffudd.

<sup>210</sup> O’Rahilly, *Ireland and Wales*, t. 66.

<sup>211</sup> Ifor Williams and Rachel Bromwich, BWP tt. 95-6. Gw. isod adran 3.2.1.1, n. 49, am awgrym Andrew Breeze mai gwaywffon dafl oedd *ffranc* y Juvencus.

<sup>212</sup> Bertram Colgrave and R.A.B. Mynors (eds.), *Bede’s Ecclesiastical History of the English People* (Oxford, 1969), ii.20 (tt. 202-5).

<sup>213</sup> W. Davies, *Patterns of Power*, tt. 76-8; Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 136; Redknap, *Llychlynwyr*, tt. 30-3, a Lieberman, *The March of Wales*, tt. 19-20. Gw. hefyd Walker, *Medieval Wales*, t. 16, sy’n nodi bod gwŷr o Ddyfed wedi cynorthwyo’r Sacsoniaid yn eu hymosodiad ar Ystrad Clud yn y 940au. Byddai Gruffudd ap Llywelyn yntau’n cynghreirio â gwrthwynebwyr Seisnig y Brenin Edward Gyffeswr tua chanol yr unfed ganrif ar ddeg (W. Davies, *Patterns of Power*, t. 77).

<sup>214</sup> J.T. Koch, *GodA*, tt. xiii-xlii.

<sup>215</sup> Awgrymodd Alcock, *Economy, Society and Warfare*, tt. 264-5, fod nifer fach o *thegns* Anlaidd wedi cymryd drosodd diriogaeth a threfniant y *Votadini* (sef gwŷr ‘Gododdin’) fel ‘going concern’, ac y gallent fod wedi dysgu tactegau marchoglu ganddynt.

<sup>216</sup> Mae Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 75, yn nodi bod Gruffudd ap Rhydderch a Gruffudd ap Llywelyn hwythau wedi defnyddio hurfilwyr Gwyddelig-Sgandinafaidd mewn ymgyrchoedd i Loegr (gw. *John of Worcester II*, 1049 a 1055). Mae gwahanol ysgolheigion yn anghytuno ynghylch y cwestiwn a ddylid galw’r milwyr hyn yn hurfilwyr neu’n gynghreiriaid (gw. Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 75, a Moore, ‘Gruffudd ap Cynan and the Mediaeval Welsh Polity’, t. 13). Yn wir, nid oes ffin amlwg rhwng y ddau

Normaniaid i ymladd fel cynghreiriaid iddynt yn erbyn eu gelynyon Cymreig.<sup>217</sup> At hynny, byddai milwyr Cymreig yn cael eu recriwtio'n aml i frwydro yn rhyfeloedd yr Eingl-Normaniaid, naill ai dan orchymyn eu harweinwyr eu hunain fel rhan o gynghrair, neu fel hurfilwyr, neu fel tenantiaid i arglwyddi Eingl-Normanaidd.<sup>218</sup> Roedd milwyr Cymreig yn brwydro dros Robert Curthose adeg Gwilym Rufus, dros Robert o Gaerloyw yn ystod brwydrau teyrnasiad y Brenin Stephen (gan gynnwys brwydr Lincoln, 1141), ac fe aethant i Iwerddon fel rhan o'r cyrchoedd Eingl-Normaniaid o ddiwedd y 1160au ymlaen.<sup>219</sup> Byddent yn brwydro ar y Cyfandir, adeg Harri II,<sup>220</sup> ac fe ddaeth Llywelyn ab Iorwerth â charfan o filwyr Cymreig i ymgyrchu gyda'r Brenin John yn erbyn yr Albanwyr yn 1209.<sup>221</sup> Roedd anfon milwyr Cymreig i wasanaethu Harri III yn rhan o gytundeb Woodstock, 1247, ac fe ddefnyddiodd Edward I nifer fawr o hurfilwyr Cymreig ar gyfer ei ryfeloedd yng Nghymru a'r Alban, ac ar y Cyfandir.<sup>222</sup>

Er bod digonedd o dystiolaeth fod milwyr Cymreig yn gyfarwydd iawn ag offer a dulliau brwydro'r gwledydd cyfagos, nid yw'n dilyn y byddent wedi bod yn awyddus i fabwysiadu'r holl offer a'r dulliau hynny. Pwysleisiodd David Crouch gryfder traddodiadau milwrol Cymreig yn ymwneud â'r osgordd, gan ddisgrifio'r milwyr a aeth i wledydd eraill fel 'package tourists':

travel did not broaden their minds, and the richness of their own ancient culture and tradition monopolised their attention.<sup>223</sup>

---

ddiffiniad, o ystyried bod milwyr canoloesol yn aml yn cael eu 'talu' ag ysbail. Gw. Moore, 'Gruffudd ap Cynan and the Mediaeval Welsh Polity', t. 13, am yr awgrym fod Gruffudd wedi caniatáu anrheithio Môn 'probably only in order to provide spoils to keep his dissatisfied Hiberno-Scandinavian allies happy' (gw. HGK t. 12), a chymh. cyrch y Brenin John i ogledd Lloegr, fis Rhagfyr 1215 (W.L. Warren, *King John* (London, 1961; second edition 1978), t. 249)

<sup>217</sup> Nododd Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 75, fod yr Eingl-Normaniaid fel arfer yn brwydro fel cynghreiriaid gwleidyddol i'r Cymry, o dan eu rheolwyr eu hunain, ond bod defnydd Caradog ap Gruffudd o hurfilwyr Normanaidd yn y 1070au ac yn 1081 yn ymddangos fel eithriad i'r rheol gyffredinol hon.

<sup>218</sup> Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 61-2 a 136-40; D.S. Evans, HGK, tt. lxxix a lxxv, a Suppe, *Military Institutions*, tt. 16-17.

<sup>219</sup> Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 61-2 a 136-40, ac am ran y Cymry yn yr ymgyrchoedd yn Iwerddon gw. hefyd Seán Duffy, 'The 1169 invasion'. Dwy ffynhonnell bwysig am y cyfnod hwn – serch eu gogwydd amlwg – yw *Expugnatio Hibernica* Gerallt Gymro (gw. A.B. Scott and F.X. Martin (eds./trans.), *Expugnatio Hibernica: The Conquest of Ireland, by Giraldus Cambrensis* (Dublin, 1978)) a'r gerdd ddiennw a olygwyd gan Henry Orpen (*The Song of Dermot and the Earl* (Oxford, 1892)) ac yn fwy diweddar gan Evelyn Mullally (*The Deeds of the Normans in Ireland* (Dublin, 2002)).

<sup>220</sup> Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 61-2. Cyfeiriodd Gerallt Gymro yn *De iure et statu Meneuensis Ecclesiae* at un o'i berthnasau Cymreig ifanc a wasanaethai frenin Lloegr yn Ffrainc, ac yntau'n ddigon cyfoethog i dalu treuliau Gerallt ac i fenthyg arian iddo (*Autobiography*, t. 325).

<sup>221</sup> Digwyddodd hyn yn o fuan ar ôl priodas Llywelyn â Siwan, merch y Brenin John, yn 1205 (R.R. Davies, *The Age of Conquest*, tt. 239-40, a W.L. Warren, *King John*, t. 198). Awgrymodd N.A. Jones, 'Gorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd', tt. 123-4, y gallai Hywel ab Owain Gwynedd yntau fod wedi mynychu cyfarfod yng Nghaerlwylydd, sef lleoliad un o brif lysoedd David I, brenin yr Alban.

<sup>222</sup> Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 61-2.

<sup>223</sup> D. Crouch, *The Image of Aristocracy in Britain, 1000-1300* (London, 1992), t. 161.

Gallai ffactorau ymarferol fod wedi cyfyngu ar ymlediad datblygiadau newydd, megis prinder adnoddau, problemau wrth gynhyrchu neu fewnforio offer newydd, a phroblemau hyfforddi nifer fawr o wŷr mewn technegau newydd, a hynny o bosibl yn golygu torri ar draws trefniannau hirsefydlog neu gonfensiynau cymdeithasol.<sup>224</sup> Ffactor pwysig arall yw'r tebygolrwydd fod offer a dulliau'r Cymry eisoes yn addas iawn ar gyfer amgylchiadau brwydro eu gwlad eu hunain, fel na fyddai newidiadau wedi rhoi unrhyw fantais dactegol mewn llawer o achosion.<sup>225</sup> Mae Sean Davies wedi dadlau bod tuedd gan ysgolheigion i orbwysleisio rhagoriaeth filwrol yr Eingl-Normaniaid o'u cymharu â'r Cymry, a bod milwyr Cymreig canoloesol yn medru bod yn effeithiol iawn mewn brwydr, yn enwedig wrth frwydro dan arweinyddiaeth eu harglwyddi eu hunain.<sup>226</sup>

Nid offer ymarferol yn unig oedd arfau, er hynny. Tynnodd Sean Davies sylw at bwysigrwydd 'steil' yng nghyd-destun arfau ac arfwisgoedd, hynny yw, 'the need for Welsh nobility to keep up with the latest fashions and be seen in the best light'.<sup>227</sup> Gallai'r tywysogion fod wedi mabwysiadu'r offer rhyfel diweddaraf, felly, fel arwydd o'u grym a'u statws mewn perthynas â rheolwyr eraill, ac efallai'n enwedig â'u huchelwyr eu hunain, fel y dadleuodd Huw Pryce.<sup>228</sup> Mae tystiolaeth archeolegol am fewnforio gwrthrychau statws-uchel eraill i Gymru o'r Almaen ac o Ffrainc, megis yr *aquamanile* efydd ar ffurf carw o Gwm Nantcol, Meirionydd, y ffigur aloi copr enamelog o Grist ar y Groes o gastell Cricieth a'r jygiau gwin o Gricieth ac o Gastell y Bere,<sup>229</sup> ac fe fyddai mewnforio deunydd ar gyfer dillad ceinion yn cynyddu drwy gyfnod y tywysogion.<sup>230</sup> Nid oedd parodrwydd y tywysogion i flasau ffrwyth diwylliannau eraill yn gyfyngedig i eiddo symudol, ychwaith.

---

<sup>224</sup> Yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg fe gofnodwyd nifer o orchmynion i siryfion neu feiliau y Mers i atal cyflenwadau o haearn, dur neu arfau rhag cyrraedd y Cymry (Suppe, *Military Institutions*, t. 25). Awgrymodd Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 144-5, fod arfau Cymreig, hyd y drydedd ganrif ar ddeg, yn parhau i gael eu cynhyrchu'n lleol gan grefftwyr a deithiai rhwng llysoedd y tywysogion. Diau fod rhai offer statws-uchel yn cael eu mewnforio, fodd bynnag, ac fe fyddai ysbail yn ffynhonnell arall ar gyfer arfau ac arfwisgoedd (gw. uchod n. 7).

<sup>225</sup> Credir bod tirwedd Cymru wedi ffafrio milwyr ac iddynt arfogaeth ysgafn a dulliau brwydro hyblyg (gw. adran 2.2.3.3).

<sup>226</sup> *Welsh Military Institutions*, tt. 85-89 a 125-40, a gw. hefyd Leslie Alcock, *Kings and Warriors, Craftsmen and Priests in Northern Britain A.D. 550-850*, (Edinburgh, 2003), t. 148, sy'n dadlau bod byddinoedd gwahanol bobloedd Prydain yn yr Oesoedd Tywyll yn 'more or less evenly matched'.

<sup>227</sup> *Welsh Military Institutions*, t. 176.

<sup>228</sup> Gw. Pryce, 'Welsh Rulers and European Change', t. 50, sy'n trafod ymateb tywysogion i ddylanwadau Eingl-Ffrengig yn gyffredinol, a hefyd Stephenson, *The Governance of Gwynedd*, t. 193.

<sup>229</sup> Lord, *Visual Culture*, tt. 137-9.

<sup>230</sup> Alaw Mai Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', tt. 33-4.

Gellir gweld dylanwadau estron ym mhensaerniaeth eglwysi Cymreig,<sup>231</sup> ac fe fyddai'r Cymry'n efelychu neu'n addasu dulliau'r Eingl-Normaniaid o adeiladu cestyll, ac o ymosod arnynt ag offer gwarchae arbennig.<sup>232</sup>

Mae'n arwyddocaol fod y tywysogion, o ail hanner y ddeuddegfed ganrif ymlaen, wedi dewis efelychu'r darluniau marchogol ar seliau uchelwyr a brenhinoedd Lloegr wrth gynllunio eu seliau hwythau, a bod cyfeiriadau atynt yn defnyddio arfbais herodrol debyg i arfbais brenhinoedd Lloegr rywbyrd yn ystod y ganrif ddilynol.<sup>233</sup> Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg fe fyddai rhai Cymry'n cael eu hurddo'n farchogion, hyd yn oed.<sup>234</sup> Er nad yw'n debygol fod hyn yn gyffredin o fewn tiriogaethau'r tywysogion – ac yn wir, fe all nad oedd y tywysogion yn awyddus i hybu'r arfer hwn<sup>235</sup> – ymddengys iddynt hwythau fabwysiadu rhai offer a gysylltid â'r marchog, megis tarianau ac iddynt waelod pigfain, ac arfwisg drom (o leiaf i geffylau).<sup>236</sup> Yn ogystal â'r datblygiadau hyn, byddai'r tywysogion yn cyflwyno datblygiadau eraill a seiliwyd ar arferion o Loegr a Ewrop, mewn perthynas â llywodraeth, trethi, y gyfraith a gweinyddiaeth.<sup>237</sup>

Erys amheuaeth ynghylch y cwestiwn i ba raddau y byddai'r dosbarthiadau uchelwrol yng Nghymru'n debyg – neu'n wahanol – i'w cyfoeswyr yn Lloegr neu'r Mers, o ran eu hoffer

---

<sup>231</sup> Mabwysiadwyd y dull Romanésg gan dywysogion Cymreig y gogledd yn hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif, wrth adeiladau eglwysi megis y rhai yn Nhywyn ac Aberffraw, a'r addurn yn adlewyrchu patrymau o Iwerddon a Ffrainc yn ogystal â rhai o Loegr (Lord, *Visual Culture*, tt. 61-3 a 75-6).

<sup>232</sup> Gwelir y datblygiadau hyn o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif ymlaen. Byddai'r Cymry'n addasu dulliau'r Eingl-Normaniaid ac yn eu cyfuno â thechnegau brodorol wrth ddechrau adeiladu cestyll o gerrig (o'u cyferbynnu â'r rhai pren cynharach) tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, gan ddechrau defnyddio peiriannau gwarchae erbyn tua'r un pryd. Gw. Avent, *Cestyll Tywysogion Gwynedd*; Paul R. Davis, *Castles of the Welsh Princes* (Swansea, 1988), a Keith Williams-Jones, *The Meirioneth Lay Subsidy Roll 1292-3* (Cardiff, 1976), tt. cxxii-cxxiii.

<sup>233</sup> Pryce, 'Welsh Rulers and European Change', t. 40; Crouch, *The Image of Aristocracy*, tt. 155-63, 204 a 241-2; Michael Powell Siddons, 'Welsh Equestrian Seals', *CLIGC* 23 (1983-4), 292-318, a Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, vol. I (Aberystwyth, 1991), tt. 280-2 a 291-3. Rhaid nodi, fodd bynnag, fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth am ddefnydd y tywysogion o herodraeth yn dod o'r tu allan i Gymru (gw. adran 2.13.3 isod).

<sup>234</sup> Crouch, *The Image of Aristocracy*, tt. 155-63, a Max Lieberman, 'The First Welsh Knights', darlith a draddodwyd ym Phedwerydd Colociwm Bangor ar Gymru'r Oesoedd Canol, Prifysgol Bangor, 8-9 Tachwedd 2008. Mor gynnar â 1114 fe urddwyd Owain, mab Cadwgan ap Bleddyn o Bowys, yn farchog gan y Brenin Harri I, gan deithio gydag ef i Normandi yn ôl Brut y Tywysogion (ByT (RBH) a ByT (Pen. 20, cyf.), d.f. 1114), er nad oes sicrwydd am arwyddocâd y cyfeiriad hwn.

<sup>235</sup> E.e. cwynodd Rhys ap Maredudd mewn llythyr yn 1277 neu 1278 fod Hywel ap Gruffudd (ab Ednyfed Fychan) wedi esgeuluso dod i'w lys i drafod achos cyfreithiol ar ôl iddo gael ei urddo'n farchog (*Acts*, rhif 94).

<sup>236</sup> Trafodir arfwisg i geffylau isod, adran 2.2.3.3, a gw. adran 2.13.3 am darianau. Mae'r cwestiwn a fabwysiadwyd hefyd ddull marchogion o ymladd â gwaywffon lonydd, 'couched', yn un dadleuol (gw. adran 2.2.3.3).

<sup>237</sup> Stephenson, *The Governance of Gwynedd*; J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Prince of Wales* (Cardiff, 1998), pennod 5, a Pryce, 'Welsh Rulers and European Change'.

a'u hagweddau. Er bod Robert Bartlett a David Crouch wedi dweud bod 'Anglicization' yn y cyd-destun hwn yn sylweddol erbyn canol y drydedd ganrif ar ddeg, mae Huw Pryce wedi dadlau nad oedd arweinwyr Cymru'n dangos yr un graddau o 'Anglicization' neu 'Europeanization' ag a welwyd yn achos brenhinoedd yr Alban, er enghraifft, a hynny o bosibl o ganlyniad i natur ranedig awdurdod tiriogaethol yng Nghymru.<sup>238</sup> Dywed Pryce, ymhellach:

The willingness of Welsh rulers to cultivate links with the Anglo-French world and adopt aspects of its culture is probably best seen as part of a strategy of distinction designed to elevate their status within native society.<sup>239</sup>

Nid amherthnasol yn y cyd-destun hwn yw'r darlun a geir yn y chwedlau Cymraeg o arwyr Cymreig yn rhith marchogion y traddodiad Normanaidd a chyfandirol.<sup>240</sup> Mae'r 'Tair Rhamant', yn enwedig, yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r 'marchog Cymreig', gan awgrymu bod rhai carfanau o'r gymdeithas ehangach o fewn Cymry'r tywysogion hefyd yn agored i'r cyfryw ddylanwadau, fel y nododd Pryce.<sup>241</sup>

Gwahanol oedd ymateb Beirdd y Tywysogion. Er eu bod yn fodlon mabwysiadu rhai geiriau benthyg o Ffrangeg i roi naws soffistigedig i'w cerddi neu i adlewyrchu statws eu noddwyr,<sup>242</sup> ymddengys eu bod yn gyndyn i efelychu'r math o ddisgrifiadau o farchogion yn brwydro ag a welir mewn testunau rhyddiaith. Yn wir, fel y sylwodd Nerys Ann Jones, mae'r ddelwedd o dywysog yn taflu gwaywffon, megis gwŷr 'Y Gododdin', yn fwy cyffredin yn eu cerddi nag unrhyw awgrym o dywysog yn brwydro â gwaywffon lonydd.<sup>243</sup> Dychwelir yn y bennod olaf i holi i ba raddau y byddai cyfeiriadau'r beirdd at arfau yn adlewyrchu realiti, ac i ba raddau y byddent yn tanbwysleisio pwysigrwydd datblygiadau cyfoes mewn offer rhyfel, naill ai oherwydd confensiynau eu crefft neu am resymau mwy penodol.

---

<sup>238</sup> Pryce, 'Welsh Rulers and European Change', tt. 41-2, a gw. hefyd Robert Bartlett, *The Making of Europe: Conquest, Colonization, and Cultural Change, 950-1350* (London, 1993), t. 72: 'By the mid-thirteenth century the rulers of, for instance, Wales or Pomerania had become virtually indistinguishable from their foes in armament and methods of waging war (as in much else)'; a Crouch, *The Image of Aristocracy*, t. 161: 'Anglicisation affected all levels of the Welsh aristocracy, from the princely houses to some modest uchelwyr'.

<sup>239</sup> 'Welsh Rulers and European Change', t. 45.

<sup>240</sup> Gw. ymdriniaethau Morfydd E. Owen, "'Arbennic Milwyr a Blodeu Marchogyon": Cymdeithas *Peredur*', yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 91-112, a Sioned Davies, 'Horses in the *Mabinogion*', yn Sioned Davies and N.A. Jones (eds.), *The Horse in Celtic Culture*, tt. 121-40.

<sup>241</sup> 'Welsh Rulers and European Change', t.48.

<sup>242</sup> Surridge, 'Words of Romance Origin in the Works of the Gogynfeirdd', a gw. adran 1.4.3 uchod.

<sup>243</sup> N.A. Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', t. 89.

## 1.6 Barddoniaeth, hanes ac archeoleg

Er bod angen cadw mewn cof barhad delweddaeth draddodiadol, ffocws cryf y beirdd ar eu noddwyr bonheddig a'u hawydd i greu darlun delfrydol bob amser – a'r darlun hwnnw yn aml yn anfanwl ac yn ystrydebol – erys y ffaith fod Beirdd y Tywysogion yn cyfansoddi eu cerddi mawl ar gyfer cynulleidfa oedd a fyddai'n gyfarwydd iawn â'r realiti cyfoes. Yn achos eu disgrifiadau o frwydrau penodol, yn arbennig, y tebyg yw y byddai'r gynulleidfa wedi cynnwys nifer o lygad-dystion ar wahân i'r prif wrthrych a folid, a hwythau'n medru sylwi ar gamgymeriadau neu gelwyddau noeth – er bod gwahaniaeth mawr rhwng dweud celwydd a 'gwella ar y gwir' o fewn cyfyngiadau'r confensiynau mawl a fyddai'n hysbys i bawb. Hyd yn oed yn achos canmoliaeth fwy cyffredinol, byddai angen i ddelweddaeth y beirdd gadw rhyw fath o gysylltiad â realiti, neu, o leiaf, â thraddodiadau a oedd yn hysbys i'r gynulleidfa.<sup>244</sup>

Cytunir erbyn hyn fod cerddi Beirdd y Tywysogion yn ffynhonnell bwysig a defnyddiol, o gael eu dehongli â gofal,<sup>245</sup> ac yn wir mae ysgolheigion yn sylwi ar eu gwerth hanesyddol ers canrif a mwy. Yn 1903, nododd Charles Wilkins, mewn perthynas ag arfau:

In the poems of the bards we have a good deal of fossil history, and gain material which the annalist of battles passed over.<sup>246</sup>

Dangosodd J. Lloyd-Jones fod marwnadau Beirdd y Tywysogion, yn arbennig, yn medru cynnig manylion am amgylchiadau marwolaeth y gwrthrych nas ceir mewn manau eraill,<sup>247</sup> ac fe nododd Morfydd E. Owen fod cyfeiriadau'r beirdd at ddigwyddiadau cyfoes yn hynod o gywir, er bod rhai o'r disgrifiadau a'r syniadau a fynegir yn eu cerddi yn ymddangos fel pe baent yn perthyn i gyfnod cynharach.<sup>248</sup> Cyfeiriodd J.E. Lloyd ambell waith at gerddi'r beirdd yn ei lyfr tra phwysig *A History of Wales* a gyhoeddwyd yn 1911, ac yn llawer mwy diweddar mae J. Beverley Smith wedi gwneud defnydd helaeth o farddoniaeth wrth olrhain rhawd Llywelyn ap Gruffudd a Hywel ab Owain Gwynedd ac

---

<sup>244</sup> Gw. Morfydd E. Owen, 'Literary Convention and Historical Reality: the Court in the Welsh Poetry of the Twelfth and Thirteenth Centuries', *Études celtiques*, 22 (1992), 69-85 (84), wrth drafod ymdriniaethau'r beirdd â bywyd y llys: 'such topos and convention would have had no validity unless they had some contact with historical reality'.

<sup>245</sup> Gw., e.e., N.A. Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', tt. 85-6, a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 10-11, a hefyd adran 1.1 uchod wrth drafod delweddau ystrydebol.

<sup>246</sup> *The History of the Iron, Steel, Tinplate and other Trades of Wales* (Merthyr Tydfil, 1903), t. 10.

<sup>247</sup> Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 186.

<sup>248</sup> *Golwg Bardd Cymreig yr Oesoedd Canol ar Gymdeithas*, a 'Noddwyr a Beirdd', t. 87.

wrth drafod y cydymwneud rhwng y tywysogion, eu beirdd a'u pobl.<sup>249</sup> Mae Peredur Lynch wedi dangos cymaint y gellir ei ddysgu oddi wrth gerddi Beirdd y Tywysogion am 'historical reality and patterns of power',<sup>250</sup> ac yng nghyd-destun rhyfel fe wnaeth Sean Davies ddefnydd o'r Hengerdd ac o gerddi Beirdd y Tywysogion yn ei lyfr *Welsh Military Institutions*.<sup>251</sup> Yn fwy diweddar fyth, defnyddiodd Gruffydd Aled Williams gyfeiriadau'r beirdd at ymgyrchoedd Owain Cyfeiliog i ddangos sut y gellir defnyddio barddoniaeth i ychwanegu at ein gwybodaeth o 'ficro-hanes' milwrol.<sup>252</sup>

O ran arfau a dulliau brwydro, yn benodol, teg yw dweud mai'r Hengerdd a gafodd y sylw mwyaf, a'r 'Gododdin' yn arbennig.<sup>253</sup> Diau fod hyn yn gysylltiedig nid yn unig â'i gwerth amlwg fel darn o lenyddiaeth bwysig a chynnar, ond hefyd â'r ffaith fod gennym gyn lleied o dystiolaeth, yn gyffredinol, am ddulliau brwydro'r Cymry neu'r Brythoniaid yn yr Oesoedd Tywyll. Ond er bod y rhan fwyaf o ysgolheigion yn cytuno bod rhai elfennau hen iawn yn 'Y Gododdin', mae gwahaniaethau barn sylweddol ynghylch ei 'historicity',<sup>254</sup> ac mae problem y 'ddadl gylch' yn un sylweddol, fel y nododd Leslie Alcock:

---

<sup>249</sup> 'Gwlad ac Arglwydd'; *Llywelyn ap Gruffudd*, a 'Hywel ab Owain Gwynedd a Gwleidyddiaeth Gwynedd'. Gw. yn arbennig 'Gwlad ac Arglwydd', t. 239: 'Y mae modd i foliant, yn ogystal â dathlu gwrhydri, adlewyrchu rhywbeth o wrthdrawiadau mewnol y deyrnas'.

<sup>250</sup> 'Court Poetry, Power and Politics', yn enwedig t. 167.

<sup>251</sup> Sean Davies, *Welsh Military Institutions*. Am ymdriniaethau â rhyfel mewn llenyddiaethau eraill gw., e.e., Simms, 'Images of Warfare', a Hanley, *War and Combat*.

<sup>252</sup> 'Welsh Raiding'.

<sup>253</sup> Gw., e.e., I. Williams, CA t. xlvi; Jackson, GOSP tt. 28-30; Jenny Rowland, 'Warfare and Horses in the *Gododdin* and the Problem of Catraeth', *CMCS* 30 (1995), 13-40; Alcock, *Kings and Warriors*, tt. 160-78, a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*.

<sup>254</sup> Gw. Kenneth Jackson, 'The Britons in Southern Scotland', *Antiquity*, 29 (1955), 77-88, yn dweud (t. 78) y gellir trin cerddi 'dilys' Taliesin a'r 'Gododdin' fel tystiolaeth hanesyddol 'if they are used with great caution'; Jackson, GOSP t. 28 ('Although the poems are elegies and not narrative, they do tell us, incidentally, something about various aspects of the life and "material culture" of the men of Gododdin, or at least as these were seen through the eyes of the author'); T.M. Charles-Edwards, 'The Authenticity of the Gododdin: an Historian's View', yn AH tt. 44-71 (yn enwedig t. 66: 'The historical arguments, therefore, suggest that the poem is the authentic work of Aneirin; that we can establish the essential nature of the poem from the two surviving versions; but that we cannot, except in favourable circumstances, establish the wording of the original'), ond gthg. Dumville, 'Early Welsh Poetry: Problems of Historicity', t. 8: 'The historical context is so undefined that it effectively eludes our grasp'. Gw. hefyd David N. Dumville, 'Sub-Roman Britain: History and Legend', *History*, 62 (1977), 173-92, am ffynonellau llenyddol eraill a ddefnyddir yn aml ar gyfer y cyfnod hwn, ac Isaac, Adolygiad o GodA, 143: 'Y gwir yw nad yw'n eglur a oes gan y *Gododdin* ddilysrwydd fel ffynhonnell hanesyddol am y chweched ganrif'. Gw. hefyd John T. Koch, Raimund Karl, Antone Minard and Simon Ó Faoláin, *An Atlas for Celtic Studies: Archaeology and Names in Ancient Europe and Early Medieval Ireland, Britain, and Brittany* (Oxford, 2007), t. 169: 'the historical value of this poetry has been repeatedly vindicated, only to be called into question yet again', gan nodi bod angen ymdrin â'r farddoniaeth gynnar â gofal am ei bod wedi newid, drwy 'modernization, interpolation and corruption', wrth gael ei throsglwyddo.

. . . the poem may give us the genuine flavour and ethos of the heroic society of the late sixth and seventh centuries: though here the argument may be somewhat circular, since our knowledge of that ethos is not wholly independent of the poem.<sup>255</sup>

Maentumiodd Alcock, serch hynny, fod rhaid defnyddio ffynonellau llenyddol er mwyn dehongli tystiolaeth archeolegol mewn perthynas ag agweddau cymdeithasol, milwrol ac economaidd ar fywyd y bumed ganrif hyd y seithfed ganrif, er cydnabod bod rhaid ymdrin â'r dystiolaeth lenyddol â gofal, a hynny'n enwedig yn achos llenyddiaeth greadigol.<sup>256</sup> Nododd Alcock fod archeoleg yn medru rhoi atebion pwysig i rai cwestiynau llenyddol a hanesyddol, hefyd,<sup>257</sup> ac yn wir fe fu'n arloesi yn y maes hwn. Trafododd nifer o agweddau ar archeoleg Cymru a'r 'Hen Ogledd' mewn perthynas â ffynonellau llenyddol, a'r 'Gododdin' yn eu plith, gan gynnwys safleoedd cyfan ac adeiladau yn ogystal â gwrthrychau megis arfau, gwydrau yfed, a'r cadwyni arian Pictaidd yr awgrymodd eu bod yn cyfateb i dorchau aur y beirdd.<sup>258</sup>

Mae gwahanol olygyddion cerddi'r Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion hefyd wedi awgrymu cyfatebiaethau rhwng rhai o gyfeiriadau'r beirdd a thystiolaeth archeolegol, hanesyddol neu lenyddol, ac fe gyfeirir yn aml at eu gwaith yn nhrydedd bennod y traethawd hwn. At hynny, mae syniadau newydd am ddehongliad rhai cyfeiriadau wedi eu cyhoeddi fel nodiadau mewn erthyglau unigol, neu mewn llyfrau sy'n ymdrin ag archeoleg neu ddiwylliant materol yn bennaf.<sup>259</sup> O'r ochr lenyddol, hefyd, mae astudiaethau Nerys Ann Jones a Jane Ryan ar geffylau, ac astudiaeth Alaw Mai Jones ar ddillad ac ategolion, yn ymgorffori rhai agweddau sy'n berthnasol i offer rhyfel.<sup>260</sup>

Nid yw trafod tystiolaeth lenyddol mewn perthynas ag archeoleg yn gyfyngedig i destunau Cymraeg, wrth reswm. Mae'r gydberthynas rhwng llenyddiaeth Hen Saesneg ac archeoleg

---

<sup>255</sup> 'Gwŷr y Gogledd: an Archaeological Appraisal', *Archaeologia Cambrensis*, 132 (1983), 1-18 (17), a chymh. Rosemary Cramp, 'Beowulf and Archaeology', *Medieval Archaeology*, 1 (1957), 57-77 (58): '[finding a date for *Beowulf*] is not easy to do, and a circle of arguments can develop, for the archaeologist has to understand the literary and linguistic problems of the poem before he can give an opinion as to whether the poet has mingled together objects and conditions that could never have existed simultaneously'.

<sup>256</sup> Alcock, *Economy, Society and Warfare*, t. 84-8, a gw. y drafodaeth ehangach yno.

<sup>257</sup> *Economy, Society and Warfare*, t. 87.

<sup>258</sup> Gw. *Arthur's Britain: History and Archaeology, AD367-634* (London, 1971); *Economy, Society and Warfare*; 'Gwŷr y Gogledd', a *Kings and Warriors*. Trafodir deongliadau gwahanol o dorchau'r beirdd ym Mhennod 4 isod (adran 4.3).

<sup>259</sup> E.e. M.J. Swanton, *The Spearheads of the Anglo-Saxon Settlements* (London, 1973), a David A. Hinton, *Gold and Gilt, Pots and Pins: Possessions and People in Medieval Britain* (Oxford, 2005).

<sup>260</sup> N.A. Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry'; Jane Ryan, 'A Study of Horses in Early and Medieval Welsh Literature, c. 600 - c. 1300 A.D.' (MA Thesis, Cardiff, 1993), ac A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion'.



wedi ennill sylw mawr gan ysgolheigion, yn enwedig wrth gymharu diwylliant materol *Beowulf* â'r gwrthrychau trawiadol o long-gladdfa Sutton Hoo a ddarganfuwyd yn 1939, a hefyd â'r darganfyddiadau diweddar o Walsall, ger Caerlwythgoed.<sup>261</sup> Mae cyd-destun materol chwedlau Gwyddeleg, yn enwedig Cylch Wlster, hefyd wedi denu sylw mawr. Galwodd Kenneth Jackson y chwedlau hyn yn 'Window on the Iron Age',<sup>262</sup> ond fe ddadleuodd J.P. Mallory eu bod, yn hytrach, yn adlewyrchu diwylliant yr Oesoedd Tywyll, yn gymysg ag ymdrechion yr awduron i 'ail-greu' byd o'r gorffennol a weddai i'w harwyr.<sup>263</sup>

Nododd Mallory y gellir defnyddio cymariaethau rhwng cyfeiriadau llenyddol a thystiolaeth archeolegol at wahanol ddibenion. Yn gyntaf, gellir ceisio esbonio neu 'ddarlunio' cyfeiriadau llenyddol moel neu amwys drwy chwilio am wrthrych tebyg; hynny yw, 'to flesh out the early literature with the evidence of archaeology', yng ngeiriau Mallory.<sup>264</sup> Gellir gwneud hyn yn weddol hyderus yn achos testunau ac iddynt gyd-destun hanesyddol eglur, ond mwy problemus yw'r rhai y mae eu dyddiad yn ddadleuol. Nododd Mallory fod astudiaethau cynnar ar y testunau Gwyddeleg yn eu cysylltu â gwrthrychau o amryw ddiwylliannau yn estyn dros 3000 o flynyddoedd,<sup>265</sup> ac, mewn perthynas â *Beowulf* a Sutton Hoo, tynnodd Rupert Bruce-Mitford sylw at y camgymeriadau y gellir eu gwneud wrth chwilio'n rhy awyddus am 'ddarluniau' ymhlith darganfyddiadau archeolegol:

Archaeologists must not claim too much for their discoveries, lest they mislead colleagues in other fields of study, or worse, cause the evidence itself to be underestimated. Equally, literary and linguistic scholars must be careful not to get carried away by enthusiasm in finding in archaeological evidence interpretations of detail in the poem, when archaeologists themselves are aware of the deficiencies of that evidence.<sup>266</sup>

O gael ei defnyddio'n ofalus, serch hynny, gallai tystiolaeth archeolegol weithredu nid yn unig fel darluniad o destun – fel y gwnaethpwyd yn llythrennol, er enghraifft, ar gyfer

---

<sup>261</sup> Gw. Girvan, *Beowulf and the Seventh Century* (yn enwedig pennod Rupert Bruce-Mitford, tt. 85-98), a Cramp, 'Beowulf and Archaeology', a chymh. sylwadau John Hines, *Voices in the Past: English Literature and Archaeology* (Cambridge, 2004), t. 29; ac am 'gronfa Swydd Stafford' gw. [www.staffordshireboard.org.uk](http://www.staffordshireboard.org.uk), ac yn enwedig deongliadau Kevin Leahy a Nicholas Brooks. At hynny, nododd Cramp fod J. Bateman wedi cyfeirio at *Beowulf* ymhell cyn darganfyddiad Sutton Hoo, wrth drafod helm o Benty Grange ('Beowulf and Archaeology', 57, yn cyfeirio at Bateman, *Ten Years' Diggings in Celtic Saxon Grave Hills* (London, 1861), t. 33)). Gw. ymhellach Jane Roberts, 'Anglo-Saxon Vocabulary as a Reflection of Material Culture', yn Martin Carver (ed.), *The Age of Sutton Hoo: the Seventh Century in North-Western Europe* (Woodbridge, 1992), tt. 185-74.

<sup>262</sup> Jackson, *The Oldest Irish Tradition*.

<sup>263</sup> J.P. Mallory, 'The World of Cú Chulainn: The Archaeology of the *Táin Bó Cúailnge*', yn J.P. Mallory (ed.), *Aspects of the Táin* (Belfast, 1992), tt. 103-59 (t. 153).

<sup>264</sup> 'The World of Cú Chulainn', t. 103, a gw. hefyd Cramp, 'Beowulf ac Archaeology', 77.

<sup>265</sup> 'The World of Cú Chulainn', t. 105.

<sup>266</sup> Yn Girvan, *Beowulf and the Seventh Century*, tt. 91-2.

cyfieithiad Seamus Heaney o *Beowulf*<sup>267</sup> – ond hefyd fel cymorth i ddeall pam y byddai'r beirdd yn canolbwyntio ar rai gwrthrychau (yn hytrach nag eraill) wrth ganmol rhyfelwyr bonheddig, fel y dywedodd Rosemary Cramp:

... a knowledge of the excellencies and refinements of Anglo-Saxon craftsmanship enables us to appreciate what governed the poet's choice of epithet in stressing the features that he did stress in more complicated passages of description.<sup>268</sup>

Gellid hefyd ddefnyddio tystiolaeth archeolegol i geisio penderfynu dyddiad testunau, drwy 'gloddio' y testunau eu hunain yn drwyadl, ac wedyn cymharu'r cyfeiriadau hyn yn oddrychol â'r dystiolaeth archeolegol.<sup>269</sup> Ond mae cyfyngiadau mawr i'r dull hwn, fel y mae Mallory wedi dangos, oherwydd amwyster cyfeiriadau llenyddol, diffygion tystiolaeth archeolegol (mae rhai gwrthrychau'n goroesi'n well nag eraill), a phatrymau defnyddio arfau dros amser.<sup>270</sup> Yn achos barddoniaeth, mae amwyster a chrynodder y cyfeiriadau at arfau yn ystyriaeth fawr, ac felly hefyd ddefnydd y beirdd o ddelweddaeth draddodiadol hyd yn oed wrth foli noddwyr cyfoes.<sup>271</sup> Ac o'r ochr archeolegol, nid oes ond ychydig o bethau y gellir eu defnyddio'n hyderus fel 'chronological markers' ar sail newidiadau cronolegol yn eu ffurf, neu oherwydd eu presenoldeb neu eu habsenoldeb mewn cyfnod arbennig.<sup>272</sup> O ran y gweddill, gallent fod yn anaddas at y diben hwn oherwydd iddynt gael eu defnyddio'n gyson dros gyfnod hir iawn, a'u ffurf heb newid rhyw lawer, neu ar y llaw arall fe allent ddangos amrywiaeth fawr hyd yn oed o fewn yr un cyfnod hanesyddol, a'r un ffurfiau'n ailymddangos mewn cyfnodau a diwylliannau gwahanol iawn.<sup>273</sup>

Fel y dywedodd Morfydd E. Owen, diau fod y cerddi Cymraeg yn cynnig rhyw fath o ffenestr neu ddrych ar y diwylliant canoloesol, a honno'n caniatáu cipolygon yn ôl at

---

<sup>267</sup> Seamus Heaney (trans.), with illustrations edited by John D. Niles, *Beowulf: An Illustrated Edition* (New York & London, 2008).

<sup>268</sup> Gw. Cramp, 'Beowulf and Archaeology', 77.

<sup>269</sup> Mallory, 'The World of Cú Chulainn', tt. 114-15.

<sup>270</sup> Mallory, 'The World of Cú Chulainn', tt. 114-15.

<sup>271</sup> E.e. mae torchau aur yn cael eu crybwyll fel ategolion rhyfelwyr bonheddig nid yn unig yn 'Y Gododdin' ond hefyd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion (gw. adran 4.3 a 4.7). (Mae torchau yn *Beowulf*, hefyd; gw. Barbara Raw, 'Royal Power and Royal Symbols in *Beowulf*', yn Carver (ed.), *The Age of Sutton Hoo*, tt. 167-74).

<sup>272</sup> Mae Mallory, 'The World of Cú Chulainn', tt. 114-15, yn rhoi fel enghraifft o 'farcwr' da y bwa saethu, a aeth yn anarferedig yn Iwerddon ar ddiwedd yr Oes Efydd, ond a gafodd ei ailgyflwyno yn nghyfnod y Llychlynwyr.

<sup>273</sup> E.e. mae pennau gwaywffyn Oes Haearn o'r diwylliant 'La Tène' yn amrywiol iawn, a rhai o'r ffurfiau'n debyg i rai a geir mewn cyfnodau eraill; roedd hyd yn oed un a chanddo ymylon tonnog, tebyg i *kris* neu gleddyf crych Maleiaidd (Oakeshott, *The Archaeology of Weapons*, tt. 60-1). Gwelir amrywiaeth fawr hefyd yn achos y pennau gwaywffon Eingl-Sacsonaidd Cynnar niferus sydd wedi'u darganfod yn Lloegr (Swanton, *Spearheads*, tt. 9-10, a gw. isod adran 2.2.1); byddai rhai'n diflannu erbyn y cyfnod Eingl-Sacsonaidd Diweddar, ond ailymddangosodd un o'r ffurfiau hyn (neu ffurf debyg) yn yr Oesoedd Canol, sef pennau gwaywffon sgwâr mewn croestoriad ar gyfer trywanu drwy arfwisg (gw. isod adran 2.2.1).

gyfnodau cynharach.<sup>274</sup> Ond ‘drych gwyrddroadol’ ydyw,<sup>275</sup> a’r ddelweddaeth y gellir ei chanfod heddiw wedi ei gwyrddroi nid yn unig gan y diffygion yn ein dealltwriaeth ninnau am gonfensiynau barddol ac arferion cyfoes, ond hefyd gan amcanion llenyddol a gwleidyddol y beirdd eu hunain. Ni ddylid cymryd bod hyn yn beth hollol negyddol, er hynny. Mae’r ail fath o wyrddroi o ddiddordeb ynddo ei hun fel drych i dueddiadau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol – ac yn y cyd-destun hwn, fe allai’r pethau nas crybwyllir gan y beirdd fod lawn mor ddiddorol â’r rhai y cenir eu clodydd o hyd.

### 1.7 Trefn y traethawd hwn

Er mwyn gochel rhag y math o ddadleuon cylch y tynnodd Leslie Alcock sylw atynt (gw. yr adran flaenorol), nod y bennod nesaf yw defnyddio tystiolaeth hanesyddol, archeolegol a darluniadol – ond nid tystiolaeth cerddi a chwedlau Cymraeg – wrth geisio creu darlun o’r mathau o offer rhyfel a allasai fod yn adnabyddus i’r beirdd. Wedyn, yn y drydedd bennod, cyflwynir tystiolaeth y cerddi eu hunain, sef yr holl gyfeiriadau at arfau a gasglwyd drwy ymgynghori â’r golygiadau a gyhoeddwyd yn *Cyfes Beirdd y Tywysogion* ac, yn achos yr Hengerdd, ag ystod eang o olygiadau sydd wedi eu cyhoeddi neu wedi eu cyflwyno mewn traethodau ymchwil.<sup>276</sup> Rhestrir yr holl gyfeiriadau at arfau, fesul gair, mewn dau atodiad ar ddiwedd y traethawd, ond fe’u trafodir yn y drydedd bennod fesul arf, gan nodi yn gyntaf pa eiriau a ddefnyddid ar eu cyfer, cyn ceisio dirnad beth oedd ffurf yr offer a sut y’u defnyddid. Gwneir hyn gyda chymorth y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ail bennod, a thrwy gymharu cyfeiriadau’r beirdd â thystiolaeth lenyddol arall, yn enwedig chwedlau Cymraeg a cherddi beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Tynnir rhai cyffelybiaethau hefyd â chyfeiriadau mewn llenyddiaethau o wledydd eraill wrth geisio dehongli ystyr cyfeiriadau, gan gynnwys ystyron trosiadol neu symbolaidd, er nad yw’n bosibl dihysbyddu’r maes yn drylwyr yma.

Yn yr olaf o’r pedair pennod, trafodir yn fwy manwl y darlun o arfau a geir gan y beirdd mewn perthynas â’r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ail bennod. Trafodir y gwahaniaethau

---

<sup>274</sup> *Golwg Bardd Cymreig yr Oesoedd Canol ar Gymdeithas*, t. 18.

<sup>275</sup> Defnyddiodd Cyril Mango yr ymadrodd hwn mewn perthynas â llenyddiaeth Fysantaidd (*Byzantine Literature as a Distorting Mirror* (Oxford, 1975)).

<sup>276</sup> Defnyddiwyd mynegair Graham R. Isaac i’r Hengerdd (H-cd) wrth benderfynu pa gerddi i’w cynnwys, ac wrth ddod o hyd i olygiadau. Gw. y rhestr fyrfoddau ar ddechrau’r traethawd hwn, am restr lawn o’r cerddi a ystyrir yma.

a'r cyffelybiaethau rhwng cerddi'r Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion, gan drafod y dystiolaeth fod yr Hengerdd, a'r 'Gododdin' yn arbennig, yn cynnwys cyfeiriadau a all berthyn i gyfnod(au) cynharach. Ond canolbwyntir yn bennaf ar sut y defnyddiodd Beirdd y Tywysogion hwythau wahanol fathau o gyfeiriadau – rhai anacronistig, rhai a adlewyrchai realiti'r gymdeithas frodorol gyfoes ac eraill a adlewyrchai ddylanwadau estron newydd (neu ddyheadau am y pethau hynny) – at eu dibenion llenyddol, proffesiynol a gwleidyddol. Trafodir y dystiolaeth am agwedd y tywysogion, a phobl Cymru yn gyffredinol, tuag at yr offer a'r dulliau a gysylltid â marchogion Eingl-Normanaidd, ynghyd â goblygiadau ehangach sifalri a ffiwdaliaeth, gan ystyried i ba raddau yr oedd y beirdd yn defnyddio eu holl arfogaeth hwythau naill ai i hybu'r cyfryw ddylanwadau a datblygiadau neu i frwydro yn eu herbyn.